# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD LLUN,<br>26 MEDI 2016 am 2.00 o'r gloch y.p. | | MONDAY,<br>26 SEPTEMBER, 2016 at 2.00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Shirley Cooke<br>01248 752514 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

D R Hughes (Cadeirydd/Chair), Richard Owain Jones a Dafydd Rhys Thomas
Sedd Wag/Vacant Seat

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes, Carwyn Jones, Alun W Mummery (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Dylan Rees

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Sedd Wag/Vacant Seat

**Heb Ymuno / Unaffiliated**

R.Ll.Jones

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales) and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr Gerallt Llewelyn Jones ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Mentor Môn)

**R H A G L E N**

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod blaenorol gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf, 2016.

4 **CYD-BROTOCOL GOGLEDD CYMRU AR GYFER RHEOLI GWERSYLLOEDD ANAWDURDODEDIG** (Tudalennau 9 - 22)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

5 **PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL (YNYS MÔN A GWYNEDD)** (Tudalennau 23 - 74)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Cyflenwi Diogelwch Cymunedol (Ynys Môn a Gwynedd).

6 **EFFEITHIOLRWYDD CEFNOGAETH GWE WRTH WELLA DEILLIANNAU YSGOLION CATEGORIAU COCH AC OREN 2014-2016** (Tudalennau 75 - 98)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu ac Uwch Ymgynghorydd Her GwE.

7 **RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 99 - 102)

Cyflwyno'r Rhaglen Waith gan y Swyddog Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2016

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Derlwyn Rees Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Alun Wyn Mummery (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr T Ll Hughes, W T Hughes, Carwyn Jones, R Ll Jones a Dylan Rees.<br><br>Y Cynghorydd Aled M. Jones - Aelod Portffolio (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) (ar gyfer eitemau 4 a 5).<br><br>**Aelodau eraill y Cyngor Sir a wahoddwyd i fod yn bresennol**<br><br>Y Cynghorwyr R A Dew, Jim Evans, Jeff M. Evans, John Griffith, K P Hughes, Vaughan Hughes, T V Hughes, H. Eifion Jones, R. Meirion Jones, J. Arwel Roberts, Peter S. Rogers, Alwyn Rowlands. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) (ar gyfer Eitemau 4 a 5),<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) (ar gyfer Eitem 6),<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Rheolwr Strategaeth a Pholisi (CWO) (ar gyfer Eitem 6),<br>Rheolwr Gwasanaethau Technegol (DR) (ar gyfer Eitemau 4 a 5),<br>Uwch Swyddog Eiddo (GJ) (ar gyfer Eitemau 4 a 5),<br>Rheolwr Sgriwtini (BS),<br>Swyddog Sgriwtini (GR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Richard O. Jones, Dafydd R. Thomas - Aelodau o'r Pwyllgor<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Llinos M. Huws, Raymond Jones, Bob Parry OBE, Ieuan Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mrs. Nia Haf Davies - Rheolwr Polisi Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd ac Ynys Môn).<br><br>Mr Mike Evans, Uwch Swyddog Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd ac Ynys Môn).<br><br>Ms Rebecca David-Knight, Prif Ymgynghorydd - Canolfan Craffu |

Cyhoeddus Cymru.

Dywedodd y Cadeirydd fod Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Ieuan Williams, wedi cael profedigaeth yn ddiweddar oherwydd iddo golli ei fam. Fel Cadeirydd y Pwyllgor hwn, ‘roedd yn dymuno cydymdeimlo gydag ef a’i deulu. ‘Roedd yr Aelodau a’r Swyddogion hefyd yn dymuno mynegi eu cydymdeimlad â’r Cynghorydd Williams.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol: -

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mai, 2016
- Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 13 Mai, 2016

**4 MANNAU AROS DROS DRO AR GYFER SIPSIWN A THEITHWYR – CANOL YR YNYS**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd yr Aelod Portffolio (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) bod tri safle wedi eu hystyried: -

Safle 1 - Llain o dir rhwng yr A55 / A5 rhwng Llanfairpwll a Chroesffordd Star;
Safle 2 - Darn o dir ar fân-ddaliad yn y Gaerwen;
Safle 3 - Tir ger yr A5 wrth Fferm Cymunod, Bryngwran.

Yn dilyn ymgynghoriad helaeth, nododd yr Aelod Portffolio yr ystyrir bod y safle ym Mryngwran yn anaddas oherwydd materion a godwyd gan yr Awdurdod Priffyrdd ynglŷn â'r ffaith nad yw’r fynedfa i'r safle yn cwrdd â’r gofynion sylfaenol o ran y llain welededd. ‘Roedd safleoedd 1 a 2 ar ôl i’w hystyried fel mannau aros dros dro ar gyfer sipsiwn a theithwyr.

Adroddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) bod y cyfnod ymgynghori wedi cynnwys digwyddiadau galw heibio a chyfarfodydd gyda Chynghorau Cymuned sy’n cynrychioli’r ardaloedd lle gallai’r safleoedd gael eu lleoli. Cwblhawyd holiaduron ar-lein a chafwyd gohebiaeth gan nifer o drigolion a busnesau. Cafwyd ymatebion hefyd gan ymgyngoreion sector cyhoeddus ac roedd yr ymatebion hynny wedi eu cynnwys gyda'r adroddiad i'r Pwyllgor hwn.

Dywedodd y Swyddog bod ffactorau o blaid ac yn erbyn y safleoedd yn y Gaerwen a Star. Y Cyngor Sir sydd biau’r mân-ddaliad yn y Gaerwen ar hyn o bryd ac ni fyddai

mynediad i’r safle trwy'r A55 yn amharu ar bentrefi lleol. Fodd bynnag, mae angen ystyried pa mor agos ydyw at y Parc Gwyddoniaeth. Mae Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd wedi nodi Cyfyngiad Mawr; nid yw hynny ynddo’i hun yn golygu y gellir diystyru’r safle hwn oherwydd y gallai cynnal archwiliadau archeolegol fesul cam, ynghyd â rhoi sylw gofalus i ddyluniad y safle fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Mae llai o bryderon datblygu economaidd a thechnegol am y safle yn Star ond byddai costau ychwanegol o ganlyniad i'r angen i brynu dau ddarn o dir ar wahân i sefydlu safle.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i Mr. Mark Inwood annerch y cyfarfod fel un sy’n byw yn yr ardal ac sy’n cynrychioli trigolion Star, Gaerwen. Dywedodd Mr. Inwood y gwnaed llawer o waith ac ymdrech i ddeall y polisïau o ran sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i wneud penderfyniad mewn perthynas â’r safle yn Star. Dywedodd nad yw trigolion Star ar hyn o bryd yn gallu derbyn y polisïau a ddefnyddiwyd gan yr awdurdod; nid oes cyfeiriad ynghylch a yw'r safle o fewn Ardal Gwarchod Tirwedd. Mae gan y trigolion nifer o bryderon ynghylch y broses asesu ac un o’r rhai mwyaf yw nad oes unrhyw asesiad risg wedi cael ei wneud ar y safle yn Star; ym marn Mr. Inwood mae’n rhaid cynnal asesiad o'r fath yn unol â’r gyfraith. Dywedodd Mr. Inwood ymhellach nad oedd gohebiaeth ddiweddar rhyngddo ef a swyddogion y Cyngor wedi ei rhoi i aelodau'r Pwyllgor tan 24 awr cyn y cyfarfod; felly mae trigolion Star wedi colli ffydd ym mhrosesau’r awdurdod mewn perthynas â’r safle i deithwyr yn Star ac nid oes ganddynt unrhyw ddewis ond sbarduno’r broses gwyno gyda'r Ombwdsmon ar gyfer Llywodraeth Leol. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) gan ddweud fod yr Awdurdod wedi ymateb yn helaeth i faterion a godwyd mewn gohebiaeth ddiweddar a bod cyfarfod wedi ei gynnal rhwng Swyddogion a Mr. Inwood i fynd i'r afael â'i bryderon.

Dywedodd y Rheolwr Polisi Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd ac Ynys Môn) ei bod yn hyderus bod yr Awdurdod wedi mynd i'r afael â materion a godwyd mewn perthynas â'r Safle Aros Dros Dro arfaethedig i Deithwyr yn Star. Mae’r ffactorau y mae'r Awdurdod wedi eu defnyddio i ystyried y safle wedi eu nodi’n glir yn y ddogfen ymgynghori ac maent yn dderbyniol. Wrth benderfynu ar fannau aros posib penodol, ystyriwyd ffactorau eraill hefyd, megis hygyrchedd, isadeiledd, ffactorau ffisegol ac amgylcheddol a chynefinoedd a rhywogaethau a ddiogelir. Mae’n fwy priodol ystyried materion eraill a godwyd gan Mr Inwood fel rhan o ddyluniad y safle ac wrth baratoi cais cynllunio, tra bod eraill yn ymwneud â rheolaeth weithredol unrhyw safle.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i’r adroddiad a chodwyd y prif faterion a ganlyn: -

- Mae angen cynnal asesiad risg ar bob safle arfaethedig i deithwyr. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) y bydd gwaith dylunio’n cael ei wneud unwaith y bydd safle wedi ei glustnodi ac wedi hynny bydd angen cyflwyno cais cynllunio i'r awdurdod lleol. Bydd asesiad risg yn rhan o'r broses cais cynllunio; cadarnhaodd y Rheolwr Polisi Cynllunio nad oes raid cynnal asesiad risg i nodi safleoedd ar gyfer eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu ar y Cyd;
- Codwyd cwestiynau ynghylch y posibilrwydd y bydd sipsiwn a theithwyr yn penderfynu peidio â defnyddio'r safleoedd dynodedig ac y byddant yn gwersylla heb ganiatâd ar dir ar yr Ynys. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) y cynhaliwyd deialog gyda'r sipsiwn a’r teithwyr trwy Hwylusydd Annibynnol a chafwyd ar ddeall bod rhai ohonynt wedi bod yn ymweld â'r ynys ers nifer o flynyddoedd ac na fyddent ond angen safle am gyfnod byr bob blwyddyn. Maent wedi

dweud y byddent yn defnyddio safle dynodedig ac y byddent yn fodlon talu ffi am ddefnyddio'r safle. Cadarnhawyd hynny eto pan ymwelodd y Rheolwr Gwasanaethau Technegol â'r gwersyll anawdurdodedig ym Mona yn ystod mis Gorffennaf; 'roedd yn sicr bod y ddau safle a nodwyd yn addas;

- Dywedodd y Cynghorwyr y byddai modd gweld y safle yn y Gaerwen a'r safle yn Star o'r A55 / A5.Ymatebodd y Swyddogion trwy ddweud y byddai angen trafod opsiynau sgrinio yn ystod y broses o ddylunio'r safle cyn cyflwyno cais cynllunio;
- Cyfeiriodd Cynghorwyr at adroddiadau diweddar bod teithwyr wedi gadael safle ym Mona mewn cyflwr blêr a'u bod wedi gadael gwastraff ar y tir. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) ei bod wedi ymweld â'r safle ar ôl i'r teithiwr adael ac nad oedd y tir yr oedd y carafannau wedi bod arno mewn cyflwr blêr, er bod gwastraff diwydiannol wedi ei adael yn anghyfreithlon ar ran arall o'r safle;
- Holwyd sut y bydd yr Awdurdod yn monitro ac yn rheoli'r safleoedd i sipsiwn a theithwyr. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) y bydd angen cael adnoddau i agor y safle pan fydd angen ac i ymgysylltu â'r Sipsiwn a'r Teithwyr cyn iddynt ymweld; bydd yr awdurdod yn gweithio'n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru wrth ddylunio'r safle a chytuno ar drefniadau i reoli'r safle;
- Pryderon ynghylch yr effaith ar allu'r Parc Gwyddoniaeth i ddenu busnesau i'r safle a'r posibilrwydd y byddai'n rhaid diogelu'r Parc a fyddai'n cyfyngu mynediad gan olygu na fyddai trigolion lleol yn gallu ddefnyddio'r Parc;
- Cododd un Cynghorydd gwestiynau am bethau yr oedd ef yn eu hystyried eu bod yn anghysondebau yn y ddogfen ymgynghori, yn ogystal â'r ffaith nad oedd ymatebion gan rai Cynghorau Cymuned wedi'u cynnwys;
- Nid oedd gwybodaeth wedi ei darparu am gostau paratoi mannau aros dros dro ar gyfer sipsiwn a theithwyr. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes ) fod tri math o gostau - bydd angen prynu tir os cymeradwyir y safle yn y Star; bydd angen gweithio allan y gost o greu mynediad i'r naill safle neu'r llall yn ogystal â'r gost o baratoi cyfleusterau ar gyfer llecyn caled a sgrinio; wedi hynny bydd costau ar gyfer rhedeg y safle - ni waeth pa safle a ddewisir. Nododd y bydd angen sicrhau cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn y gellir rhyddhau unrhyw adnoddau.

- **PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn ystyried yr holl argymhellion yn yr adroddiad ac yn penderfynu pa un o'r ddau safle dros dro y mae'n ei ffafrio o'r ddau opsiwn a amlinellir yn yr adroddiad.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

## 5 MANNAU AROS DROS DRO AR GYFER SIPSIWN A THEITHWYR – CAERGYBI A'R CYFFINIAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd yr Aelod Portffolio (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) fod y Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus sylweddol mewn perthynas â'r ddau safle a nodwyd, sef yn Fferm Tyddyn Lantern, Caergybi a'r hen fferm oddi ar Ffordd Cyttir, Caergybi. Yn dilyn yr ymgynghoriad nododd yr ystyrir nad yw'r un o'r ddau safle yn addas i'w clustnodi fel safleoedd aros dros dro ar gyfer sipsiwn a theithwyr yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) fod patrwm wedi dod i'r amlwg gyda Theithwyr Gwyddelig sy'n teithio i Iwerddon ac oddi yno ac sy'n aros mewn amryw o leoliadau ger y porthladd yng Nghaergybi am gyfnod byr h.y. diwrnod neu ddau. 'Roedd hyn wedi sefydlu bod angen cynnwys safle aros dros dro yng Nghaergybi yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. 'Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad wedi dangos yn glir nad yw'r un o'r ddau safle a gafodd eu cynnwys yn yr ymgynghoriad yn briodol, a hynny am y rhesymau a amlinellwyd yn yr adroddiad. Fodd bynnag, 'roedd y broses ymgynghori wedi bod yn werthfawr gan ei bod wedi darparu gwybodaeth bellach i swyddogion am y patrymau teithio i'r Porthladd ac oddi yno. Dywedwyd ymhellach bod angen cynnal trafodaethau gyda chwmnïau mawr sy'n bwriadu datblygu yng Nghaergybi mewn perthynas â sicrhau bod tir ar gael i greu safle aros dros dro ar gyfer sipsiwn a theithwyr yng nghyffiniau Caergybi.

Dywedodd y Swyddog ymhellach bod angen ystyried datrysiad tymor byr trwy osod biniau i leihau gwastraff domestig a gwastraff anghyfreithlon mewn lleoliadau lle mae teithwyr yn sefydlu gwersylloedd anawdurdodedig yng Nghaergybi.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn cymeradwyo'r holl argymhellion a gynhwyswyd yn yr adroddiad.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

6 **STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2016 - 2021 (DRAFFT)**

Cyflwynwyd - adroddiad y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) mewn perthynas â'r uchod.

Amlinellodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) y cefndir i'r Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 mewn perthynas â'r Strategaeth Iaith Gymraeg. Dywedwyd bod y Strategaeth yn amlinellu'r dull y bwriedir ei ddefnyddio i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a hwyluso defnydd ehangach o'r iaith o fewn yr ardal a chynnal / cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn diwedd 2021. Mae Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn- y crybwyllir ei haelodaeth o fewn yr adroddiad- wedi cael ei sefydlu i nodi blaenoriaethau a llunio Strategaeth Iaith Gymraeg. Bwriedir creu cynllun gweithredu ar gyfer yr ail flwyddyn cyn diwedd blwyddyn gyntaf y Strategaeth. Cyfrifoldeb y Fforwm Iaith Strategol fydd monitro cynnydd yn erbyn targedau a osodwyd. Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod Cyfrifiad 2011 yn dangos y bu gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg ar yr Ynys a gweledigaeth y Cyngor yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i o leiaf 60.1% erbyn Cyfrifiad 2021.

Dywedwyd ymhellach fod yna gynnig i gynnig 'pecynnau croeso' i newydd-ddyfodiaid i'r Ynys i esbonio iaith a diwylliant Cymru. 'Roedd y Cadeirydd yn dymuno cofnodi llwyddiant tîm pêl-droed Cymru yn ystod Pencampwriaeth Ewrop yn ddiweddar a sut mae Cymru wedi cael proffil uwch oherwydd ei diwylliant a'i iaith.

Adroddodd y Rheolwr Polisi a Strategaeth fod Fforwm Iaith Ynys Môn wedi cytuno i ganolbwyntio ar dair thema: -

- **Plant, Pobl Ifanc a'r Teulu**

**Nod:**

- Cynnydd yn nifer y teuluoedd lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith gyda phlant, gyda chynnydd yn y cyfleoedd a’r cymorth i’r iaith gael defnyddio’n gymdeithasol;
- Sicrhau bod gan bob plentyn yr hawl i fod yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt gyrraedd 16 oed;
- Cynyddu capasiti a'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu a dysgu ymhlith plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau addysg a chymdeithasol.

- **Y Gweithlu, Gwasanaethau Iaith Gymraeg, y Seilwaith**

**Nod:**

- Hyrwyddo a chynyddu argaeledd gwasanaethau iaith Gymraeg, cynyddu'r cyfleoedd / disgwyliadau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a gweithio gyda'n gilydd i nodi cyfleoedd i brif ffrydio'r iaith o fewn datblygiadau a gweithgareddau.

Er bod yr Awdurdod yn anelu at gynyddu datblygiad yr iaith Gymraeg yn y gweithle, dywedodd y Swyddog y gobeithir codi proffil yr iaith Gymraeg yn y Cynghorau Tref / Cymuned ar Ynys Môn. Mae'r Cynllun Strategol wedi nodi bod angen Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg o fewn y Cynghorau Tref / Cymuned.

- **Y Gymuned**

**Nod:**

- Hyrwyddo a marchnata gwerth a phwysigrwydd y Gymraeg;
- Hyrwyddo a nodi cyfleoedd i gryfhau'r iaith Gymraeg o fewn y cymunedau a nodi bylchau yn y ddarpariaeth.

Adroddodd y Swyddog ei bod yn bwysig bod y Cynllun Strategol yn cydymffurfio â'r polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol i gael nifer ddigonol o dai ar gyfer trigolion lleol er mwyn gwella ffyniant ieithyddol yr Ynys. Nodwyd hefyd bod angen i gartrefi gwag a thai fforddiadwy fod ar gael.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y prif faterion a ganlyn: -

- Yr angen i gryfhau cyfleoedd o fewn y cymunedau lleol i alluogi pobl sy'n dymuno dysgu'r iaith Gymraeg;
- Dylid rhoi rhagor o adnoddau i Gynghorau Tref / Cymuned i ganiatáu ar gyfer defnyddio Cyfieithydd, os oes angen, yn eu cyfarfodydd. Dylai adnoddau fod ar gael hefyd i alluogi rhaglenni a chofnodion dwyieithog ar gyfer cyfarfodydd. Er yn cytuno â'r sylwadau a wnaed, ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau ) nad oes unrhyw adnoddau pellach ar gael ar hyn o bryd. Nododd efallai y bydd rhaid i Gynghorau Tref / Cymuned ystyried codi’r praesept yn y Dreth Gyngor i fynd i'r afael â'r mater a godwyd. Dywedodd hefyd fod Unllais Cymru wedi nodi eu bod yn barod i roi cyflwyniad i Gynghorau Cymuned / Tref ynglŷn â sut i gynnal eu cyfarfodydd a gweinyddu’n ddwyieithog;
- Bydd y mewnlifiad o weithwyr Wylfa Newydd posib a fydd yn byw ar yr Ynys yn effeithio ar yr ystadegau o ran yr iaith Gymraeg. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol

(Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) y cynhaliwyd trafodaeth gyda pherchnogion Wylfa Newydd i sefydlu sut maent yn bwriadu amddiffyn yr iaith Gymraeg ar yr Ynys pan fydd y gweithwyr yn cyrraedd i adeiladu'r orsaf bŵer yn y dyfodol. Dywedodd hefyd yr awgrymwyd iddynt eu bod yn ystyried ariannu 5 Swyddog pwrpasol o fewn dalgylchoedd yr Ynys i hyrwyddo diwylliant, chwaraeon a'r iaith Gymraeg;

- Mynegwyd pryderon mewn perthynas â rhai plant yn dewis peidio â siarad Cymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol gynradd i fynd i'r ysgol uwchradd. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) fod yr Adran Addysg wedi bod yn gweithio gyda Phennaeth newydd Ysgol Cybi yng Nghaergybi a bod Penaethiaid y tair ysgol a fydd yn cyfuno i greu'r ysgol newydd wedi cytuno ar flaenoriaethau o fewn eu cynllun gwella sy'n cynnwys gwella llythrennedd y plant sy'n mynychu'r ysgol. Mae Ysgol Uwchradd Caergybi hefyd wedi bod yn rhan o'r cynllun gwella o ran y gwaith y mae angen ei wneud i wella'r Gymraeg o fewn yr ysgol. Dywedodd hefyd y dylid annog Llywodraethwyr Ysgol i flaenoriaethau'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn eu hysgolion;
- Bod pobl ifanc yn ysgolion uwchradd yr Awdurdod yn gallu cael eu tywys i'r cyfleoedd a ddaw yn sgil prosiectau mawr dan y Rhaglen Ynys Ynni mewn perthynas â swyddi gweinyddol a chyfleon peirianneg. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) fod yr Awdurdod wedi datgan y byddai'n hoffi gweld 90% o'r prentisiaid a fydd yn cael cyfleoedd o fewn y prosiectau Ynys Ynni yn ddwyieithog;
- Tra'n croesawu bwriadau'r Cyngor Sir i wella'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith o redeg yr awdurdod o ddydd i ddydd, awgrymwyd bod angen mynd gam ymhellach o ran cynnal cyfarfodydd o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Penaethiaid ac Uwch Reolwyr drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid targedu adrannau penodol i wneud mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) fod y rhan fwyaf o gyfarfodydd yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ond roedd yn cytuno bod angen i rai adrannau wneud mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg. Dywedodd fod y Rheolwr Polisi a Strategaeth wedi bod yn allweddol o ran cynorthwyo staff i allu mynychu cyrsiau a gweithgareddau i ddysgu a gwella sgiliau iaith Gymraeg;
- Byddai gwneud mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg yng ngweinyddiaeth yr Awdurdod yn goleuo pobl ifanc yr Ynys i werthfawrogi bod cyfleoedd o fewn yr awdurdod lleol i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac yn eu cadw ar yr Ynys;
- Yr angen i wella cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau Cymunedol ar yr Ynys. Dylai sefydliadau o fewn cymunedau ystyried gwneud ceisiadau i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ystod gweithgareddau y maent yn gyfrifol amdanynt.

Yn dilyn trafodaethau pellach, **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Strategaeth Iaith Gymraeg am 2016-2021 (Drafft) i'w chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ac wedi hynny gan y Cyngor llawn.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

## 7 DATBLYGU SGRIWTINI – Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cafwyd gweithdy i'r Pwyllgor dderbyn cyflwyniad gan Ms Rebecca David-Knight, Prif Ymgynghorydd - Canolfan Cymru ar gyfer Craffu Cyhoeddus.

## 8 RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Sgriwtini ar Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Ebrill 2017.

Dywedodd Aelod ei fod yn ystyried y dylai'r Pwyllgor gael cyflwyniad gan y datblygwyr mawr sy'n bwriadu datblygu ar yr Ynys ynghylch posibiliadau cyflogaeth, budd cymunedol a hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Ymatebodd y Swyddog Sgriwtini ei fod yn ystyried y dylai unrhyw gyflwyniadau gan ddatblygwyr mawr gael eu rhoi yn y sesiynau briffio misol i'r Aelodau ac y dylai unrhyw bynciau penodol a godwyd yn y cyfarfodydd briffio gael eu cynnwys ar ôl hynny ar Raglen Waith y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith at fis Ebrill 2017.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

Daeth y cyfarfod i ben am 5.00 pm

**Y CYNGHORYDD D R HUGHES**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 26 Medi 2016 – Pwyllgor Sgriwtini<br>17 Hydref – Pwyllgor Gwaith |
| **Pwnc:** | Cyd-Brotocol Gogledd Cymru ar gyfer Rheoli Gwersylloedd Anawdurdodedig |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Aled M Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Shan L Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Lucy Reynolds, Rheolwr Datblygu a Strategaeth Tai<br>Est 2225<br>lucyreynolds@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Pob Aelod |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Bod Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn cefnogi bod Cyngor Sir Ynys Môn yn mabwysiadu Cyd-Brotocol Gogledd Cymru ar gyfer Rheoli Gwersylloedd Anawdurdodedig gan Sipsiwn a Theithwyr.

**Cefndir**

**i. Polisïau a Chanllawiau Llywodraeth Cymru**

Yn 2013, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau ar Reoli Gwersylla Anawdurdodedig. Ysgrifennodd at Brif Weithredwyr pob Awdurdod Lleol yn 2015 i'w hatgoffa o'r argymhelliad yn y canllawiau hyn i fabwysiadu protocol ar gyfer eu sefydliadau.

Mae'r Canllawiau hyn yn darparu rhywfaint o gyd-destun pwysig am y gwersylloedd anawdurdodedig yng Nghymru. Mae'r gwersylloedd yn tueddu i ddigwydd yn fwyaf rheolaidd ar hyd y prif lwybrau cludiant sydd, yn draddodiadol, wedi bod yn darparu cyfleoedd ar gyfer gwaith yn ogystal â mynediad i'r prif borthladdoedd yng Nghymru. Mae'r canllawiau yn cydblethu â Chynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru. Mae'n datgan mai'r prif reswm pam fo gwersylloedd anawdurdodedig yn digwydd yw oherwydd diffyg safleoedd a mannau aros awdurdodedig. Mae Sipsiwn a Theithwyr crwydrol wedi gweld mannau aros traddodiadol yn cau, a hynny oherwydd is-ddeddfau ac yn sgil cryfhau'r deddfau sy'n ymwneud â defnyddio tir comin ar gyfer gwersylla a'r ffaith bod tirfeddianwyr yn cau i ffwrdd fannau aros hanesyddol. Bydd darparu mwy o safleoedd awdurdodedig, ynghyd â rheoli'r safleoedd hynny'n effeithiol, yn cael gwared ar y rheswm dros fodolaeth gwersylloedd anawdurdodedig. Wrth i'r safleoedd a'r mannau aros angenrheidiol gael eu

datblygu, bydd angen gwneud llai o ddefnydd o’r protocolau ar gyfer gwersylloedd anawdurdodedig.

Mae'r Canllawiau yn bennaf ar gyfer awdurdodau lleol, ond maent hefyd yn rhoi cyngor ar rôl y Byrddau Iechyd, yr Heddlu a'r Gwasanaethau Addysg i Deithwyr o ran cynorthwyo'r awdurdodau lleol pan fo gwersylloedd anawdurdodedig yn digwydd.

ii. <u>Gweithio ar y cyd yng Ngogledd Cymru</u>

Mae Fforwm Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Cymru yn cyfarfod sawl gwaith y flwyddyn i gefnogi gweithio ar y cyd rhwng awdurdodau lleol Gogledd Cymru, ynghyd â Pharc Cenedlaethol Eryri, Heddlu Gogledd Cymru, BIPBC a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae'r holl awdurdodau lleol ar hyd coridor yr A55 wedi gweld gwersylloedd anawdurdodedig yn digwydd ar nifer o achlysuron bob blwyddyn. Mewn rhai achosion, bydd nifer o awdurdodau lleol yn gweld yr un grŵp o Sipsiwn a Theithwyr yn gwersylla yn eu hardaloedd . Ar hyn o bryd, nid oes gan unrhyw awdurdod safleoedd tramwy neu fannau aros dros dro swyddogol y gellir cyfeirio Sipsiwn a Theithwyr iddynt.

Datblygwyd y protocol gan y fforwm i nodi egwyddorion cyson y cytunwyd arnynt. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig o ran sicrhau fframwaith clir ar gyfer BIPBC, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân sy'n gweithio ar draws ardaloedd yr holl awdurdodau. Trafodwyd y Protocol yng nghyfarfod Prif Weithredwr Gogledd Cymru ym mis Ionawr 2016 lle cytunwyd i’w gyflwyno i’r cyrff sy’n gwneud penderfyniadau yn y sefydliadau unigol.

Gwnaed ymgais o’r blaen yn 2012 i gytuno ar brotocol ar gyfer Gogledd Cymru. Er i Gyngor Sir Ynys Môn gytuno iddo, ni chafodd ei fabwysiadu'n ffurfiol gan yr holl bartneriaid ar draws y rhanbarth. Mae'r Protocol newydd wedi canolbwyntio ar nodi'r egwyddorion allweddol y cytunwyd arnynt gan yr holl bartneriaid ac mae’n nodi "Trwy fabwysiadu'r protocol bydd pob sefydliad yn ymrwymo i adolygu a / neu ddatblygu ei weithdrefnau mewnol ei hun" (4.3.1). Mae hyn yn sicrhau bod pob awdurdod yn cadw'r gallu i nodi gweithdrefnau manwl sy'n addas i gwrdd ag amgylchiadau yn eu hardaloedd eu hunain.

Cyn datblygu’r Protocol ar gyfer Gogledd Cymru, ‘roedd canllawiau gweithdrefnau ar gyfer delio â gwersylloedd anawdurdodedig eisoes wedi'u datblygu gan yr adran Dai yn CSYM ac fe’u rhannwyd gyda swyddogion mewnol ac allanol a allai fod yn ymwneud â delio â gwersylloedd pan fyddant yn digwydd. Yn dilyn datblygu’r Protocol ar gyfer Gogledd Cymru, mae’r canllawiau hyn yn cael eu hadolygu gyda’r rhanddeiliaid lleol perthnasol er mwyn sicrhau eu bod yn ganllawiau manwl y gall swyddogion Ynys Môn eu defnyddio ac i wneud yn siŵr eu bod yn gyson gydag egwyddorion y Protocol ar gyfer Gogledd Cymru. Mae’r protocol wedi’i ddefnyddio i arwain ymatebion y Cyngor ers mis Ionawr

Pwrpas y Protocol ar gyfer Gogledd Cymru

Bwriad y Protocol yw sefydlu egwyddorion cyffredin ar gyfer mynd i'r afael â gwersylloedd anawdurdodedig a lleihau tyndra cymdeithasol pan fo gwersylloedd yn digwydd, lleihau costau gorfodaeth a glanhau a sicrhau dull cydlynol o weithredu rhwng y gwasanaethau y gall bod angen iddynt gymryd camau.

Mae Adran 1.6 yn crynhoi amcanion y Protocol sef

- rheoli gwersylloedd anawdurdodedig mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, gan gydbwyso hawliau a chyfrifoldebau Sipsiwn a Theithwyr, trigolion lleol a rhanddeiliaid allweddol a lleihau unrhyw effeithiau amgylcheddol neu gymunedol
- gweithio gydag asiantaethau partner i hyrwyddo cydlyniant cymunedol ac atal Sipsiwn a Theithwyr rhag cael eu hallgau'n gymdeithasol
- cyflwyno eglurder ar gyfer y broses o ymateb i ymholiadau a rhannu gwybodaeth
- pennu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau clir, cyson ac amserol sy'n cydblethu â strategaethau a gwasanaethau eraill sy'n effeithio ar Sipsiwn a Theithwyr (e.e. tai, addysg, cynllunio).

Mae Adran 2 yn nodi egwyddorion rhyngweithio â Sipsiwn a Theithwyr ar wersylloedd awdurdodedig a chamau gweithredu penodol y bydd yr awdurdod lleol yn eu cymryd, yn bennaf darparu Un Pwynt Cyswllt a fydd yn arwain ar ymateb yr awdurdod ac yn sicrhau y cedwir cofnodion ac y diogelir data.

Mae Adran 3.3.1 yn nodi'r hyn y bydd yr awdurdod lleol yn ei wneud pan fo gwersyll ar dir yr awdurdod lleol. Mae swyddogion Ynys Môn bellach yn dilyn y gofynion hyn ac fel y soniwyd eisoes, bydd canllawiau gweithdrefnol manylach yn helpu swyddogion i gyflawni'r rhain mewn modd priodol.

Mae Adrannau 3.4 a 3.5 yn egluro'r rôl fwy cyfyngedig y gall yr awdurdod ei chwarae pan fo gwersyll ar dir cyhoeddus neu dir preifat arall ond mae'n cydnabod y gall yr awdurdod lleol gynnig mantais ei brofiad a chyfryngu.

Manteision y protocol ar gyfer Ynys Môn
Gall gwersylloedd anawdurdodedig fod yn anghyfleus i gymdogion ac arwain at densiynau rhwng cymunedau sefydledig a Sipsiwn a Theithwyr. I ddatrys yr anawsterau hyn, mae angen mesurau ymarferol megis casglu sbwriel, cyfathrebu rhwng yr holl bartïon a chamau amserol ac ystyriol gan yr awdurdod lleol.

Mae cydweithio yn y maes hwn eisoes wedi arwain at wella'r cydgysylltu rhwng swyddogion yr awdurdod a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a'r Heddlu pan fo gwersylloedd wedi digwydd. Mae CSYM nawr yn gweithio'n gyson gyda chydweithwyr o bob rhan o Ogledd Cymru. Mae'r protocol yn darparu fframwaith y cytunwyd arno i gynnal y safonau hyn ac yn lleihau

| |
|---|
| effeithiau negyddol y gwersylloedd. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Peidio â chefnogi Cyd-Brotocol Gogledd Cymru ar reoli gwersylloedd a datblygu Protocol ar gyfer Ynys Môn. Ni chefnogir yr opsiwn hwn gan fod angen gweithio'n agos gyda'r Heddlu a BIPBC i ymateb yn effeithiol i wersylloedd ac roedd y ddau gorff yn gryf o blaid Protocol ar gyfer Gogledd Cymru |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Ystyriwyd y Protocol yn y fforwm ar gyfer Prif Weithredwyr Gogledd Cymru lle cytunwyd y dylid ei gyflwyno i'r corff sy'n gwneud y penderfyniadau yn y sefydliadau unigol. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Mae costau yn codi o'r protocol oherwydd yr angen i wneud darpariaeth 'portaloo' a chasglu / clirio gwastraff ar y rhan fwyaf o'r gwersylloedd pan fyddant yn digwydd. Os darperir cyfleusterau gwastraff cartref a thoiledau yn gynnar mae hynny'n arbed costau clirio sylweddol pan fydd y gwersyll yn dod i ben. Mae cyllideb ar gael i gwrdd â'r costau hyn.<br><br>Mae'r Cyngor yn y broses o nodi safleoedd ar gyfer Mannau Aros dros Dro. Pan fydd mannau aros awdurdodedig wedi eu sefydlu mae'n arferol i godi tâl am eu defnyddio.<br><br>Mae yna hefyd oblygiadau o ran adnoddau staffio ar gyfer gweithredu'r Protocol. Fodd bynnag, mae aelod o staff o fewn yr adran dai yn gweithredu fel y Pwynt Cyswllt Unigol |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |

| | | |
|---|---|---|
| **2** | **Cyllid / Adran 151**<br>(mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro**<br>(mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Mae'r protocol yn galluogi anghenion cymdeithasol, iechyd ac addysgol y cymunedau teithio i gael eu hasesu a'u darparu ar eu cyfer. |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Mae gwersylla heb awdurdod yn weithred o dresmasu yn hytrach na gweithred droseddol oni bai y gellir profi yr achoswyd difrod i dir neu eiddo wrth fynd i mewn i'r safle. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cefnogi'r Protocol fel fframwaith i reoli gwersylloedd anawdurdodedig mewn modd cytbwys er budd trigolion lleol a Sipsiwn a Theithwyr.<br>Mae'r protocol yn nodi cyfrifoldebau cliriach a gwell cyfathrebu rhwng asiantaethau a fydd yn sicrhau bod gwersylloedd yn cael eu rheoli'r effeithiol gan helpu i leihau tensiynau cymunedol. |
| **4** | **Amgylcheddol** | Gall gwersylloedd anawdurdodedig arwain at wastraff o weithgareddau cartref arferol a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith. Nod y Protocol yw sefydlu gweithdrefnau sy'n atal hyn rhag digwydd i'r graddau bo'n bosib.<br><br>Gall gwersylloedd anawdurdodedig roi teuluoedd mewn perygl yn sgil risgiau amgylcheddol pan fo'r gwersylloedd hynny wedi eu lleoli mewn mannau amhriodol. Mae'r Protocol yn argymell proses gwneud penderfyniadau sy'n ystyried iechyd a diogelwch ochr yn ochr â materion hawliau dynol wrth benderfynu a ddylid goddef y gwersyll. |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Mae mabwysiadu'r Protocol yn cydymffurfio gyda dyletswyddau'r awdurdod lleol dan Ddeddf |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cydraddoldeb 2010. |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Cyd-Brotocol Gogledd Cymru ar Reoli Gwersylloedd Anawdurdodedig |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Reoli Gwersylloedd Anawdurdodedig http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/131220-guidance-managing-unauthorised-camping-2013-en.pdf |

# Cyd-brotocol Gogledd Cymru ar gyfer

# Rheoli Gwersylloedd Diawdurdod

## 1. Cyflwyniad

1.1 Caiff gwersylloedd diawdurdod eu diffinio fel 'gwersylloedd carafannau a/neu gerbydau eraill ar dir heb ganiatâd y tirfeddiannwr neu'r meddiannydd ac sy'n golygu tresmasu'. Maent yn perthyn i ddau brif gategori: y rhai ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor (megis priffyrdd, parciau, ysgolion) neu gorff cyhoeddus arall, a'r rhai ar dir preifat. Gall y broses o ymateb iddynt newid yn dibynnu ar bwy sy'n berchen ar y tir, ac mae gan gyrff cyhoeddus gyfrifoldebau ychwanegol nad ydynt yn berthnasol i dirfeddianwyr preifat.

1.2 Mae gwersylloedd diawdurdod yn digwydd o bryd i'w gilydd am amrywiaeth o resymau. Mae angen sensitifrwydd wrth ymateb iddynt er mwyn cydbwyso hawliau a chyfrifoldebau Sipsiwn Theithwyr ('y gymuned deithio') a thrigolion a busnesau lleol ('y gymuned sefydlog').

1.3 Mae'r protocol hwn yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli'r holl wersylloedd diawdurdod yng Ngogledd Cymru mewn ffordd gadarnhaol a chyson, er budd yr holl bobl dan sylw a'r rhai sy'n cael eu heffeithio ganddynt.

1.4 Cafodd ei lunio i hwyluso ymagwedd gydlynol rhwng:

- y chwe awdurdod lleol; Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam
- Heddlu Gogledd Cymru (HGC)
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- cyrff cyhoeddus eraill megis Parc Cenedlaethol Eryri a Llywodraeth Cymru
- tirfeddianwyr preifat
- Sipsiwn a Theithwyr
- a thrigolion lleol

1.5 Mae'r Protocol yn ystyried 'Canllawiau ar Reoli Gwersylla Diawdurdod 2013' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cydymffurfio â'r cyfrifoldebau a osodir ar bob corff cyhoeddus gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth berthnasol arall.

1.6 Amcanion y Protocol yw:

1.7

- rheoli gwersylloedd diawdurdod mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, gan gydbwyso hawliau a chyfrifoldebau Sipsiwn a Theithwyr, trigolion lleol a budd-ddeiliaid allweddol ac i leihau unrhyw effeithiau amgylcheddol neu gymunedol

- gweithio gydag asiantaethau partner i hyrwyddo cydlyniant cymunedol ac atal eithrio cymdeithasol Sipsiwn a Theithwyr

- Cyflwyno eglurder ar y broses o ymateb i ymholiadau a rhannu gwybodaeth

- gosod fframwaith er mwyn gwneud penderfyniadau clir, cyson ac amserol sy'n cysylltu â strategaethau eraill a gwasanaethau sy'n effeithio ar Sipsiwn a Theithwyr (e.e. tai, addysg, cynllunio).
-

## 2. Dyletswyddau a Chyfrifoldebau pob Asiantaeth

2.1 Mae pob asiantaeth sy'n ymwneud ag ymateb i wersylloedd diawdurdod yn cydnabod y gall teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr brofi anawsterau wrth ddefnyddio gwasanaethau addysg, iechyd a chymunedol a byddant yn gweithio i leihau'r anawsterau hyn.

2.2 Maent yn cytuno i:

- gydymffurfio â'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i:
  - ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon
  - hyrwyddo cyfle cyfartal
  - hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol gefndiroedd hiliol

- gweithredu bob amser mewn modd trugarog a thosturiol

- enwebu Un Pwynt Cyswllt, boed yn swyddog penodol neu’n bwynt cyswllt (e.e. yr Heddlu 101) at ddibenion cydlynu ymateb i'r gwersyll diawdurdod (bydd gan y swyddog hwnnw ddigon o awdurdod i wneud penderfyniadau ar ran eu sefydliadau)

- i roi trefniadau ar waith rhag ofn bod yr Un Pwynt Cyswllt arferol yn absennol (os yw’n swyddog) a sicrhau bod trefniadau digonol yn eu lle

- llunio eu Polisïau a Gweithdrefnau manwl eu hunain sy'n adlewyrchu eu strwythurau a'u gweithdrefnau eu hunain, ac yn ystyried y protocol hwn fel y safon ofynnol ar gyfer rheoli gwersylloedd diawdurdod

- cyhoeddi’r protocol ar eu gwefannau

- sicrhau bod yr holl swyddogion Un Pwynt Cyswllt yn cael gwybod pan fo gwersyll yn cael ei sefydlu er mwyn sicrhau ymateb priodol gan bob asiantaeth.

- cynnal perthynas waith cydlynol, agored a gonest rhwng yr holl bartneriaid

- sicrhau bod y wybodaeth a rennir dan y Protocol hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y diben y cafodd ei gasglu yn unig, yn cael ei gadw'n gyfrinachol ac yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data a'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill

- Cadw cofnodion cywir drwy'r system Cyfrif Carafanau Cymru Gyfan. Awdurdodau Lleol yn creu protocolau e-bost awtomatig fel y gellir rhannu data am wersyll.

2.3 Bydd pob Asiantaeth yn sicrhau bod yr unigolion sy'n ateb galwadau yn:

- gwybod am y Protocol a phwy yw eu swyddog Un Pwynt Cyswllt

- derbyn hyfforddiant er mwyn gallu ymdrin â galwadau gan neu mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr yn briodol, yn effeithiol ac yn gyson

- yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am bwy sy'n gyfrifol am ddelio â gwersylloedd diawdurdod ym mhob sefydliad partner

2.4 Er y bydd Awdurdodau Lleol yn arwain o ran darparu gwybodaeth i'r cyfryngau, gofynnir i bob Asiantaeth sicrhau ymateb cydlynol i ymholiadau gan y cyfryngau o fewn cyd-destun y cyfrifoldeb i hyrwyddo cysylltiadau da rhwng Sipsiwn a Theithwyr a'r gymuned sefydlog.

## 3. Cyfrifoldebau Asiantau Unigol

3.1 Mae'r cyfrifoldebau sydd ar bob asiantaeth yn dibynnu ar leoliad y gwersyll, h.y. a ydyw:

- ar dir Awdurdod Lleol
- ar dir cyhoeddus arall
- ar dir preifat
- ar dir sy'n eiddo i Sipsiwn a Theithwyr

3.2 Efallai y gofynnir i'r **Awdurdod Lleol** benderfynu ar berchnogaeth y tir os nad yw'n hysbys.

### 3.3 Gwersylla ar Dir Awdurdodau Lleol

3.3.1 Bydd yr **Awdurdodau Lleol** yn:

Cyswllt Cychwynnol:

- Gwneud cyswllt cychwynnol â'r Sipsiwn/Teithwyr cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl i benderfynu ar eu bwriadau ac a oes ganddynt unrhyw anghenion gwasanaeth cychwynnol neu anghenion lles brys

- Penderfynu a oes unrhyw arwyddion amlwg o ofynion lles, a gofyn i BIPBC gynnal asesiadau iechyd yr unigolion ar y safle os byddant yn aros yn hirach na 3 diwrnod.
- Adnabod ac ymateb i ddiogelwch ar y ffyrdd neu bryderon diogelwch eraill

<u>Gwasanaethau a chyfleusterau</u>

- Darparu cyfleusterau gwastraff cartref
- Darparu toiledau
- Rhoi gwybodaeth i'r rhai sydd yn y gwersylloedd, megis lleoliadau safleoedd amwynderau dinesig lleol, ysgolion a lleoliadau gofal iechyd.
- Adnabod ac ymateb i unrhyw anghenion gwasanaeth addysgol allgymorth lle bo'n briodol.
- Trafod cod ymddygiad gyda'r Sipsiwn a Theithwyr a rhoi gwybodaeth iddynt am y gwasanaethau cymorth lleol sydd ar gael iddynt.
- Nodi a oes safleoedd priodol eraill ar gael, ac yna rhoi gwybod i'r Sipsiwn a Theithwyr

<u>Gwneud Penderfyniadau</u>

- Bydd Awdurdodau Lleol yn ceisio cydbwyso lles a hawliau dynol meddianwyr yn erbyn yr effaith ar drigolion a busnesau cyfagos, gan roi ystyriaeth arbennig o beryglon iechyd a diogelwch a niwsans cyhoeddus.
- Penderfynu p'un ai i oddef neu gael gwared ar wersyll mewn modd amserol yn unol â chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru.
- Sicrhau nad yw unrhyw gamau ildio meddiant yn digwydd lle mae camau o'r fath yn gyfystyr ag ymyrraeth anghyfiawn ag Erthygl 8 o'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998 neu os yw'r weithred yn groes i fuddiannau gorau meddianwyr sy'n blant.

<u>Troi Allan</u>

- Ar safleoedd lle penderfynir peidio â goddef, darparu gwybodaeth i'r Sipsiwn a Theithwyr am y camau arfaethedig a pha gymorth sydd ar gael iddynt.
- Cymryd camau troi allan lle y bo'n briodol, gan gynnwys cyflwyno dogfennaeth a defnyddio beilïaid, ond ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru
- Gwneud trefniadau i gael gwared ar sbwriel ar ôl i'r Sipsiwn a Theithwyr adael y safle.
- Hysbysu a chysylltu â Chynghorwyr etholedig lleol a'r gymuned sefydlog.

3.3.2 Bydd **Heddlu Gogledd Cymru** yn:

- Cydymffurfio â gofynion y canllawiau NPCC ar reoli gwersylla diawdurdod.

- Adnabod ac ymateb i dystiolaeth o broblemau diogelwch y cyhoedd.
- Monitro ac ymateb i densiynau yn y gymunedol leol.
- Rhoi gwybod i asiantaethau perthnasol o leoliad a maint y gwersylloedd diawdurdod.
- Darparu gwasanaethau plismona i gymunedau Teithwyr a chymunedau sefydlog.
- Atal a chanfod troseddau.
- Gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag unrhyw rwystr i'r briffordd.
- Mewn achos o droi allan, cynnal yr heddwch ac atal anhrefn yn ôl y gofyn.

3.3.3 **Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn:**

- Asesu anghenion iechyd y Sipsiwn a Theithwyr ar y safleoedd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cael cais i wneud hynny gan yr Awdurdod Lleol.
- Darparu adroddiad crynodeb cyffredinol i'r Awdurdod Lleol heb fod yn hwyrach na 5 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y cais. Datganiad cyffredinol yn unig fydd yn yr adroddiad ynghylch a oes anghenion iechyd neu beidio a ddylai atal achos o droi allan. (*Bydd y wybodaeth hon yn cael ei ddarparu i'r Awdurdod Lleol heb wybodaeth bersonol a fyddai angen caniatâd ffurfiol yr unigolion sy'n destun yr asesiadau iechyd. Bydd y datganiad a ddarperir ar ffurf sy'n addas i'w gyflwyno mewn tystiolaeth i'r llys).*
- Darparu gwasanaethau iechyd i Sipsiwn a Theithwyr.

3.3.4 **Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn**:

- Cynorthwyo asiantaethau partner a Sipsiwn a Theithwyr i gynnal asesiadau risg o'r safle sy'n ymwneud â bregusrwydd llosgi bwriadol a lledaeniad tân.
- Rhoi cyngor sy'n ymwneud â mynediad i offer ymladd tân a chyflenwadau dŵr mewn achos o dân.
- Cynnig y cyfle i gael archwiliad diogelwch carafannau am ddim a gosod larymau mwg arbenigol ac offer atal arall, yn rhad ac am ddim, yn ôl y galw.

## 3.4 <u>Gwersylla ar Dir Cyhoeddus eraill</u>

3.4.1 Dylai'r **Awdurdod sy'n Berchen ar y Tir** drafod gydag awdurdodau lleol i drefnu ymholiadau anghenion lles, a dylai **Awdurdodau Lleol** fod yn barod i helpu. Bydd y penderfyniad i droi allan neu oddef a lefel ymholiadau anghenion lles yr un fath ag ar gyfer tir awdurdodau lleol.

## 3.5 <u>Gwersylla ar Dir Preifat</u>

3.5.1 Yn unol â chanllawiau Cynulliad Cymru, nid yw perchnogion tir preifat sydd â gwersylloedd diawdurdod Sipsiwn a Theithwyr ar eu tir yn cael eu rhwymo gan yr un cyfrifoldebau statudol ag awdurdodau cyhoeddus, ond i gychwyn dylent gysylltu â'u hawdurdod lleol i bennu a oes ganddynt

Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr (neu gyfwerth) er mwyn cyfryngu. Fel arall, gall y swyddog Un Pwynt Cyswllt/ swyddog arweiniol neu'r heddlu lleol gynorthwyo.

3.5.2 Bydd angen i berchnogion tir preifat gael eu cyngor cyfreithiol eu hunain wrth geisio datrys gwersylloedd diawdurdod ar eu tir. Os byddant yn dewis goddef, bydd angen iddynt gymryd cyngor gan adran gynllunio yr Awdurdod Lleol.

**3.6 <u>Gwersylla ar Dir sy'n Eiddo i Sipsiwn a Theithwyr</u>**

3.6.1 Bydd **Awdurdodau Lleol** yn cynghori meddianwyr y gwersyll am statws cynllunio y tir os ydynt yn bwriadu aros am fwy na 7 diwrnod. Efallai y caiff camau gorfodi cynllunio eu hystyried.

## <u>Atodiad</u>

Sefydliadau perthnasol:

**Llywodraeth Cymru**

Adran Dyfodol Tecach
Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

**Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru**

Y Ganolfan Cydraddoldeb
Ffordd Bangor
Penmaenmawr
LL34 6LF

01492 622233
info@nwren.org

**Prosiect Unity**

Bryn Hall: Swyddog Ymgysylltu Cymunedol
07920567652
bryn.hall@pembrokeshire.gov.uk

Catherine Fortune: Swyddog Iechyd a Lles

07920567668
catherine.fortune@pembrokeshire.gov.uk

Cyngor Denise Barry: Swyddog Eiriolaeth a Gwybodaeth
07810551331
denise.barry@pembrokeshire.gov.uk

**Llinell Gyngor ac Eiriolaeth Genedlaethol i Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw yng Nghymru**
Rhif Llinell Gymorth Cymru Gyfan
01646 686139

This page is intentionally left blank

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU AC ADFYWIO (TROSEDD AC ANHREFN) AWDURDOD LLEOL YNYS MÔN** |
| **DYDDIAD:** | **26 MEDI 2016** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **CYNGHORYDD ALED M JONES (SWYDDOG CEFNOGI -CATHERINE E ROBERTS)** |
| **PWNC:** | **DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL ( YNYS MÔN A GWYNEDD)** |

| | |
|---|---|
| **1.00** | **PWRPAS YR ADRODDIAD** |
| 1.01 | Darparu trosolwg i'r Aelodau o weithgareddau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn a Gwynedd (PDC) yn ystod y flwyddyn 2015/16, a datblygiadau 2016/17 |
| **2.00** | **CEFNDIR** |
| 2.01 | Mae gofyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol adrodd yn ffurfiol i'r pwyllgor hwn pob blwyddyn i gyflwyno trosolwg o'r gweithgareddau yn ystod y deunaw mis diwethaf. Mae hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hymrwymiadau yn unol ag adrannau 19 a 20, Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2006<br>**Dyletswydd y pwyllgor yw craffu ar waith y Bartneriaeth, yn hytrach na gwaith yr aelodau (cyrff) unigol.** |
| 2.02 | Mae'n ddyletswydd statudol ar **Awdurdodau Lleol** yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, a'r diwygiadau dilynol yn sgil Deddf Heddlu a Chyfiawnder Troseddol yn 2002 a 2006, i weithio mewn partneriaeth gyda'r **Heddlu, y gwasanaeth Iechyd, y gwasanaeth Prawf a'r gwasanaeth Tân ac Achub** i roi sylw i'r agenda diogelwch cymunedol yn lleol. Dyma'r prif asiantaethau sy'n ffurfio'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae gan y bartneriaeth ddyletswydd i ymdrin â –<br><br>• Throsedd ac Anhrefn<br>• Camddefnyddio Sylweddau<br>• Lleihau aildroseddu<br>• Cyflawni asesiad strategol i adnabod blaenoriaethau (gwaith a gynhelir ar sail ranbarthol bellach)<br>• Rhoi cynlluniau ar waith i ymdrin â'r blaenoriaethau hyn (mae cynllun bellach yn bodoli ar sail ranbarthol a lleol) |
| 2.03 | Mae partneriaeth wedi bodoli yn Ynys Môn ac yng Ngwynedd ers 1998, ac yn gweithredu fel Partneriaeth dwy Sir ers tair blynedd. |
| **3.00** | **BLAENORIAETHAU'R BARTNERIAETH/DOGFENNAU IW CRAFFU** |
| 3.01 | Mae'r bartneriaeth yn gweithio i gynllun blwyddyn, sydd wedi ei selio ar gynllun rhanbarthol tair blynedd. Mae adroddiad ar berfformiad 2015/16 , Cynlluniau 2015/16 a 2016/17 a chynllun gwariant dwy flynedd ynghlwm (atodiadau 1,2,3,4) |
| 3.02 | Mae yna saith blaenoriaeth sydd yn denu sylw gan y Bartneriaeth, Dyma'r blaenoriaethau 2015/16. Ac eto yn 2016/17. Mae'r blaenoriaethau yma wedi ei selio ar asesiad strategol. Sef –<br><br>• Lleihau troseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr (troseddau meddiangar yn unig) |

| | |
|---|---|
| | • Lleihau ymddygiad Gwrthgymdeithasol<br>• Cefnogi pobl fregus i'w hatal rhag bod yn ddioddefwyr trosedd<br>• Codi hyder i adrodd am ddigwyddiadau cam-drin domestig<br>• Codi hyder i adrodd am drais rhywiol<br>• Mynd i'r afael a chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal<br>• Lleihau ail droseddu |
| **4.00** | **PRIF NEGESEUON YN DEILLIO O WEITHGAREDD 2015/16** |
| | Mae adroddiad diwedd blwyddyn y Bartneriaeth ynghlwm. Mae'r adroddiad yn dangos y sefyllfa parthed y blaenoriaethau uchod, sef –<br><br>• Troseddau meddiangar yn Ynys Môn yn isel o gymharu ag ardaloedd eraill tebyg[1], ac yn sefydlog ar hyn o bryd (dim disgwyliad i weld y math yma o droseddau yn cynyddu)<br>• Mae Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn lleihau yn gyson, ers 2012, er bod disgwyliad i weld cynnydd eto yn ystod yr Haf ( sydd yn eithaf arferol)<br>• Mae'r niferoedd o bobl yn adrodd am drais yn y cartref ar gynnydd ers 2012, sydd yn galonogol gan ein bod yn ymwybodol bod y math yma o drosedd yn aml yn aros yn gudd<br>• Mae'r niferoedd o droseddau rhywiol difrifol sydd yn cael eu hadrodd yn Ynys Môn wedi aros o gwmpas yr un lefel ers 2012, gyda cynnydd yma ac acw oherwydd adrodd ar achosion hanesyddol<br>• Mae'r niferoedd o oedolion sydd yn ail droseddu oddi fewn 12 Mis, yn Ynys Môn wedi lleihau ychydig ers 2012, er y bod cynnydd bach ar ddiwedd 2015/16<br>• Mae'r niferoedd o blant (o dan 17) sydd wedi ail droseddu oddi fewn 12 Mis, wedi gostwng yn sylweddol yn ystod yr un cyfnod, er y bod yna ychydig o gynnydd ar ddiwedd 2015/16, ond dal ar lefel is na 2012/13/14 |
| **5.00** | **PRIF LWYDDIANNAU YN YSTOD 2015/16** |
| 5.01 | • O'r 35 gweithgaredd newydd yn y cynllun 2015/16, ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 26 yn wyrdd (wedi eu cyflawni) 8 yn felyn (gwaith wedi ei wneud ond heb orffen) ac un yn goch (heb eu gwneud)<br>• Oherwydd y newidiadau i drefn y swyddog Camddefnyddio sylweddau, sydd yn cael ei gyllido gan Gomisiynydd yr Heddlu, ni chyflawnwyd y gweithrediad, sef polisi Ymddygiad Gwrth Gymdeithasol (YGG) mewnol i'r bartneriaeth<br>• Mae'r gweithgareddau melyn, wedi cael eu trosglwyddo i 2016/17<br>• Yn ystod y cyfnod, mae'r bartneriaeth wedi gweld newid yn y ffordd mae Ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei daclo. Mae'r Heddlu wedi arwain ar grwpiau aml-asiantaethol newydd, er mwyn cynnig ymyrraeth gynnar<br>• Ymgyrch codi ymwybyddiaeth o drais yn y cartref llwyddiannus yn ystod Mis Tachwedd ar gyfer y cyhoedd<br>• Ymgyrch codi ymwybyddiaeth am drosedd, camddefnydd o sylweddau , trais rhywiol, a chadw'n ddiogel ar gyfer myfyrwyr. Gyda thaflen newydd parthed trais rhywiol wedi ei pharatoi yn lleol wedi ei defnyddio. Cannoedd o fyfyrwyr wedi derbyn gwybodaeth a theclynnau cadw'n ddiogel<br>• Ymgyrch codi ymwybyddiaeth o wasanaeth OWL (Online Watch Link) wedi |

[1] Ardaloedd mae'r Swyddfa Gartref yn adnabod fel ardaloedd ddyle fod gyda'r un lefelau o droseddu

| | |
|---|---|
| | digwydd, gyda dros ddau gant o fyfyrwyr wedi ymuno. Yn anffodus mae'r gwasanaeth yma bellach wedi dod i ben<br>• Grŵp gweithredol aml-asiantaethol sydd yn trafod ac yn ymateb i ddioddefwyr trais yn y cartref (MARAC) wedi cael ei adolygu gan gorff cenedlaethol gyda chanlyniadau positif iawn. Yn dilyn hyn, fe baratowyd cynllun gweithredol i gynyddu'r gweithredoedd a ddeilliodd o'r cynllun. Erbyn hyn, mae pob gweithred ar y cynllun wedi ei gwblhau<br>• Arian grant ar gyfer y maes gwaith gor-derfysgaeth wedi cael ei ddefnyddio yn rhanbarthol er mwyn paratoi adnoddau dwyieithog ar gyfer hyfforddiant i'r dyfodol<br>• Gwefan e-newyddlen Gogledd Cymru ar gyfer y maes camddefnyddio sylweddau wedi ei ddatblygu gan y Tîm Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn (wedi derbyn canmoliaeth gan Lywodraeth Cymru)<br>• Mae'r Bartneriaeth wedi gwario'r grantiau yn llawn<br>• Yn ystod y flwyddyn, ymunodd Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru (CAC) fel aelod ffurfiol o'r Bartneriaeth leol. Corff yw'r CAC sydd wedi ei sefydlu yn sgil ailstrwythuro'r Gwasanaeth Prawf |
| **6.00** | **PRIF GERRIG MILLTIR YN YSTOD 2016/17** |
| | • Yn anffodus, Mae'r bartneriaeth yn cynnal adolygiad Dynladdiad Domestig ar hyn o bryd, yn deillio o farwolaeth yng Ngwynedd ym mis Gorffennaf eleni. Mae gan y Bartneriaeth ddyletswydd statudol i gynnal yr adolygiad hwn. Bydd yna lefel benodol o ymrwymiad a chefnogaeth ei angen er mwyn ymgymryd a'r gweithgaredd hwn yn ystod y flwyddyn hon ac i mewn i'r flwyddyn nesaf<br>• Gweithredu'r cynllun amgaeedig<br>• Gweithredu i drosglwyddo i drefn ranbarthol parthed y maes gwaith Trais yn y Cartref –sydd yn golygu bydd y grant, adnoddau cefnogol a chomisiynu yn newid i ddilyn trefn ranbarthol erbyn Ebrill 2017<br>• Cwblhau'r adolygiad o wasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer plant a phobl ifainc yn y ddwy Sir, er mwyn argymell newidiadau posib i'r hyn sydd yn cael ei gomisiynu gan y Bwrdd Cynllunio rhanbarthol<br>• Y ddau Gyngor i gwblhau'r broses o fabwysiadu pwerau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol newydd, Cyngor Ynys Môn bellach wedi cyflawni ar hyn<br>• Y ddau Gyngor i benderfynu ble mae'r maes gwaith Diogelwch yn mynd i eistedd ar ôl datblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd<br>• Hwyluso'r oblygiadau Gwrth derfysgaeth newydd, yn benodol yr elfen PREVENT, fel Cyngor, a hefyd mewn Partneriaeth ble mae angen<br>• Cwblhau'r broses o drosglwyddo Tîm newydd WISDOM, sydd yn cynnwys yr Heddlu a Gwasanaeth Prawf, i weithio o adeilad y Cyngor ym Mhenrallt - Gwasanaeth ble mae'r ddwy asiantaeth yn cydweithio yn agos i reoli y troseddwyr mwyaf peryg yn ein cymunedau<br>• Parhau gyda'r peilot yn Ynys Môn, sydd yn edrych ar gyd weithio rhwng asiantaethau, gan gynnwys y Cyngor, parthed pobl â phroblemau iechyd meddwl, sydd hefyd yn achosi problemau i'r Heddlu (ac eraill)<br>• Y ddau Gyngor i gyflawni dadansoddiadau anghenion hyfforddi o fewn y maes camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol, yn a chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys modiwl e-ddysgu ar gamdriniaeth ddomestig, ac rhai |

| | |
|---|---|
| | adrannau o fewn y Cyngor i adnabod anghenion gweithredu “gofyn a gweithredu”<br>• I adnabod y cyfleoedd am ehangu gwasanaeth ‘caledu targedau’ (target hardening) gosod cloeon ac yn y blaen i ddioddefwyr Trais yn y cartref. Hyn drwy gyd weithio gydag adrannau Tai a Chefnogi Pobl<br>• Ail sefydlu grŵp IOM (integrated Offender Management) dwy Sir, gan adolygu pa droseddwyr sydd yn mynd i dderbyn y gwasanaeth |
| 7.00 | **ARGYMHELLION** |
| 7.01 | Nodi cynnwys yr adroddiad, a’r dogfennau amgaeedig, a datgan os yw’r Pwyllgor Craffu yn cefnogi’r blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i’r dyfodol |
| 8.00 | **ATODIADAU** |
| 8.01 | 1. Adroddiad diwedd y flwyddyn 2015/16<br>2. Cynllun gweithredu 2015/16<br>3. Cynllun gweithredu 2016/17<br>4. Cynllun gwariant 2015/16/17 |

ATODIAD 1

# Partneriaeth Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn

**Diweddariad ar Berfformiad 2015/16**

Matt Stewart

4/15/2016

## Cynnwys

Blaenoriaethau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru (PDC GC) .... 2
Troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr .... 3
Ymddygiad gwrthgymdeithasol .... 4
Cam-drin Domestig .... 5
Aildroseddu .... 6
Rhestr Termau .... 7
Atodiad - Troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr .... 8
Atodiad - Nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro .... 9
Atodiad - Troseddu caffaelgar .... 10
Atodiad - Troseddau Treisgar nad ydynt yn rai domestig .... 11
Atodiad - Trais Rhywiol Risg Uchel .... 12
Atodiad - Ymddygiad Gwrthgymdeithasol .... 13
Atodiad - Pobl sy'n dioddef Ymddygiad Gwrthgymdeithasol dro ar ôl tro .... 14
Atodiad - Troseddau Treisgar Domestig .... 15
Atodiad - Nifer Uchel o Achosion Cam-drin Domestig a drafodwyd mewn MARAC. .... 16
Atodiad - Pobl sy'n dioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro .... 17
Atodiad - Ymddygiad Troseddol Oedolion .... 18
Atodiad - Ymddygiad Troseddol Ieuenctid .... 19

## Blaenoriaethau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru (PDC GC)

Tra bod Bwrdd Cymunedau Diogel GC yn canolbwyntio ar iechyd meddwl, troseddau cudd a throseddau drwy ddefnyddio technoleg ar lefel ranbarthol, mae'r Bwrdd wedi gofyn i'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol ganolbwyntio ar:

**1. Lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal.**

*Drwy roi sylw i amcanion Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, sef 'Atal Trosedd' a 'Lleihau niwed a'r risg o niwed'*

- Lleihau troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr
- Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Cefnogi pobl fregus i'w hatal rhag bod yn ddioddefwyr trosedd
- Lleihau digwyddiadau o droseddu dro ar ôl tro sy'n seiliedig ar ddioddefwyr ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol i ddioddefwyr a'r sawl sy'n cyflawni trosedd
- Gweithio gyda MARAC i leihau'r niferoedd sy'n ddioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro
- Ymdrin yn effeithiol ag achosion risg uchel o Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Cynyddu ymwybyddiaeth am drais rhywiol ymysg pobl ifanc

**2. Lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal.**

*Drwy roi sylw i amcanion Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, sef 'Lleihau niwed a'r risg o niwed' a'r risg strategol 'Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol'*

- Lleihau camddefnyddio sylweddau

**3. Lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal.**

- Oedolion yn aildroseddu
- Plant a phobl ifanc yn aildroseddu

## Troseddu sy’n seiliedig ar ddioddefwyr

| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | | | | |
| Troseddu sy’n seiliedig ar ddioddefwyr | 5116 | 5078 | 5081 | 5313 |
| Nifer y bobl sy’n dioddef trosedd dro ar ôl tro | 347 | 339 | 340 | 428 |
| Troseddu caffaelgar | 2426 | 2422 | 2299 | 2109 |
| Troseddau Treisgar nad yw’n drosedd domestig | 1384 | 1371 | 1547 | 1787 |
| Trais rhywiol risg uchel | 51 | 83 | 76 | 100 |
| **Ynys Môn** | | | | |
| Troseddu sy’n seiliedig ar ddioddefwyr | 2331 | 2484 | 2340 | 2610 |
| Nifer y bobl sy’n dioddef trosedd dro ar ôl tro | 192 | 176 | 187 | 220 |
| Troseddu caffaelgar | 1011 | 1133 | 931 | 920 |
| Trais nad yw'n drais domestig | 674 | 639 | 745 | 963 |
| Trais rhywiol risg uchel | 38 | 30 | 46 | 43 |

- Bu trosedd sy’n seiliedig ar ddioddefwyr yn sefydlog yn y ddwy sir ers 2012 er bod brig tymhorol yn ystod misoedd yr haf, yn fwyaf arbennig yng Ngwynedd. Mae Ynys Môn yn is na'r cyfartaledd o'i gymharu â'i MSG[1] a rhagwelir yr erys yn sefydlog. Mae Gwynedd yn y canolrif o'i gymharu â'i MSG gyda chynnydd posib yn y dyfodol agos. Ar y cyfan, mae'r MSG yn y ddwy sir wedi gweld cynnydd yn y duedd, felly ni fyddai cynnydd yn Ynys Môn neu Wynedd yn anarferol.

- Mae nifer y bobl sydd wedi dioddef trosedd dro ar ôl tro[2] wedi cynyddu yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn 2015/16. Bu’r cynnydd ym Môn ar ddechrau 2015/16 ond erbyn hyn mae wedi sefydlogi tra yng Ngwynedd mae'r cynnydd wedi parhau. Gwelwyd tuedd o gynnydd yn y nifer o bobl a ddioddefodd trosedd dro ar ôl tro ar draws gogledd Cymru ac mae'n gysylltiedig â chynnydd mewn troseddau treisgar yr adroddir amdanynt.

- Mae trosedd caffaelgar (pob trosedd dwyn) wedi lleihau yng Ngwynedd ac Ynys Môn ac ar hyn o bryd mae’r ffigyrau’n sefydlog. Mae'r lefelau troseddau caffaelgar yn isel yn y ddwy sir o'i gymharu â'u MSG.

- Mae troseddau treisgar nad ydynt yn rai domestig[3] fel arfer yn digwydd mewn mannau cyhoeddus, fodd bynnag, mae rhai yn digwydd o fewn tai. Yn 2014, roedd troseddau treisgar nad oeddynt yn rai domestig wedi cynyddu yn y ddwy sir ac arhosodd y niferoedd yn sefydlog tan ddiwedd 2015/16 ble yr ymddengys y bydd cynnydd posib yn y misoedd i ddod.

- Yn Ynys Môn mae’r trais rhywiol risg uchel[4] wedi aros yn sefydlog ers 2012 gyda rhai pigau oherwydd adroddiadau hanesyddol. Mae Ynys Môn â rhifau cyfartalog o'i gymharu â'i MSG a disgwylir iddynt aros yn sefydlog. Gwelwyd cynnydd yn y niferoedd yr adroddwyd amdanynt yng Ngwynedd o fis Gorffennaf 2015 ymlaen ond ers hynny mae'r niferoedd wedi lleihau. Nid ymddengys bod y cynnydd hwn yn gysylltiedig â'r gymuned myfyrwyr. Mae Gwynedd yn risg uchel o'i gymharu â'i MSG a dengys rhagamcanion y bydd cynnydd pellach yn ystod 2016/17.

- 

[1] *MSG – Most Similar Group,* gweler y Rhestr Termau
[2] Dioddefwyr dro ar ôl tro yw pobl sydd wedi dioddef trosedd ddwywaith neu ragor mewn 12 mis.
[3] Pob trosedd dreisgar ble **nad** yw’r berthynas rhwng y dioddefwr a’r troseddwr yn un ddomestig ei natur.
[4] Troseddau treisgar a threiddiol heblaw am droseddau megis dinoethi anweddus.

## Ymddygiad gwrthgymdeithasol

| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | | | | |
| Ymddygiad gwrthgymdeithasol | 4474 | 4371 | 3663 | 3470 |
| Pobl sy'n dioddef trosedd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Personol dro ar ôl tro | 85 | 78 | 62 | 59 |
| **Ynys Môn** | | | | |
| Ymddygiad gwrthgymdeithasol | 1992 | 1989 | 1754 | 1634 |
| Pobl sy'n dioddef trosedd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Personol dro ar ôl tro | 33 | 50 | 49 | 35 |

- Mae'r achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yr adroddir amdanynt wrth Heddlu Gogledd Cymru yng Ngwynedd ac Ynys Môn wedi lleihau ers 2012. Mae'r adroddiadau am achosion o'r fath yn dymhorol iawn gyda'r nifer o ddigwyddiadau yr adroddir amdanynt ym misoedd yr haf yn ddwbl yr hyn yr adroddir amdanynt ym misoedd y gaeaf. Awgryma'r rhagamcanion y bydd lleihad pellach yn ystod 2016/17, fodd bynnag, rhagwelir cynnydd yn rhan gyntaf 2016/17 oherwydd y duedd dymhorol.

- Ymddygiad gwrthgymdeithasol personol yw ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi'i anelu at unigolyn neu grŵp yn hytrach na'r gymuned yn gyffredinol. Dilynir i fyny pob adroddiad ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gydag asesiad risg o'r dioddefwr. Dioddefwyr dro ar ôl tro yw pobl sydd wedi dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol personol ddwywaith neu ragor mewn 12 mis. Mae nifer y bobl sy'n dioddef dro ar ôl tro wedi lleihau ers cyflwyno cofnodi ym mis Ebrill 2013 yn y ddwy sir gydag arwyddion diweddar yn dangos y posibilrwydd y bydd lleihad pellach.

## Cam-drin Domestig

| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | | | | |
| Troseddau Treisgar Domestig | 529 | 445 | 451 | 586 |
| Achosion risg uchel yr adroddir amdanynt yn MARAC | 182 | 220 | 149 | 164 |
| Pobl sy'n dioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro | 57 | 38 | 50 | 49 |
| **Ynys Môn** | | | | |
| Troseddau Treisgar Domestig | 274 | 239 | 275 | 331 |
| Achosion risg uchel yr adroddir amdanynt yn MARAC | 110 | 137 | 107 | 87 |
| Pobl sy'n dioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro | 22 | 21 | 29 | 28 |

- Mae cam-drin domestig yn cynnwys pob trosedd treisgar sydd wedi'i nodi'n ddomestig oherwydd y berthynas rhwng y dioddefwr a'r troseddwr. Ers 2012, mae adroddiadau am drosedd treisgar domestig wedi cynyddu yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn fwyaf amlwg yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Cydnabuwyd erioed nad yw achosion cam-drin domestig yn cael eu hadrodd amdanynt i gyd ac felly mae'n debygol bod staff rheng flaen yn derbyn hyfforddiant gwell a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau partner yn debygol o fod wedi peri cynnydd yn yr adroddiadau. Gyda gwelliannau pellach wedi'u cynllunio yn y modd y rhennir gwybodaeth efallai am gyfrannu tuag at gynnydd mewn adrodd am achosion o'r fath, bydd hyn yn debygol o gael ardrawiad ar y gwasanaethau.

- Mae niferoedd yr achosion risg uchel a drafodwyd mewn cyfarfodydd MARAC[5] wedi lleihau yng Ngwynedd yn 2014 ac yn Ynys Môn yn 2015. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod proses sgrinio wedi'i chyflwyno er mwyn sicrhau bod achosion yn cyrraedd y trothwyon priodol. Ni fu cynnydd arwyddocaol mewn achosion MARAC ynghyd â chynnydd yn yr achosion cam-drin treisgar domestig yr adroddwyd amdanynt yn awgrymu bod yr achosion risg uchel wedi cael eu hadnabod yn gyson dros amser.

- Dioddefwyr trais domestig dro ar ôl tro yw pobl sydd wedi dioddef dwy drosedd neu ragor o fewn 12 mis. Mae nifer y bobl sydd wedi dioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro yn y ddwy sir wedi cynyddu ers 2012. Gwelwyd cynnydd yn nifer y dioddefwyr dro ar ôl tro yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn ystod misoedd yr haf yn 2015/16 a bu dirywiad yn y nifer yn ystod y gaeaf. Ar hyn o bryd nid yw'r rheswm am hyn yn eglur, fodd bynnag, cynllunnir dadansoddiad pellach. Rhagwelir y bydd niferoedd y dioddefwyr trais domestig dro ar ôl tro yn aros yn sefydlog.

---

[5] Cynadleddau asesiad risg amlasiantaeth (MARAC) – Cyfarfod amlasiantaeth misol er mwyn trafod achosion trais domestig risg uchel/achosion dro ar ôl tro

## Aildroseddu

| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | | | | |
| Oedolion yn aildroseddu | 313 | 310 | 316 | 300 |
| Pobl Ifanc yn aildroseddu | 63 | 43 | 28 | 20 |
| Ynys Môn | | | | |
| Oedolion yn aildroseddu | 143 | 150 | 126 | 147 |
| Pobl Ifanc yn aildroseddu | 28 | 22 | 13 | 19 |

- Oedolion sy’n aildroseddu yw unigolion sy’n 18 oed neu hŷn sydd wedi eu cyhuddo neu eu rhybuddio am ddwy drosedd neu ragor mewn 12 mis. Mae nifer yr oedolion sy'n aildroseddu wedi lleihau'n araf yng Ngwynedd ac Ynys Môn ers 2012. Fodd bynnag, bu cynnydd diweddar yn Ynys Môn ar ddiwedd 2015/16.

- Troseddwyr ifanc dro ar ôl tro yw unigolion o dan 17 oed sydd wedi eu cyhuddo neu eu rhybuddio am ddwy drosedd neu ragor mewn 12 mis. Mae aildroseddu ymhlith pobl ifanc wedi lleihau'n sylweddol yng Ngwynedd ers 2012 gyda dim ond traean o’r troseddwyr yn 2015/16. Gwelodd Ynys Môn ddirywiad cadarnhaol mewn aildroseddu gan bobl ifanc hefyd. Fodd bynnag, bu cynnydd yn Ynys Môn ar ddiwedd 2015/16. Bu’r lleihad yn nifer y bobl ifanc sy'n aildroseddu oherwydd yr ymgais i osgoi eu gwneud yn droseddwyr am fân droseddau megis dwyn o siopau a difrod troseddol gan ddefnyddio dulliau amgen i ymdrin â hwy fel yr argymhellir.

## Rhestr Termau


**Troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr** - Mae troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr yn cynnwys pob trosedd a gofnodwyd gan yr heddlu ble roedd dioddefwr uniongyrchol. Gall y dioddefwr hwn fod yn unigolyn, sefydliad neu gorff corfforaethol. Mae'r categori hwn yn cynnwys troseddau treisgar wedi'u hanelu at unigolyn neu unigolion penodol, troseddau rhywiol, lladrad, troseddau dwyn (gan gynnwys bwrgleriaeth a throseddau cerbydau), difrod troseddol a llosgi bwriadol.


**MSG** – *Most Similar Group* – Grŵp o siroedd yng Nghymru a Lloegr sy'n debyg o ran demograffeg a daearyddiaeth ac fe'u defnyddir i gymharu'r PDC yn eu herbyn.

**Cynadleddau asesiad risg amlasiantaeth (MARAC)** – Cyfarfod amlasiantaeth misol er mwyn trafod achosion trais domestig risg uchel/achosion dro ar ôl tro


**Troseddau treisgar nad ydynt yn rai domestig –** Pob trosedd dreisgar lle pennir nad yw'r berthynas rhwng y dioddefwr a'r troseddwr yn un domestig ei natur.


## Atodiad – Troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr








## Atodiad – Dioddefwyr dro ar ôl tro








## Atodiad – Trosedd Meddiangar








## Atodiad – Troseddau treisgar nad ydynt yn rai domestig








## Atodiad – Trais Rhywiol Risg Uchel








## Atodiad – Ymddygiad Gwrthgymdeithasol








## Atodiad – Pobl sy'n dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol dro ar ôl tro








## Atodiad – Troseddau Treisgar Domestig








## Atodiad – Nifer Uchel o Achosion Can-Drin Domestig a drafodwyd mewn MARAC








## Atodiad – Pobl sy'n dioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro








## Atodiad- Ymddygiad Troseddol Oedolion



## Atodiad – Ymddygiad Troseddol Ieuenctid



## Blaenoriaethau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru (PDC GC)

Tra bo PDG GC yn canolbwyntio ar iechyd meddwl, troseddau cudd a throseddau drwy ddefnydd technoleg ar lefel ranbarthol, mae'r Bwrdd wedi gofyn i'r PDC lleol ganolbwyntio ar:

1. **Lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal**

*Drwy roi sylw i amcanion Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, sef 'Atal Trosedd' a 'Lleihau niwed a'r risg o niwed'*

- Lleihau troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr
- Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Cefnogi pobl fregus i'w hatal rhag iddynt ddioddef trosedd
- Lleihau nifer y troseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n digwydd dro ar ôl tro
- Gweithio gyda MARAC i leihau y niferoedd sy'n ddioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro
- Ymdrin yn effeithiol ag achosion risg uchel o Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Cynyddu hyder i adrodd am achosion o Gam-drin Domestig a Throseddau Rhywiol
- Cynyddu ymwybyddiaeth am drais rhywiol ymysg pobl ifanc

**2. Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal**

Drwy roi sylw i amcanion Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, sef 'Lleihau niwed a'r risg o niwed' a'r risg strategol 'Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol'

- Lleihau camddefnyddio sylweddau

**3. Lleihau aildroseddu**

- Aildroseddu ymysg oedolion
- Aildroseddu ymysg plant a phobl ifanc

Mae'r cynllun 2015/16 sy'n dilyn yn anelu i adeiladu ar y gwaith helaeth sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf sydd wedi arwain at ostyngiad sylweddol mewn Trosedd ac Anhrefn yn Siroedd Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar feysydd gwaith sydd angen eu datblygu yn ystod 2015/16, yn seiliedig ar yr asesiad strategol, a hefyd ar y canllawiau a blaenoriaethau a sefydlwyd gan y Bwrdd rhanbarthol. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn nodi meysydd gwaith eisoes wedi'i sefydlu, ond yn parhau i gyfrannu tuag at ein meysydd ffocws a blaenoriaethau.

Meysydd gwaith blaenoriaeth Gwynedd ac Ynys Môn sy'n gysylltiedig â chynllun y CH&T a blaenoriaethau BCD GC yw:

**1. Lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal. 2. Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal. 3. Lleihau aildroseddu**

| | **Camau Gweithredu a phrosiectau 2015/16**<br>**Prosiectau wedi comisiynu**<br>**Ymyriadau partneriaid mewn lle (hefyd yn cyfrannu i'r ffocws)** | **Dyddiad Targed** | **Deilliannau** |
|---|---|---|---|
| **1** | **Ffocws:** Lleihau troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr (Troseddau meddiangar yn unig)<br><br>**Mesur: 1** Lefel o droseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr –troseddau meddiangar<br>**2** Nifer sydd yn dioddefwyr dro ar ôl tro – troseddau meddiangar | | |
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2015/16** | | |
| | Dadansoddiad pellach o ddigwyddiadau **treisgar** nad ydynt yn ddomestig, i adnabod tueddiadau a phatrymau ymateb i ganlyniad y dadansoddiad gyda chynlluniau gweithredu addas | Mehefin | Dadansoddiad wedi ei wneud, cynllun os oes tueddiadau wedi eu hadnabod |
| | Wedi adnabod angen i adolygu cydweithio ar ddiogelwch myfyrwyr yn ystod wythnos *'Freshers'* | Awst | Ymateb aml-asiantaethol mewn lle ar gyfer *'Fresher's'* |
| | Codi ymwybyddiaeth o gynllun gwarchod cymdogaeth *'OWL – Online Watch Link'* | Rhagfyr | Cynllun codi ymwybyddiaeth wedi cwblhau |
| | Adolygu ac ail frandio ymgyrch *'Our watch'* | Rhagfyr | Adolygiad wedi ei gwblhau |
| | Cefnogi gwaith y grŵp 'grwpiau troseddau trefnedig' rhanbarthol newydd, a sicrhau ymateb priodol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn | Parhaus | Gwaith y grŵp wedi ei gefnogi yn lleol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Prosiectau wedi comisiynu**<br><br>Gweithgareddau dargyfeiriol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnwys cynllun SPLASH<br><br>**Ymyriadau partneriaid mewn lle (hefyd yn cyfrannu i'r ffocws)**<br><br>Ymgyrchoedd: *Cusher2, Meter, Waldman* a Bangor Uchaf yn targedu economi gyda'r nos ac yn cyfrannu tuag at lleihad mewn trais. Partneriaid – Heddlu, Safonau Masnach, Heddweision Gwirfoddol a Bugeiliaid y Stryd.<br><br>Ymgyrchoedd: *Falcade* a *Magic,* yn defnyddio dadansoddiad rhagfynegol i dargedu trosedda meddiangar yng Ngogledd a De Gwynedd a Caergybi. Partneriaid – Heddlu<br><br>Ymgyrch peilot ym Mhen Llŷn, PCSOs yn cael ei hyfforddi i wneud arolwg diogelwch tân yn y cartref/swyddogion gwasanaeth tân am gael eu hyffordd i allu gwneud arolwg lleihau trosedd. Partneriaid – Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Heddlu.<br><br>Ymgyrch *Revolution*, defnyddio dadansoddiad proffilio i amlygu unigolion sydd yn debygol o achosi damweiniau car difrifol neu sydd yn arwain at farwolaeth. Partneriaid – Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Heddlu. | Mawrth 2016 | Gwasanaeth sydd wedi ei gomisiynu wedi cael ei gyflawni (contract mewn lle) |
| **2** | **Ffocws:** Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YGG)<br><br>**Mesur: 1** Lefel o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol<br>**2** Nifer sydd yn dioddefwyr dro ar ôl tro | | |
| | **Camau Gweithredu a phrosiectau 2015/16**<br><br>Y ddau Gyngor i adnabod pa bwerau maent am fabwysiadu parthed y deddfwriaeth newydd a newid y cyfansoddiad fel y bo'r angen<br><br>Timau Ymyraethau Cynnar i'w sefydlu, i geisio atal problemau YGG rhag gwaethygu, a chefnogi'r bobl fwyaf bregus yn ein cymuned | <br><br>Mawrth 2016<br><br>Ebrill | <br><br>Proses wedi cwblhau<br><br>TYC yn ei le yn cyrraedd ei nod ac amcanion |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Sefydlu tasglu Tai Ychwanegol ym maes YGG, i sicrhau y ceir ymatebion sy'n amserol ac wedi'u cydlynu i YGG | Ebrill | | Grŵp tasg yn ei le yn cyrraedd ei nod ac amcanion |
| | Cynyddu'r adnodd weithredol YGG yn Awdurdod Lleol Ynys Môn (bwlch wedi adnabod yn yr Adran Tai) | Mehefin | | Adnoddau ychwanegol mewn lle |
| | Diweddaru polisi YGG yn y ddau awdurdod lleol (Adrannau Tai) | Mawrth 2016 | | Polisïau mewn lle |
| | Diweddaru polisi YGG y Bartneriaeth | Rhagfyr | | Polisi mewn lle |
| | **Prosiectau wedi comisiynu**<br><br>**Ymyriadau partneriaid mewn lle (hefyd yn cyfrannu i'r ffocws)** | | | |
| 3 | **Ffocws:** Cefnogi Pobl fregus i'w hatal rhag bod yn ddioddefwyr trosedd<br><br>**Mesur: 1** Niferoedd sydd yn dioddef trosedd dro ar ôl tro | | | |
| | **Camau Gweithredu a phrosiectau 2015/16**<br><br>Dadansoddiad pellach o **droseddau rhywiol** ar blant a phobl ifanc (Gwynedd ac Ynys Môn), i adnabod unrhyw ffactorau'n ymwneud â bod yn agored i niwed y gellir ymdrin â hwy | Mehefin | | Dadansoddiad wedi ei wneud, cynllun os oes tueddiadau wedi eu hadnabod |
| | Peilot iechyd meddwl yn Ynys Môn – gweithio gyda Phrifysgol Bangor. Amlygu ymarfer da, a datblygu fframwaith ar gyfer deall beth ydi'r darpariaeth cyfredol ac amlygu bylchau mewn gwasanaethau ar gyfer unigolion gyda anawsterau iechyd meddwl sydd yn achosi galw uchel ar wasanaethau yr Heddlu. Partneriaid – Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn, Heddlu a Phrawf Cymru. | Dim dyddiad penodol | | Ymchwil wedi ei wneud, ac wedi ei adrodd i'r BCD |
| | Angen deall y tirlun o ble mae gweithgaredd camfanteisio'n rhywiol ar blant yn digwydd yn lleol gan gynnwys cynlluniau strategol cynghorau, bwrdd diogelu lleol, cynllun | Mawrth 2016 | | Eglurdeb mewn lle parthed tirlun lleol er mwyn galluogi gweithredu lleol er mwyn ymateb i'r cynllun rhanbarthol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | rhanbarthol ayyb er mwyn paratoi ar gyfer gweithredu yn lleol<br><br>Timau Ymyraethau Cynnar i'w sefydlu, i geisio atal problemau YGG rhag gwaethygu, a chefnogi'r bobl fwyaf bregus yn ein cymuned<br><br>**Prosiectau wedi comisiynu**<br><br>**Ymyriadau partneriaid mewn lle (hefyd yn cyfrannu i'r ffocws)** | <br><br>Ebrill | <br><br>TYC yn ei le yn cyrraedd ei nod ac amcanion |
| **4** | **Ffocws:** Codi hyder i adrodd am ddigwyddiadau cam-drin domestig / Gweithio gyda MARAC i leihau y niferoedd sy'n ddioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro (Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol)<br><br>**Mesur:** **1** Lefel o gam-drin domestig<br>**2** Lefel o gam-drin domestig risg uchel (Achosion MARAC)<br>**3** Nifer sydd yn ddioddefwyr dro ar ôl tro | | |
|  | **Camau Gweithredu a phrosiectau 2015/16**<br><br>Datblygu a rhoi cynllun gweithredu ar waith i ymateb i adolygiad diweddar 'Bywydau Mwy Diogel' (*Safe Lives)* MARAC Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd hyn yn sicrhau bod y ddwy MARAC yn gweithredu'n unol â'r safonau cenedlaethol disgwyliedig<br><br>Codi ymwybyddiaeth o Drais Domestig ar draws Gwynedd ac Ynys Môn gyda'r ymgyrch Rhuban Gwyn ym mis Tachwedd. Adolygu trefniant presennol a sicrhau cydweithio effeithiol<br><br>Adnabod yr holl gyfleoedd posib am gyllid er mwyn gallu comisiynu Ymgynghorwyr Annibynnol Trais yn y Cartref (IDVA) (sy'n hanfodol i effeithiolrwydd y MARAC)<br><br>Datblygu ymateb a gweithredu ymateb i'r adolygiad '10,000 o Fywydau Mwy Diogel' gan gynnwys adnabod 'hyrwyddwyr' addas o fewn yr Awdurdodau Lleol.<br><br>Adnabod a nodi unrhyw gyfleoedd ariannu posib er mwyn comisiynu darpariaeth Llymhau Targedau | <br><br>Medi<br>Ionawr<br><br><br>Tachwedd<br><br><br><br>Ebrill<br><br><br>Parhaus<br><br><br>Ebrill | <br><br>Cynllun mewn lle<br>Cynllun wedi ei weithredu<br><br><br>Cynllun rhuban gwyn mewn lle ac wedi ei weithredu<br><br><br><br>Adnoddau wedi ei hamlygu a gwasanaeth wedi ei gomisiynu yn lleol<br><br>Targedau y cynllun 10,000 bywydau diogel wedi eu cyrraedd<br><br>Adnoddau wedi ei hamlygu a gwasanaeth wedi ei gomisiynu yn lleol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ymateb i'r ddeddfwriaeth newydd, Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 , gan gynnwys cyflwyniad arfaethedig y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol (Mehefin 2015)<br><br>Adolygu hyfforddiant CAADA-DASH i aelodau MARAC<br><br>**Prosiectau wedi comisiynu**<br><br>• Gwasanaeth Caledu Targed (diogelu cartref)<br>• Ymgynghorwyr Annibynnol ar gyfer Dioddefwyr Trais y yn Cartref<br>• Dyfeisiadau ffons '*Skyguard*' i ddiogelu dioddefwyr trais yn y cartref<br><br>**Ymyriadau partneriaid mewn lle (hefyd yn cyfrannu i'r ffocws)** | Parhaus<br><br>Rhagfyr<br><br>Mawrth 2016 | Cydymffurfio'n lleol<br><br>Anghenion hyfforddiant wedi eu hadnabod, ac ymateb i'r bylchau lle ym bosib<br><br>Gwasanaeth sydd wedi ei gomisiynu wedi cael ei gyflawni (contract mewn lle) |
| **5** | **Ffocws:** Codi hyder i adrodd am drais rhywiol / Cynyddu ymwybyddiaeth am drais rhywiol ymysg pobl ifanc<br><br>**Mesur:** **1** Lefel o droseddau rhywiol<br>**2** Nifer o droseddau camfanteisio yn rhywiol ar blant | | |
| | **Camau Gweithredu a phrosiectau 2015/16**<br><br>Dadansoddiad pellach o **droseddau rhywiol** ar/gan blant a phobl ifanc (Gwynedd ac Ynys Môn), i adnabod unrhyw ffactorau'n ymwneud â bod yn agored i niwed y gellir ymdrin â hwy<br><br>Sicrhau bod plant oedran blwyddyn 9 yn ein hysgolion yn derbyn gwybodaeth addas parthed troseddau ac camdriniaeth rhywiol *(Cat's Paw)* | Mehefin<br><br>Parhaus | Dadansoddiad wedi ei wneud, cynllun os oes tueddiadau wedi eu hadnabod<br><br>Sicrhau fod pob ysgol sydd eisiau'r ymyrraeth yma wedi ei dderbyn cyn diwedd y flwyddyn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Trafod y posibilrwydd o hyfforddiant gorfodol i yrwyr tacsi ym maes pobl ifanc bregus (cam-fanteisio'n rhywiol ar blant ayyb)gyda safonau masnach y ddau Gyngor<br><br>Wedi adnabod bylchau yn y gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ynglŷn a thrais a'r diffiniad o ganiatâd, adnabod gwybodaeth addas a chyfredol am y pwnc all gael ei ddefnyddio mewn ymgyrchoedd lleol.<br><br>**Prosiectau wedi comisiynu**<br><br>Rhaglen Atal Ymddygiad Rhywiol Niweidiol Rhanbarthol *('Cat's Paw')*<br><br>**Ymyriadau partneriaid mewn lle (hefyd yn cyfrannu i'r ffocws)** | Mawrth 2016<br><br>Chwefror<br><br>Mawrth 2016 | Trafodaethau wedi i'w cynnal, ar gofynion i gyrwyr tacsis mewn lle os am weithredu<br>Mapio wedi cymeryd lle ac bylchau wedi eu hadnabod<br><br>Gwasanaeth sydd wedi ei gomisiynu wedi cael ei gyflawni (contract mewn lle) |
| **6** | **Ffocws:** Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal<br><br>**Mesur: 1** Dangosyddion perfformiad allweddol Llywodraeth Cymru | | |
| | **Camau Gweithredu a phrosiectau 2015/16**<br><br>Cadw trosolwg ar geisiadau cyfalaf ar gyfer yr ardal – i'w cyflwyno i Fwrdd Cynllunio'r Ardal Yn bosib eleni :<br>Tyn Rhodyn, prydles<br>Agro, datblygiad ym Mhlas Penrhyn | O fewn amserlen y ceisiadau cyfalaf – wedi'i bennu gan Lywodraeth Cymru | Ceisiadau cyfalaf yn cael ei cyflwyno |
| | Blaenoriaethu adeilad newydd camddefnyddio sylweddau ym Mangor | Hydref | Adolygiad o'r anghenion ym Mangor wedi cwblhau |
| | Adolygu effeithiolrwydd yr is-grŵp alcohol – ailsefydlu os bydd angen | Hydref | Adolygiad wedi cwblhau, grŵp newydd wedi sefydlu os oes angen |
| | Datblygu rhaglen ADFER gan AGRO (rhaglen Adfer Ynys Môn a Gwynedd) | Parhaus | Nifer o raglenni penodol wedi eu datblygu ar gyfer clientau ar gyfer cefnogi ac annog adferiad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Sicrhau bod unrhyw fylchau lleol mewn gwasanaethau'n cael eu bwydo i'r cylch Comisiynu a chynllunio rhanbarthol, a bod Gwynedd ac Ynys Môn yn derbyn darpariaeth gydradd (ar draws y rhanbarth) | Parhau | Sicrhau cyswllt effeithiol gyda'r grŵp comisiynu rhanbarthol |
| | Cyflwyno hyfforddiant NPS ar gyfer Bugeiliaid y stryd | Hydref | Hyfforddiant wedi ei gyflwyno |
| | Mentrau economi'r nos yn ei le | Rhagfyr | Cynllun yn ei le a wedi cyflawni |
| | **Prosiectau wedi comisiynu**<br><br>Swyddog Datblygu Cymorth Iechyd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | Mawrth 2016 | Gwasanaeth sydd wedi ei gomisiynu wedi cael ei gyflawni |
| | **Ymyriadau partneriaid mewn lle (hefyd yn cyfrannu i'r ffocws)**<br><br>Ymgyrch *Neptune*, yn targedu camddefnyddio alcohol gan gynnwys prawf brynu alcohol ar y cyd, profion diogelwch tân, *teen total*, *tricep points,* Gwarchod Tafarndai a gwirio *Security Industry Authority* (Staff Drws Trwyddedig). Partneriaid – Heddlu, Safonau Masnach, Gwasanaeth Tân ac achub, Bugeiliaid y Stryd, Addysg, gwyliwr y glannau.<br><br>Arolwg diogelwch tân yn y cartref ar gyfer unigolion sydd wedi eu hadnabod i fod yn fregus oherwydd camddefnydd alcohol. Partneriaid – Gwasanaeth Tân ac Achub, CAIS a Bwrdd Iechyd Lleol. | | |
| **7** | **Ffocws:** Lleihau aildroseddu (i dioddefwyr a throseddwyr)<br><br>**Mesur: 1** Nifer sydd yn dioddefwyr o drosedd dro ar ôl tro<br>**2** Nifer sydd yn ail-droseddu dro ar ôl tro (IOM, GCI) | | |
| | **Camau Gweithredu a phrosiectau 2015/16**<br><br>Targedu ail droseddwyr (oedolion) drwy gyfrwng proses Rheoli Troseddwyr yn Integredig (IOM). Adnabod y rhai sy'n achosi'r niwed mwyaf (troseddwyr cyson) ac ymdrin â'u hymddygiad aildroseddu | Parhaus | Grŵp *'IOM'* lleol yn ei le ac yn cyrraedd ei nod ac amcanion |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tudalen 55 | Targedu troseddwyr ifanc i leihau aildroseddu drwy weithredu ar gynllun Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn<br><br>**Prosiectau wedi comisiynu**<br><br>Swyddog ataliol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a biwro ataliol<br>Swyddog Cyfiawnder Ataliol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid<br>Swyddog ailsefydlu a rhyddhau ar drwydded Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid<br>Gweithiwr Ymyraethau Cyfiawnder Cymunedol<br>Cefnogaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid<br>Swyddog cymorth fel y bo'r angen (Tai a llety)<br>Swyddog Cymorth Gyrfaoedd<br><br>**Ymyriadau partneriaid mewn lle (hefyd yn cyfrannu i'r ffocws)**<br><br>Ymgyrch Phoenix, targedu pobl ifanc sydd wedi eu hadnabod o fod mewn perygl o droseddu neu ail droseddu ac ymrwymo nhw mewn gweithgareddau positif. Partneriaid – Gwasanaeth Tân ac Achub, Addysg, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'r Heddlu.<br><br>Prosiect *WISDOM* - cynllun peilot yng Ngwynedd ac Ynys Môn sy'n dod ynghyd yr Heddlu (Swyddogion Diogelu'r Cyhoedd, PPU) a'r Gwasanaeth Prawf (Swyddogion o uned troseddwyr rhywiol a threisgar, SOVU) i weithio ar y cyd oddi fewn adeilad yr Awdurdod Lleol. Sydd yn cryfhau'r ymateb aildroseddu mewn perthynas â throseddwyr risg uchel.<br><br>Hefyd yn treialu newid mewn cyswllt troseddwyr â Swyddogion Prawf, sydd nawr yn symud i gymryd lle mewn adeiladau Heddlu ar draws y ddwy sir. Partneriaid – Prawf Cymru, Heddlu a Gwasanaethau Cymdeithasol. | Parhaus<br><br><br><br>Mawrth 2016 | Cynllun GCI yn ei le ac yn cyrraedd ei nod ac amcanion<br><br><br><br>Gwasanaeth sydd wedi ei gomisiynu wedi cael ei gyflawni (contract mewn lle) |

ATODIAD 3

# BLAENORIAETHAU DIOGELWCH CYMUNEDOL

**Troseddau Meddiangar**
Lleihau troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr

**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**
Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol (YGG)

**Dioddefwyr Bregus**
Cefnogi Pobl fregus i'w hatal rhag bod yn ddioddefwyr trosedd

**Trais yn y Cartref**
Codi hyder i adrodd am ddigwyddiadau cam-drin domestig



**Trais Rhywiol**
Codi hyder i adrodd am drais rhywiol

**Camddefnyddio Sylweddau**
Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal

**Aildroseddu**
Lleihau aildroseddu i dioddefwyr a throseddwyr

## Blaenoriaethau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru (PDC GC)

Tra bo PDG GC yn canolbwyntio ar iechyd meddwl, troseddau cudd a throseddau drwy ddefnydd technoleg ar lefel ranbarthol, mae'r Bwrdd wedi gofyn i'r PDC lleol ganolbwyntio ar:

1. **Lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal**

*Drwy roi sylw i amcanion Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, sef 'Atal Trosedd' a 'Lleihau niwed a'r risg o niwed'*

- Lleihau troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr
- Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Cefnogi pobl fregus i'w hatal rhag iddynt ddioddef trosedd
- Lleihau nifer y troseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n digwydd dro ar ôl tro
- Gweithio gyda MARAC i leihau y niferoedd sy'n ddioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro
- Ymdrin yn effeithiol ag achosion risg uchel o Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Cynyddu hyder i adrodd am achosion o Gam-drin Domestig a Throseddau Rhywiol
- Cynyddu ymwybyddiaeth am drais rhywiol ymysg pobl ifanc

2. **Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal**

Drwy roi sylw i amcanion Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, sef 'Lleihau niwed a'r risg o niwed' a'r risg strategol 'Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol'

- Lleihau camddefnyddio sylweddau

3. **Lleihau aildroseddu**

- Aildroseddu ymysg oedolion
- Aildroseddu ymysg plant a phobl ifanc

Mae'r cynllun 2016/17 sy'n dilyn yn anelu i adeiladu ar y gwaith helaeth sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf sydd wedi arwain at ostyngiad sylweddol mewn Trosedd ac Anhrefn yn Siroedd Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar feysydd gwaith sydd angen eu datblygu yn ystod 2016/17, yn seiliedig ar yr asesiad strategol, a hefyd ar y canllawiau a blaenoriaethau a sefydlwyd gan y Bwrdd rhanbarthol. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn nodi meysydd gwaith eisoes wedi'i sefydlu, ond yn parhau i gyfrannu tuag at ein meysydd ffocws a blaenoriaethau.

Meysydd gwaith blaenoriaeth Gwynedd ac Ynys Môn sy'n gysylltiedig â chynllun y CH&T a blaenoriaethau BCD GC yw:

**1. Lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal. 2. Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal. 3. Lleihau aildroseddu**

| | **Camau Gweithredu a phrosiectau 2016/17**<br>**Prosiectau wedi comisiynu**<br>**Ymyriadau partneriaid mewn lle (hefyd yn cyfrannu i'r ffocws)** | **Dyddiad Targed** | **Cyfrifoldeb** | **Deilliannau** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Ffocws:** Lleihau troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr (Troseddau meddiangar yn unig)<br><br>**Mesur: 1** Lefel o droseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr –troseddau meddiangar<br>**2** Nifer sydd yn dioddefwyr dro ar ôl tro – troseddau meddiangar | | | |
| Tudalen 58 | **Camau gweithredu a phrosiectau 2016/17**<br><br>Adrannau Safonau Masnach (SM) y ddwy Sir , i barhau i adnabod cyfleon i wneud gwaith parthed 'troseddau ar stepen ddrws' a 'galwadau heb eu gwahodd' (*cold calling*) a sgamiau yn enwedig mewn perthynas a pobl fregus. Edrych ar gyfleon i gydweithio gyda phartneriaid eraill. | Trwy'r flwyddyn | Emma Jones<br>Manon Williams | Cynllun gwaith mewn lle |
| | SM i weithio gyda'r heddlu i adnabod cyfleon i weithredu 'ardaloedd dim galwadau ddi wahodd', fel a mae angen. | Trwy'r flwyddyn | Emma Jones<br>Manon Williams<br>Ian Roberts | Ardaloedd wedi eu hadnabod, a gweithredu nol yr angen |
| | Wedi adnabod angen i adolygu cydweithio ar ddiogelwch myfyrwyr yn ystod wythnos *'Freshers'* | Medi | Alun Roberts<br>Helen O'Riley | Ymateb aml-asiantaethol mewn lle ar gyfer *'Fresher's'* |
| | Cefnogi gwaith y grŵp 'grwpiau troseddau trefnedig' rhanbarthol newydd, a sicrhau ymateb priodol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn. Gweithgaredd penodol i'w wneud yn cyfrannu tuag at proffilio yn lleol (cynllun proffilio grwpiau troseddau trefnedig). | Mawrth | Catherine Roberts<br>Dave Riley<br>Catherine Griffiths<br>Mathew Sherrington | Gwaith y grŵp wedi ei gefnogi yn lleol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tudalen 59 | Dadansoddiad pellach yn cael ei wneud ar droseddau difrodi (*criminal damage*) , er mwyn adnabod os oes cyfleon I dargedu ymyrraeth penodol , er mwyn taclo'r cynnydd lleol yn y maes troseddu yma.<br><br>**Prosiectau wedi comisiynu**<br><br>Gweithgareddau dargyfeiriol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnwys cynllun SPLASH<br>Swyddog ataliol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a biwro ataliol<br>Swyddog Cyfiawnder Ataliol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid<br>Swyddog ailsefydlu a rhyddhau ar drwydded Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid<br>Gweithiwr Ymyraethau Cyfiawnder Cymunedol<br>Swyddog cymorth fel y bo'r angen (Tai a llety)<br>Swyddog Cymorth Gyrfaoedd<br><br>**Ymyriadau partneriaid mewn lle (hefyd yn cyfrannu i'r ffocws)**<br><br>Parhau i cyfrannu yn rheolaidd tuag at ymgyrch *liberal* drwy'r flwyddyn – sydd yn taclo troseddau ar stepan drws, a byrgleriaethau tynnu sylw. Partneriaid – Heddlu, Safonau Masnach.<br><br>Ymgyrchoedd: *Cusher2, Meter, Waldman* a Bangor Uchaf yn targedu economi gyda'r nos ac yn cyfrannu tuag at lleihad mewn trais. Partneriaid – Heddlu, Safonau Masnach, Heddweision Gwirfoddol a Bugeiliaid y Stryd.<br><br>Ymgyrchoedd: *Falcade* a *Magic,* yn defnyddio dadansoddiad rhagfynegol i dargedu trosedda meddiangar yng Ngogledd a De Gwynedd a Caergybi. Partneriaid – Heddlu<br><br>Ymgyrch peilot ym Mhen Llŷn, PCSOs yn cael ei hyfforddi i wneud arolwg diogelwch tân yn y cartref/swyddogion gwasanaeth tân am gael eu hyfforddi i allu gwneud arolwg lleihau trosedd. Partneriaid – Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Heddlu. | Mehefin | Mathew Stewart | Dadansoddiad wedi ei gyflawni – posib gyfleon i ymateb wedi eu hadnabod |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ymgyrch *Clubland* – Ymgyrch i addysgu perchnogion tai am droseddau byrgleriaeth annedd a'r perygl o adael eiddo yn anniogel. Peilot yn ardaloedd Bangor a Phwllheli.<br><br>Ymgyrch *Haywire* – Ymgyrch i addysgu perchnogion cerbydau o droseddau dwyn a'r peryglon o adael cerbydau yn anniogel. Yn weithredol yn ardal Gorllewin. | | | |
| **2** | **Ffocws:** Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YGG)<br><br>**Mesur: 1** Lefel o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol<br>**2** Nifer sydd yn dioddefwyr dro ar ôl tro | | | |
| Tudalen 60 | **Camau Gweithredu a phrosiectau 2016/17**<br><br>Y ddau Gyngor i adnabod pa bwerau maent am fabwysiadu parthed y deddfwriaeth newydd a newid y cyfansoddiad fel y bo'r angen | D/YY | Iwan Evans<br>Robyn Jones | Proses wedi cwblhau |
| | Ail -Sefydlu tasglu Tai Ychwanegol ym maes YGG, i sicrhau y ceir ymatebion sy'n amserol ac wedi'u cydlynu i YGG | D/YY | Aml-asiantaethol | Grŵp tasg yn ei le yn cyrraedd ei nod ac amcanion |
| | Sefydlu cynrychiolaeth mwy cadarn i'r dyfodol gan wasanaethau Iechyd a gwasanaethau'r Cyngor, ar y grŵp tasg, fel a sydd yn briodol | Mawrth | Aml-asiantaethol | Asesiad ar ddiwedd y flwyddyn, o gynrychiolaeth addas ar y grŵp |
| | Sefydlu cyfarfodydd rheolaidd rhwng wasanaethau (perthnasol) y Cyngor, a swyddogion Diogelwch Cymunedol y Cyngor, i amlygu tueddiadau/ardaloedd penodol, ble mae angen chydweithio ar faterion YGG a throseddu | Dryw'r flwyddyn | Catherine Roberts<br>Ian Roberts | Tystiolaeth o gyfarfodydd, a chynlluniau gweithredu mewn lle |
| | Cychwyn proses gyfreithiol o fewn yr Awdurdodau Lleol, sy'n galluogi trosglwyddo Gorchymyn Mannau Cyhoeddus Dynodedig presennol (4 yn Ynys Môn 7 yng Ngwynedd) i Orchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus erbyn Hydref 2017 | Dryw'r flwyddyn | Catherine Roberts | Cynlluniau mewn lle i alluogi'r newidiadau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Prosiectau wedi comisiynu**<br>Gweithgareddau dargyfeiriol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnwys cynllun SPLASH<br><br>**Ymyriadau partneriaid mewn lle (hefyd yn cyfrannu i'r ffocws)**<br><br>Ymgymryd a gwaith ataliol yn gysylltiedig ac ymgyrchoedd yfed o dan oed wrth gynghori busnesau, gwneud profion prynu o dan oed, ac annog herio 25, hefyd camau gorfodaeth fel yr angen. Partneriaid – Gwasanaethau Safonau Masnach, Heddlu<br><br>Ymgymryd a gwaith i daclo YGG sydd yn gysylltiedig a thân gwyllt, gan gynnwys defnyddio app sŵn a app Mon, er mwyn casglu tystiolaeth ar gyfer camau gorfodaeth. Partneriaid – Gwasanaethau Safonau Masnach, Heddlu | | | |
| **3**  | **Ffocws:** Cefnogi Pobl fregus i'w hatal rhag bod yn ddioddefwyr trosedd<br><br>**Mesur: 1** Niferoedd sydd yn dioddef trosedd dro ar ôl tro | | | |
| | **Camau Gweithredu a phrosiectau 2016/17** | | | |
| | Peilot iechyd meddwl yn Ynys Môn – gweithio gyda Phrifysgol Bangor. Amlygu ymarfer da, a datblygu fframwaith ar gyfer deall beth ydi'r darpariaeth cyfredol ac amlygu bylchau mewn gwasanaethau ar gyfer unigolion gyda anawsterau iechyd meddwl sydd yn achosi galw uchel ar wasanaethau yr Heddlu. Partneriaid – Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn, Heddlu a Phrawf Cymru. | Dim dyddiad penodol | Aml-asiantaethol | Ymchwil wedi ei wneud, ac wedi ei adrodd i'r BCD |
| | Angen deall y tirlun o ble mae gweithgaredd camfanteisio'n rhywiol ar blant yn digwydd yn lleol gan gynnwys cynlluniau strategol cynghorau, bwrdd diogelu lleol, cynllun rhanbarthol ayyb er mwyn paratoi ar gyfer gweithredu yn lleol. Gan gynnwys gwaith gyda'r dadansoddwr i amlygu gweithredu lleol yn deillio o'r cynllun rhanbarthol | Mawrth | Bwrdd Cymunedau Diogel<br>Bwrdd Diogelu Rhanbarthol | Ymchwil wedi ei gyflawni, amlygu os oes gwall neu pheidio yn y gweithrediadau lleol |
| | Sicrhau y bod y ddau Gyngor gyda chynllun PREVENT mewn lle | Ebrill | Catherine Roberts | Cynllun gyda strwythur monitor mewn lle ac yn cael ei diweddaru yn reolaidd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tudalen 62 | Adrannau Safonau Masnach y ddwy Sir , i edrych ar waith parthed 'troseddau ar stepen ddrws', 'galwadau heb eu gwahodd' (*cold calling*) a sgamiau yn enwedig mewn perthynas a pobl fregus. Edrych ar gyfleon i gydweithio gyda phartneriaid eraill a cysidro ystyried Parthau Rheoli Galwyr Di-wahoddiad lle bo'r angen<br><br>Cwblhau'r gwaith ar y cyd o ddatblygu protocol ar gyfer pobl ifanc (lleoliadau o Siroedd eraill) i unedau preswyl yma –parthed materion troseddu tra mewn lleoliad<br><br>Grŵp Tasg a gorffen mewn lle i edrycha ar unigolion sydd wedi eu hadnabod fel unigolion anghenus parthed galw am wasanaeth gan Heddlu/Ambiwlans/Gwasanaeth Tân. Y gwaith yma wedi ei adnabod ar ôl tri Tan damweiniol yng Ngwynedd lle bu marwolaeth.<br><br>**Prosiectau wedi comisiynu**<br>Gwasanaeth Caledu Targed (diogelu cartref)<br>Ymgynghorwyr Annibynnol ar gyfer Dioddefwyr Trais y yn Cartref<br>Dyfeisiadau ffons '*Skyguard*' i ddiogelu dioddefwyr trais yn y cartref<br>Prosiect 'Caring Dads ' yng Gwynedd<br><br>**Ymyriadau partneriaid mewn lle (hefyd yn cyfrannu i'r ffocws)**<br>Hysbysu deunydd o'r ymgyrch ' prynwch gyda hyder -ymgyrch cymeradwy', sydd yn taclo masnachwyr twyllodrus. Partneriaid – Safonau Masnach<br>Ymgyrch *Reflex* – Targedu plant a phobl ifanc sydd yn agored i niwed yn ardaloedd Pwllheli a Blaenau Ffestiniog. Byddai swyddogion yn ymgysylltu a phobl ifanc (yn enwedig os yn yfed o dan oed) ac yn adnabod rhai sydd angen cefnogaeth. Byddent hefyd yn gofyn i rhieni os ydynt yn gwybod ble mae eu plant.<br>Ymgyrch *Wax* – Targedu'r drosedd o gardota yn ardal Bangor sydd yn achosi pryder i'r gymuned leol. Parhaus.<br>Cadetiaid gwirfoddol yr Heddlu (adain Gorllewin) yn gweithio ar y cyd gyda BIPBC/Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Drinkaware.co.uk i lansio ymgyrch atal yfed o dan oed. | Trwy'r flwyddyn<br><br><br><br><br>Gorffennaf<br><br><br><br>D/YY | Emma Jones<br>Manon Williams<br><br><br><br>Stephen Wood<br><br><br><br>Geraint Hughes | Sgyrsiau addysgol, cyngor ac ymyrraeth i grwpiau bregus sy'n agored i niwed, ac ystyried Parthau Rheoli Galwyr Di-wahoddiad lle bo'r angen<br><br>Protocol mewn lle, ac yn cael ei fonitro<br><br><br><br>Adnabod os oes yna faterion penodol yng Ngwynedd sydd angen ymateb lleol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **4** | **Ffocws:** Codi hyder i adrodd am ddigwyddiadau cam-drin domestig / Gweithio gyda MARAC i leihau y niferoedd sy'n ddioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro (Cynhadledd Asesu Risg Am asiantaethol)<br><br>**Mesur: 1** Lefel o gam-drin domestig<br>**2** Lefel o gam-drin domestig risg uchel (Achosion MARAC)<br>**3** Nifer sydd yn ddioddefwyr dro ar ôl tro | | | |
| Tudalen 63 | **Camau Gweithredu a phrosiectau 2016/17** | | | |
| | Codi ymwybyddiaeth o Drais Domestig ar draws Gwynedd ac Ynys Môn gyda'r ymgyrch Rhuban Gwyn ym mis Tachwedd. Adolygu trefniant presennol a sicrhau cydweithio effeithiol | Tachwedd | Maria Pritchard | Cynllun rhuban gwyn mewn lle ac wedi ei weithredu |
| | Adnabod yr holl gyfleoedd posib am gyllid er mwyn gallu comisiynu Ymgynghorwyr Annibynnol Trais yn y Cartref (IDVA) (sy'n hanfodol i effeithiolrwydd y MARAC) | Ebrill 2017 | Aml asiantaethol | Adnoddau wedi ei hamlygu a gwasanaeth wedi ei gomisiynu yn lleol |
| | Adnabod a nodi unrhyw gyfleoedd ariannu posib er mwyn comisiynu darpariaeth Llymhau Targedau | Ebrill 2017 | Aml asiantaethol | Adnoddau wedi ei hamlygu a gwasanaeth wedi ei gomisiynu yn lleol |
| | Ymateb i'r ddeddfwriaeth newydd, Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 , gan gynnwys<br>• Cyflwyniad arfaethedig y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol<br>• Strwythur weithredol a strategol rhanbarthol mewn lle erbyn Ebrill 2017 | Ebrill 2017 | Aml asiantaethol | Cydymffurfio'n lleol–strwythur rhanbarthol mewn lle |
| | Adolygu hyfforddiant CAADA-DASH i aelodau MARAC | Rhagfyr | Aelodau MARAC | Anghenion hyfforddiant wedi eu hadnabod, ac ymateb i'r bylchau lle ym bosib |
| | Cydweithio i gyflawni strwythur ar gyfer gosod darpar llymhau targedau | Medi | Catherine Roberts<br>Maria Pritchard<br>Cefnogi Pobl<br>Adrannau Tai | Llwybr cyfeirio aml asiantaethol mewn lle |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Prosiectau wedi comisiynu**<br><br>Gwasanaeth Caledu Targed (diogelu cartref)<br>Ymgynghorwyr Annibynnol ar gyfer Dioddefwyr Trais y yn Cartref<br>Dyfeisiadau ffons '*Skyguard*' i ddiogelu dioddefwyr trais yn y cartref<br>Prosiect 'Caring Dads ' yng Gwynedd<br><br>**Ymyriadau partneriaid mewn lle (hefyd yn cyfrannu i'r ffocws)** | | | |
| **5** | **Ffocws:** Codi hyder i adrodd am drais rhywiol / Cynyddu ymwybyddiaeth am drais rhywiol ymysg pobl ifanc<br><br>**Mesur: 1** Lefel o droseddau rhywiol<br>**2** Nifer o droseddau camfanteisio yn rhywiol ar blant | | | |
|  | **Camau Gweithredu a phrosiectau 2016/17**<br><br>Angen deall y tirlun o ble mae gweithgaredd camfanteisio'n rhywiol ar blant yn digwydd yn lleol gan gynnwys cynlluniau strategol cynghorau, bwrdd diogelu lleol, cynllun rhanbarthol ayyb er mwyn paratoi ar gyfer gweithredu yn lleol. Gan gynnwys gwaith gyda'r dadansoddwr i amlygu gweithredu lleol yn deillio o'r cynllun rhanbarthol | Mawrth | Bwrdd Cymunedau Diogel<br>Bwrdd Diogelu Rhanbarthol | Ymchwil wedi ei gyflawni, amlygu os oes gwall neu pheidio yn y gweithrediadau lleol |
| | Edrych am gyfleon cyllidol i alluogi ni i gomisiynu gwasanaeth sydd yn sicrhau bod plant oedran blwyddyn 9 yn ein hysgolion yn derbyn gwybodaeth addas parthed troseddau ac camdriniaeth rhywiol *(Cat's Paw)* | Trwy'r flwyddyn | Aml asiantaethol | Ymdrechu i adnabod cyfleon i gomisiynu'r gwasanaeth |
| | Trafod y posibilrwydd o hyfforddiant gorfodol i yrwyr tacsi ym maes pobl ifanc bregus (cam-fanteisio'n rhywiol ar blant ayyb)gyda safonau masnach/awdurdod trwyddedu yn y ddau Gyngor | Gorffennaf | Sion Hughes<br>Gwenan Roberts | Trafodaethau i'w cynnal, ar gofynion i gyrwyr tacsis mewn lle os am weithredu |
| | Dadansoddiad pellach ar sail y Rhanbarth, parthed ail droseddu domestig, a thrais mewn cartrefi, er mwyn adnabod anghenion cynllunio i'r dyfodol | D/YY | Matthew Stewart | PDC i ymateb i ddadansoddiad sydd yn dangos materion/problemau yng Ngwynedd neu Ynys Món |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyngor Gwynedd i sefydlu panel strategol/datblygiadol ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant. Panel i sicrhau protocolau asesu risg ayyb mewn lle ac yn effeithiol<br><br>**Prosiectau wedi comisiynu**<br><br>Swyddog Datblygu Cymorth Iechyd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid<br><br>**Ymyriadau partneriaid mewn lle (hefyd yn cyfrannu i'r ffocws)** | Medi | Sharron Williams Carter | Panel mewn lle gyda cylch gorchwyl a threfniadau cyfredol |
| **6** | **Ffocws:** Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal<br><br>**Mesur: 1** Dangosyddion perfformiad allweddol Llywodraeth Cymru | | | |
| Tudalen 65 | **Camau Gweithredu a phrosiectau 2016/17**<br>Cadw trosolwg ar geisiadau cyfalaf ar gyfer yr ardal – i'w cyflwyno i Fwrdd Cynllunio Ardal | O fewn amserlen y ceisiadau cyfalaf – wedi'i bennu gan Lywodraeth Cymru | Rhiannon Mair Aelodau'r bartneriaeth | Ceisiadau cyfalaf yn cael eu trafod yn lleol, a sylwadau yn cael ei bwydo i'r BCA |
| | Sicrhau bod unrhyw fylchau lleol mewn gwasanaethau'n cael eu bwydo i'r cylch Comisiynu a chynllunio rhanbarthol, a bod Gwynedd ac Ynys Môn yn derbyn darpariaeth gydradd (ar draws y rhanbarth) | Trwy'r flwyddyn | Rhiannon Mair | Sicrhau cyswllt effeithiol gyda'r grŵp comisiynu rhanbarthol |
| | Mentrau economi'r nos yn ei le | Rhagfyr | Aml asiantaethol | Cynllun yn ei le a wedi cyflawni |
| | Adolygiad o wasanaethau plant a phobl ifanc yng y ddwy Sir wedi ei gyflawni. Argymhellion yr adolygiad yn dylanwadu ar gomisiynu ir dyfodol | Mai | Rhiannon Mair | Adolygiad mewn lle, argymhellion yn cael ei cysidro a gweithredu fel a sydd yn addas |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tudalen 66 | Adolygiad o wasanaethau ieuenctid yng Nghyngor Ynys Mon, i adnabod anghenion cefnogi pobl ifanc i’r dyfodol (gan gynnwys materion camddefnydd o sylweddau)<br><br>Unigolion ar orchymyn adferiad cyffuriau, i orfod cwblhau cwrs Iechyd a lles sydd yn canolbwyntio ar arferion Lleihau Niwed<br><br>Cadetiaid gwirfoddol yr Heddlu i ddatblygu ymgyrch i dynnu sylw at beryglon o yfed o dan oed a phrynu alcohol ar gyfer bobl ifanc. Mae’r ymgyrch yn canolbwyntio ar yr is-bennawd “#ydiowertho”<br><br>**Prosiectau wedi comisiynu**<br><br>Swyddog Datblygu Cymorth Iechyd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid<br><br>**Ymyriadau partneriaid mewn lle (hefyd yn cyfrannu i’r ffocws)**<br><br>Ymgyrch *Neptune*, yn targedu camddefnyddio alcohol gan gynnwys prawf brynu alcohol ar y cyd, profion diogelwch tân, *teen total*, *tricep points,* Gwarchod Tafarndai a gwirio *Security Industry Authority* (Staff Drws Trwyddedig). Partneriaid – Heddlu, Safonau Masnach, Gwasanaeth Tân ac achub, Bugeiliaid y Stryd, Addysg, gwyliwr y glannau.<br><br>Arolwg diogelwch tân yn y cartref ar gyfer unigolion sydd wedi eu hadnabod i fod yn fregus oherwydd camddefnydd alcohol. Partneriaid – Gwasanaeth Tân ac Achub, CAIS a Bwrdd Iechyd Lleol. | D/YY<br><br>Ebrill<br><br>Rhagfyr | Enid Williams<br><br>Jonathan Clark<br><br>Ian Roberts | Adolygiad mewn lle, argymhellion yn cael ei cysidro a gweithredu fel a sydd yn addas<br><br>Gorchmynion mewn lle, yn weithredol ac yn cael eu monitro<br><br>Ymgyrch yn ei le ac wedi cyflawni |

| 7 | **Ffocws:** Lleihau aildroseddu (i dioddefwyr a throseddwyr)<br><br>**Mesur: 1** Nifer sydd yn dioddefwyr o drosedd dro ar ôl tro<br>**2** Nifer sydd yn ail-droseddu dro ar ôl tro (IOM, GCI) | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tudalen 67 | **Camau Gweithredu a phrosiectau 2016/17** | | | |
| | Targedu ail droseddwyr (oedolion) drwy gyfrwng proses Rheoli Troseddwyr yn Integredig (IOM). Adnabod y rhai sy'n achosi'r niwed mwyaf (troseddwyr cyson) ac ymdrin a'u hymddygiad aildroseddu. Y gwasanaeth yma i newid strwythur yn lleol ac adolygu y ffordd mae unigolion yn cael ei hadnabod ar gyfer y gwasanaeth | Trwy 'r flwyddyn | Jonathan Clark<br>Rhys Jones<br>Mark Armstrong | Grŵp '*IOM*' lleol yn ei le ac yn cyrraedd ei nod ac amcanion |
| | Targedu troseddwyr ifanc i leihau aildroseddu drwy weithredu ar gynllun Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn, gan gynnwys asesu effeithlonrwydd o ddefnyddio 'life tracker' i adnabod cynnydd a datblygiad unigolion | Trwy 'r flwyddyn | Stephen Wood | Cynllun GCI yn ei le ac yn cyrraedd ei nod ac amcanion |
| | Adrannau Tai y ddau Gyngor i benodi swyddogion (dros dro –Mawrth 2017) i weithio gyda lleoli pobl yn gadael carchar. Y gweithwyr yma i ddatblygu cysylltiadau chydweithio effeithiol gyda partneriaid yn ystod y flwyddyn | Trwy 'r flwyddyn | Susan Griffiths<br>Karen Roberts | Swyddi mewn lle, asesu effeithlonrwydd o chyd weithio |
| | **Prosiectau wedi comisiynu**<br><br>Swyddog ataliol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a biwro ataliol<br>Swyddog Cyfiawnder Ataliol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid<br>Swyddog ailsefydlu a rhyddhau ar drwydded Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid<br>Gweithiwr Ymyraethau Cyfiawnder Cymunedol<br>Swyddog cymorth fel y bo'r angen (Tai a llety)<br>Swyddog Cymorth Gyrfaoedd | | | |
| | **Ymyriadau partneriaid mewn lle (hefyd yn cyfrannu i'r ffocws)**<br><br>Defnydd o wasanaeth caledu targed ar gyfer unigolion sydd wedi cael eu | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | hadnabod fel dioddefwyr o sgam gan y Tîm Sgams Cenedlaethol. Er mwy lleihau'r posibilrwydd o fod yn ddioddefwr eildro . Partneriaid - Safonau masnach<br><br>Ymgyrch Phoenix, targedu pobl ifanc sydd wedi eu hadnabod o fod mewn perygl o droseddu neu ail droseddu ac ymrwymo nhw mewn gweithgareddau positif. Partneriaid – Gwasanaeth Tân ac Achub, Addysg, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'r Heddlu.<br><br>Prosiect *WISDOM* - cynllun peilot yng Ngwynedd ac Ynys Môn sy'n dod ynghyd yr Heddlu (Swyddogion Diogelu'r Cyhoedd, PPU) a'r Gwasanaeth Prawf (Swyddogion o uned troseddwyr rhywiol a threisgar, SOVU) i weithio ar y cyd oddi fewn adeilad yr Awdurdod Lleol. Sydd yn cryfhau'r ymateb aildroseddu mewn perthynas â throseddwyr risg uchel.<br><br>Tîm Ymyrraeth Cynnar (TYC) yn cael ei weithredu gan Heddlu Gogledd Cymru. Y bwriad yw cydlynu gwaith ataliol ar cyd hefo partneriaid aml asiantaethol. | | | |

ATODIAD 4

# Cronfa Diogelwch Cymunedol 15-16 – Comisiynydd yr Heddlu

| PROSIECT | DISGRIFIAD O'R PROSIECT | DYRANIAD | GWARIANT | GOR/TANWARIANT | RHESWM AMRYWIANT |
|---|---|---|---|---|---|
| Cydlynydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YGG) i'r Awdurdod Lleol | I gydlynu ymateb aml-asiantaethol i adroddiadau o ddigwyddiadau a throseddau ymddygiad gwrthgymdeithasol. | £37,000 | £13,455.11 | -£22,725.89 | Gadawodd y cydlynydd ei swydd ar 09/10/15. Ail ddyrannwyd y mwyafswm o'r arian grant i Heddlu Gogledd Cymru gyda Sgt. Non Edwards yn cyflenwi gofynion y swydd. Dyrannwyd swm bach o £819 ar gyfer ymgyrch BANG (*Be a Nice Guy*) |
| Cydlynydd YGG Heddlu Gogledd Cymru | Fel yr uchod. Mae'r swydd eisoes wedi'i trosglwyddo i Heddlu Gogledd Cymru ers 01/04/16, yn dilyn adolygiad peilot. | £0 | £22,725.89 | £22,725.89 | |
| Ymgyrch BANG | Gweithgareddau dargyfeiriol yn ystod Calan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt. Caiacio, pêl-droed, dawnsio, 'bitbocsio' ayyb | £0 | £819 | £0 | Roedd yr Uned Diogelwch Cymunedol yn gallu darparu ychydig o arian tuag at ymgyrch BANG o danwariant swydd y cydlynydd YGG. |
| Gofal a Thrwsio Gwynedd Caledu Targed | Gwasanaeth caledu targed ar gyfer dioddefwyr risg uchel trais yn y cartref sydd yn gosod cloeon diogel ar gyfer drysau a ffenestri | £4,666.83 | £4,666.83 | £0 | |
| IDVA Ynys Môn | Cyfraniad rhannol tuag at wasanaeth IDVA Ynys Môn (wedi manylu ar tudalen 5) | £3,483.17 | £3,483.17 | £0 | |
| **Cyfanswm** | | **£45,150** | **£45,150** | **£0** | |

# Cronfa Diogelwch Cymunedol 16/17 (wedi'i gymeradwyo) – Comisiynydd yr Heddlu

| ENW'R PROSIECT | DISGRIFIAD O'R PROSIECT | DYRANIAD GWYNEDD | DYRANIAD YNYS MÔN | CYFANSWM COST Y PROSIECT |
|---|---|---|---|---|
| Gofal a Thrwsio Gwynedd Caledu Targed | Gwasanaeth caledu targed ar gyfer dioddefwyr risg uchel drais yn y cartref a fydd eleni yn ddwy sirol. Bydd y gwasanaeth yn darparu hyd at 40 o geisiadau i osod cloeon drysau a ffenestri. | £4,075 | £4,075 | £8,150 |

ATODIAD 4

# Cronfa Atal Troseddu Ieuenctid 15/16 gwariant sydd wedi cwblhau – Llywodraeth Cymru

| Enw'r Prosiect | Dyraniad Gwynedd | Dyraniad Ynys Môn | Cyfanswm Dyraniad | Gwariant | Gor/Tanwariant | Rheswm amrywiant |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Swyddog Ataliol GCI a biwro | £43,500 | £39,207.50 | £82,707.50 | £92064.50 | £9,357 | Ail ddyrannwyd cyllid o brosiect datblygu iaith a llefarydd ar gyfer darpariaeth ataliol ychwanegol i ddigolledu am doriadau mewn grant y BCI (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid) yn ystod y flwyddyn. |
| Swyddog Cyfiawnder Adferol GCI | £18,600.00 | £12,400.00 | £31,000.00 | £31,000.00 | £0 | |
| Gweithiwr Datblygu Cefnogaeth Iechyd GCI | £18,000.00 | £12,000.00 | £30,000.00 | £30,000.00 | £0 | |
| Gweithiwr Cefnogol ROTL ac Adsefydlu GCI | £7,800.00 | £5,200.00 | £13,000.00 | £13,000.00 | £0 | |
| Gweithgareddau Dargyfeirio Cyfiawnder Ieuenctid wedi eu Targedu yn cynnwys SPLASH | £9,000.00 | £9,000.00 | £18,000.00 | £18,000.00 | £0 | |
| Trydydd Sector | | | | | | |
| Gwella gwaith di-dâl (Gweithiwr Ymyraethau Cyfiawnder Cymunedol ) | £28,800.00 | £19,200.00 | £48,000.00 | £48,000.00 | £0 | |
| Datblygu Iaith a Lleferydd | £5,614.20 | £3,742.80 | £9,357.00 | £0 | £9,357 | Ni chychwynnodd y prosiect oherwydd toriadau mewn grant y BCI (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid) yn ystod y flwyddyn. Golygir nad oedd y prosiect yn gallu cael ei gyllido ar y cyd hefo CAIS, ac felly ail ddyrannwyd y cyllid ar gyfer darpariaeth ataliol ychwanegol a gafodd sail bendith Llywodraeth Cymru. |
| Gwasanaeth cefnogaeth hyblyg | £19,500.00 | £13,000.00 | £32,500.00 | £32,500.00 | £0 | |
| Rhaglen Atal Ymddygiad Rhywiol Niweidiol Rhanbarthol *('Cat's Paw')* | £15,000.00 | £5,000.00 | £20,000.00 | £20,000.00 | £0 | |
| Cefnogaeth gyrfaoedd | £14,228.08 | £13,883.42 | £28,111.50 | £28,111.50 | £0 | |
| Cyfanswm | £180,042.28 | £132,633.72 | £312,676.00 | £312,676.00 | £0 | |

ATODIAD 4

# Hyrwyddo Ymgysylltu Positif I Bobl Ifanc (Mewn Perygl O Droseddu) 16/17 Cynllun gwariant (wedi'i gymeradwyo)

*Gelwid yn flaenorol Cronfa Atal Troseddu Ieuenctid, mae'n cefnogi prosiectau sydd wedi anelu at leihau ac atal trosedd ac anhrefn ieuenctid.*

| ENW'R PROSIECT | DISGRIFIAD O'R PROSIECT | DYRANIAD GWYNEDD | DYRANIAD YNYS MÔN | CYFANSWM COST Y PROSIECT |
|---|---|---|---|---|
| Atal ac Ymyrraeth Gynnar | Darparu cefnogaeth ac ymyrraeth i bobl ifanc sydd mewn perygl o fynd i mewn i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI). | £59,400.00 | £39,600.00 | £99,000.00 |
| Iechyd a Lles | I wella iechyd a lles plant a phobl ifanc sydd wedi adnabod gan y GCI. | £14,400.00 | £9,600.00 | £24,000.00 |
| Gwell Cyfiawnder Adferol | I barhau i ddatblygu'r arfer adferol ar draws pob agwedd a lefelau o ymrwymiadau cyfiawnder ieuenctid ac i mewn i ddarpariaeth prif ffrwd i blant a phobl ifanc. | £21,180.54 | £14,120.36 | £35,300.90 |
| Gweithiwr adsefydlu a phontio (rhyddhau ar drwydded dros dro) | I ddarparu arweiniad, cymorth a chefnogaeth ar ôl eu rhyddhau a chynorthwyo i anheddu ac integreiddio yn ôl i'r gymuned. | £7,800.00 | £5,200.00 | £13,000.00 |
| Gweithiwr adsefydlu a phontio (cefnogaeth symudol) | Rhoi cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai i unigolion o Wynedd sydd rhwng 16 a 19 oed sy'n gysylltiedig â Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd/Môn ac sydd mewn llety dros dro, gyda'r bwriad o leihau ymddygiad troseddol drwy fynd i'r afael â'u hanghenion sy'n arwain at droseddu. | £19,500.00 | £13,000.00 | £32,500.00 |
| Hyrwyddo Ymgysylltu Positif | Darpariaeth gwaith di-dâl ar wahân i oedolion a fydd yn cynnig achrediad, hyfforddiant ac addysg. | £26,643.00 | £17,762.00 | £44,405.00 |
| Gwell mynediad i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth | Cefnogaeth arbenigol ar gyfer cleientiaid Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid sy'n NEET neu sydd mewn perygl o fod yn NEET | £16,920.00 | £11,280.00 | £28,200.00 |
| Cyfanswm | | £165,843.54 | £110,562.36 | £276,405.90 |

ATODIAD 4

# Ymgynghorwyr Annibynnol Trais yn y Cartref (IDVA) 15/16 gwariant sydd wedi cwblhau

*Mae'r IDVA yn darparu cymorth arbenigol i ddioddefwyr risg uchel o gam-drin domestig, sy'n deillio o'r broses asesu a chynllunio o'r MARAC lleol. Mae'r IDVA yn darparu cefnogaeth drwy broses y llys ac yn cydlynu cefnogaeth ar gyfer dioddefwyr bregus sydd yn dymuno mynediad i amrywiaeth o wasanaethau megis Tai, Iechyd, Heddlu a'r gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol.*

## GWYNEDD

| PROSIECT | DYRANIAD | GWARIANT | GOR/TANWARIANT | FFYNHONNELL ARIANNU | RHESWM AMRYWIANT |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymgynghorwyr Annibynnol Trais yn y Cartref | £9,750 | £9,750 | £0 | Cyngor Gwynedd | GWARIANT LLAWN |
| | £10,000 | £10,000 | £0 | Swyddfa Gartref | |
| | £10,000 | £10,000 | £0 | Grant Camddefnyddio Sylweddau | |
| | £20,000 | £20,000 | £0 | Llywodraeth Cymru | |
| Cyfanswm | £49,750.00 | £49,750.00 | £0 | | |

## YNYS MÔN

| PROSIECT | DYRANIAD | GWARIANT | GOR/TANWARIANT | FFYNHONNELL ARIANNU | RHESWM AMRYWIANT |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymgynghorwyr Annibynnol Trais yn y Cartref | £10,000 | £10,000 | £0 | Cyngor Ynys Môn, Adran Cefnogi pobl | GWARIANT LLAWN |
| | £10,000 | £10,000 | £0 | Swyddfa Gartref | |
| | £20,000 | £20,000 | £0 | Grant Camddefnyddio Sylweddau | |
| | £3,483.17 | £3,483.17 | £0 | Llywodraeth Cymru | |
| Cyfanswm | £43,483.17 | £43,483.17 | £0 | | |

ATODIAD 4

# Cynllun Cyflawni Cam-Drin Domestig 16/17, cynllun gwariant arfaethedig (yn disgwyl cadarnhad Llywodraeth Cymru)

*Pwrpas grant gwasanaethau cam-drin domestig yw ariannu sefydliadau statudol a gwirfoddol i weithredu at amcanion strategol Llywodraeth Cymru i leihau nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.*

| Enw'r prosiect | Disgrifiad o'r prosiect | Dyraniad Gwynedd | Dyraniad Ynys Môn | Cyfanswm dyraniad | Ffynhonnell ariannu |
|---|---|---|---|---|---|
| Cydlynydd Trais yn y Cartref (CTyyC) | Mae swyddogaeth cydlynwyr cam-drin domestig yn ganolog ar gyfer hwyluso ymateb cydlynol partneriaeth i drais yn y cartref. Mae rôl CTyyC yn bwysig i gyflawni cyfarwyddebau polisi a strategaethau lefel uchel ar lefel leol. | £16,000 | £16,000 | £32,000 | Llywodraeth Cymru |
| Tadau gofalgar | Mae rhaglen tadau gofalgar wedi gynllunio i newid ymddygiad tadau oddi fewn teuluoedd sy'n cam drin gyda phwyslais ar perthynas gyda'u plant. | £7,000 | £0 | £7,000 | Llywodraeth Cymru |
| Cydlynydd rhanbarthol | Cynnig rhanbarthol unwaith yn unig fyddai'r prosiect, ar gyfer cyflogi cydlynydd rhanbarthol. Byddai'r rôl yn golygu trawsnewid y strwythur cefnogi lleol i strwythur cefnogi rhanbarthol erbyn 2017. | £4,350 | £4,350 | £8,700 | Llywodraeth Cymru |
| Ymgynghorwyr annibynnol Trais yn Cartref (IDVA) | Mae'r IDVA yn darparu cymorth arbenigol i ddioddefwyr risg uchel o gam-drin domestig, sy'n deillio o'r broses asesu a chynllunio o'r MARAC lleol. Mae'r IDVA yn darparu cefnogaeth drwy broses y llys ac yn cydlynu cefnogaeth ar gyfer dioddefwyr bregus sydd yn dymuno mynediad i amrywiaeth o wasanaethau megis Tai, Iechyd, Heddlu a'r gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol. | £34,863.42 | £33,136.58 | £68,000 | Llywodraeth Cymru |
| | | £10,000 | £0 | £10,000 | Swyddfa Gartref |
| | | £0 | £10,000 | £10,000 | Adran Cefnogi Pobl, Cyngor Ynys Môn |
| | | £10,000 | £10,000 | £20,000 | Bwrdd Cynllunio Ardal |
| Cyfanswm | | £82,213.42 | £73,486.58 | £155,700.00 | |

Mae hefyd £41,300 o gyfraniad gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu i alluogi'r ddarpariaeth ddilynol:

| | |
|---|---|
| 1 x IDVA 37 awr | 2 x IDVA 35 awr |
| 1 x IDVA 32 awr | 1 x IDVA 20 awr |

# *Prevent* 15/16 gwariant sydd wedi cwblhau – Swyddfa Gartref

Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd *Prevent* penderfynwyd yn rhanbarthol i cydgyfrannu at un gronfeydd, er mwyn gallu cefnogi prosiect cydweithredol 3 mis i ddarparu rhaglen hyfforddiant ac ymwybyddiaeth addas ar draws Gogledd Cymru.

Mae'r prosiect wedi arwain at:

- Datblygu pecyn cymorth hyfforddiant dwyieithog rhanbarthol
- Cyflwyno hyfforddiant wyneb i wyneb ar gyfer staff rheng flaen
- Datblygu modiwl e-ddysgu dwyieithog
- Swyddog prosiect rhanbarthol i gydlynu'r gweithgaredd



## GWYNEDD

| PROSIECT | DYRANIAD | GWARIANT | GOR/TANWARIANT | FFYNHONNELL ARIANNU | RHESWM AMRYWIANT |
|---|---|---|---|---|---|
| *Prevent* - prosiect cydweithredol | £10,000 | £9,375 | -£625 | Swyddfa Gartref | Costau prosiect amcangyfrifiedig yn arwain at danwariant bychan |

## ANGLESEY

| PROSIECT | DYRANIAD | GWARIANT | GOR/TANWARIANT | FFYNHONNELL ARIANNU | RHESWM AMRYWIANT |
|---|---|---|---|---|---|
| *Prevent* - prosiect cydweithredol | £10,000 | £9,423 | -£577 | Swyddfa Gartref | Costau prosiect amcangyfrifiedig yn arwain at danwariant bychan |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **26/09/16** |
| **Pwnc:** | **Adrodd ar efffeithiolrwydd cefnogaeth GwE wrth wella deilliannau ysgolion categoriau coch ac oren 2014-2016** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Kenneth Hughes** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Delyth Molyneux** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Elfyn Vaughan Jones, Uwch Ymgynghorydd Her** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol i bob un** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Argymhellion:**

- Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi Adroddiad GwE ar effeithoiolrwydd mewnbwn GwE i wella ysgolion categori coch ac oren.
- Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi argymhellion yr adroddiad i wella safonau ysgolion categori coch ac oren.

**Rhesymau**

Gofynnir i GwE gyflwyno adroddiad ar effeithiolrwydd y gwasanaeth gwella ysgolion yn flynyddol i aelodau etholedog.

Eleni gofynwyd am adroddiad ychwanegol sy'n cyfeirio'n benodol ar effeithiolrwydd y gwasanaeth GwE wrth wella ysgolion sydd yn y categoriau oren a coch yn ystod y cyfnos 2014-2016.

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1. Adroddiad llawn am weithredu GwE gydag ysgolion oren a coch 2014-2016.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Teitl yr Adroddiad** | Adroddiad ar effeithiolrwydd gweithredu GwE gydag ysgolion categori cefnogaeth Oren/Coch 2015-16 |
| **Awdur** | Elfyn V. Jones [Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth Hwb Gwynedd/Mon] |
| **Dyddiad cyflwyno'r adroddiad** | Medi 2016 |
| **Swyddog Arweiniol** | Delyth Molyneux |
| **Deilydd Portffolio perthnasol** | Cynghorydd Ken Hughes |


**Pwrpas yr Adroddiad**
Prif bwrpas yr adroddiad yw cyflwyno gwybodaeth i ganiatáu aelodau etholedig i graffu ar waith y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion [GwE] gydag ysgolion categori cefnogaeth Melyngoch/Coch ym Môn yn ystod blwyddyn addysgol 2015-16 ac i bwyso a mesur effaith y gweithredu hwnnw ar ddeilliannau, safonau cyflawniad ac ansawdd arweinyddiaeth.

**Materion ar gyfer craffu**
Mae'r math o wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad, a'r cyfle i holi cwestiynau pellach, yn gyfraniad pwysig at y broses hunan arfarnu.Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig bod aelodau etholedig yn ymwybodol bod Fframwaith Estyn, gofynion Swyddfa Archwilio Cymru a disgwyliadau Llywodraeth Cymru parthed dulliau llywodraethu a rheoli gwaith y consortia rhanbarthol, yn gosod disgwyliad arnynt, fel rhan o brosesau hunan arfarnu a sicrhau ansawdd, i allu ateb y math o gwestiynau a restrir isod:
- Sut mae'r awdurdod yn monitro ac yn herio gwaith GwE?
- Sut mae'r awdurdod yn gwybod os ydyw yn cael gwerth am arian gan GwE?
- Sut mae'r awdurdod yn sicrhau bod gwaith GwE wedi'i alinio gyda chynlluniau a bwriadau lleol a bod yr agweddau allweddol sydd angen sylw yn cael eu targedu'n effeithiol?
- Pa wahaniaeth y mae cefnogaeth GwE wedi'i wneud i ddeilliannau, safonau cyflawniad ac ansawdd arweinyddiaeth yn ysgolion categori cefnogaeth Melyngoch/Coch ym Môn?
- Ym mha ysgolion y gwelir y gwahaniaethau amlycaf ?
- Pa agweddau sydd angen eu blaenoriaethu ymhellach er mwyn sicrhau gwelliannau pellach?

Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor graffu ar gynnwys yr adroddiad er mwyn gallu ateb y math o gwestiynau a nodir uchod.

**Cyd-destun rhanbarthol : gwasanaeth gwella ar y cyd**
GwE yw Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru. Mae GwE yn gweithio ochr yn ochr â'r awdurdodau lleol a'r ysgolion i ddatblygu cyfundrefn addysg o'r radd flaenaf ac un fydd â'r cynhwysedd, y sgiliau a'r hyder i ymgymryd â rhaglen o hunan-wella. Credwn mai gwaith ysgolion yw gwella eu hunain er lles y dysgwyr yn eu gofal ac mai tasg GwE yw cyflwyno'r arweiniad, y gynhaliaeth a'r her i sicrhau bod hynny'n digwydd.

**Cyd-destun cenedlaethol : y drefn gategoreiddio**
Mae tri cam i'r broses o gategoreiddio ysgolion :
- *Cam 1* : ysgol yn cael ei hasesu gan Lywodraeth Cymru ar sail ystod o fesurau perfformiad a'i gosod mewn un o 4 categori dyfarniad [1 yn uchaf a 4 yn isaf]. Caiff hyn ei wirio gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr/Ionawr bob blwyddyn.
- *Cam 2* : GwE a'r Awdurdod yn dod i farn ar ansawdd yr arweinyddiaeth a'r dysgu/addysgu yn yr ysgol ac yn ei gosod mewn un o 4 categori [A yn uchaf a D yn isaf]. Bydd y broses o ddod i ddyfarniad ar allu'r ysgol i wella yn dechrau gyda hunan arfarniad yr ysgol ond rhaid i'r Ymgynghorwyr Her gael eu bodloni a gweld tystiolaeth, fod pob arweinydd ysgol yn defnyddio data ar berfformiad mewn modd cadarn fel rhan o broses effeithiol o reoli a gwella [llywodraethwyr, penaethiaid, athrawon, arweinwyr canol ac arweinwyr pwnc]. Rhaid bod yna dystiolaeth o ddefnydd effeithiol o ddata cywir ar lefel disgybl, dosbarth, grŵp, cohort, pwnc ac ysgol. Bydd Ymgynghorwyr Her yn ystyried perfformiad pob dysgwr a grŵp o ddysgwyr yn ogystal ag ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn yr ysgol.
- *Cam 3* : GwE a'r Awdurdod yn defnyddio'r grid isod i gytuno ar gategori lliw trosfwaol yr ysgol [*Gwyrdd/Melyn/Melyngoch/Coch*] fydd yn arwain at raglen o gefnogaeth, her ac ymyrraeth fydd wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer yr ysgol. Bydd broceru'r gefnogaeth yn un o swyddogaethau allweddol GwE. Mae'r nifer dyddiau o gefnogaeth a nodir isod yn weithredol ers Medi 2015.




| |
|---|
| **Categori Cefnogaeth Gwyrdd** |
| Mae ysgol yn y categori hwn yn gallu derbyn hyd at 4 diwrnod o amser Ymgynghorydd Her. |
| **Categori Cefnogaeth Melyn** |
| Mae ysgol yn y categori hwn yn gallu derbyn hyd at 10 diwrnod o amser Ymgynghorydd Her. |
| **Categori Cefnogaeth Melyngoch** |
| Mae ysgol yn y categori hwn yn gallu derbyn hyd at 15 diwrnod o amser Ymgynghorydd Her. |
| **Categori Cefnogaeth Coch** |
| Mae ysgol yn y categori hwn yn gallu derbyn hyd at 25 diwrnod o amser Ymgynghorydd Her. Bydd yr ysgol yn derbyn llythyr gan yr Awdurdod Lleol fel mater o drefn lle gellir galw ar bwerau statudol priodol. |

Ers 2015 mae trefn ranbarthol a chenedlaethol wedi'i chytuno a'i gweithredu parthed safoni a chymedroli'r gwaith o gategoreiddio.

**Trosolwg o ddull gweithredu GwE parthed cefnogi, monitro a herio ysgolion**

Dan arweiniad y Cyd-Bwyllgor, Bwrdd Rheoli, Uwch Dim Arwain a thimau rheoli ansawdd yr Awdurdodau, mae GwE yn gweithredu i gefnogi, monitro, herio ac ymyrryd mewn ysgolion. Mae *Cynllun Busnes Strategol GwE* yn amlygu'r agweddau sydd i gael sylw ar draws y rhanbarth a chynllun busnes lleol yn amlygu'r ffrydiau gwaith sydd yn benodol i gyd-destun ysgolion Môn. Mae perthynas waith dda iawn yn bodoli gyda swyddogion yr awdurdod ac mae'r trefniadau ar gyfer cyfathrebu, rhaeadru a sicrhau atebolrwydd yn cynnwys :

- cyfarfodydd cyswllt pythefnosol rhwng uwch swyddog, Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth [UYHaCh] ac Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth Cynorthwyol [UYHaChC] i drafod cynnydd/diffyg cynnydd ysgolion sydd yn destun pryder. Pan yn berthnasol gwahoddir swyddogion a/neu Ymgynghorwyr Her [YH] eraill i fynychu er mwyn rhoi sylw i agweddau neu ysgolion penodol.
- UYHaCh a/neu UYHaChC yn mynychu cyfarfodydd Tim Rheoli Adran Addysg Môn. Pan yn berthnasol gwahoddir YH eraill i fynychu er mwyn rhoi sylw i ysgolion penodol.
- uwch swyddog Awdurdod Môn yn mynychu cyfarfodydd GwE [Hwb Môn/Gwynedd] er mwyn cyfrannu i'r trafodaethau ar ysgolion risg ac er mwyn sicrhau bod llif gwybodaeth llyfn ac effeithiol yn ol i Dîm Rheoli Adran Addysg Môn. Pan yn berthnasol gwahoddir swyddogion eraill i fynychu er mwyn rhoi sylw i agweddau penodol ee presenoldeb, materion personel, materion cyllidol.
- Mae'r YH yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd y Grwp Monitro Ansawdd Ysgolion ynghyd a'r pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr.
- uwch swyddog yn cael ei gynnwys mewn unrhyw ohebiaeth berthnasol rhwng GwE a'r ysgolion.
- uwch swyddog yn derbyn copïau o adroddiadau monitro ysgolion *Melyngoch/Coch*
- uwch swyddogion yn derbyn copiau o fwletin wythnosol GwE.
- uwch swyddogion y 6 awdurdod ac UYHaCh y tri hwb yn ffurfio *Rhwydwaith Ranbarthol Gwella Ysgolion* sy'n cyfarfod yn fisol ac sy'n sicrhau bod cyd-berchnogaeth i'r agenda gwella
- UYHaCh yn gyfrifol am ddrafftio'r *Adroddiad Blynyddol ar y Gwasanaeth Addysg* sy'n caniatáu i swyddogion, aelodau etholedig a GwE fod yn cyfeirio adnoddau mewn dull effeithlon

Mewn ymateb i'r her genedlaethol i ddatblygu *cyfundrefn sydd yn hunan wella*, mae'r gwasanaeth, wedi addasu ac esblygu'r rhaglen her a chefnogaeth ac wedi datblygu modelau penodol o weithredu gydag ysgolion categori cefnogaeth *Gwyrdd/Melyn*; *Melyn* a *Melyngoch/Coch*. Oddi fewn i'r rhaglen, gwahaniaethir yn ôl gallu presennol yr ysgol i wella. Mae gan ysgolion yn y categori cefnogaeth gwyrdd fwy o gyfrifoldeb annibynnol am wella tra bod ysgolion yn y categori coch yn derbyn mwy o gefnogaeth ddwys i ddatblygu eu gallu i wella. Nod y model yw darparu dull cyson er mwyn galluogi pob ysgol i dderbyn monitro, cefnogaeth, her ac ymyrraeth wedi'u teilwra yn ôl eu hamgylchiadau a'u hanghenion penodol eu hunain.

Mae *Rhaglen Herio a Chefnogi* GwE yn rhoi ystyriaeth lawn i ganllawiau Llywodraeth Cymru sydd fel yr amlinellir yn y ddogfen '*Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol'* (Tachwedd 2015). Mae'r model cenedlaethol yn amlinellu rolau cymharol yr ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol oddifewn i'r system addysg. Yr awdurdodau lleol sy'n parhau â'r cyfrifoldeb statudol am ysgolion ac am eu gwella ond mae'r cyfrifoldeb am arwain, trefnu a chydlynu'r gwelliannau ym mherfformiad ysgolion wedi'i throsglwyddo i GwE. Swyddogaeth y consortia rhanbarthol yw herio a chefnogi ysgolion yn eu hymdrechion i:

- wella deilliannau dysgwyr ar gyfer yr holl bobl ifanc
- sicrhau y darperir dysgu ac addysgu o ansawdd uchel
- gefnogi a grymuso arweinwyr ysgolion i arwain eu hysgolion yn well.

Mewn perthynas â gwella ysgolion, mae GwE yn darparu her a chefnogaeth drwy:

- fonitro gwaith a pherfformiad ysgolion, gan ddefnyddio setiau data safonedig Cymru Gyfan, amcanestyniadau a data ysgolion unigol a data yn ystod y flwyddyn ar gynnydd disgyblion a safon yr addysgu a'r dysgu yn yr ystafell ddosbarth, i gategoreiddio perfformiad ac anghenion datblygu ysgol yn unol â'r model categoreiddio cenedlaethol cytunedig
- ymchwilio, gydag arweinwyr ysgolion a chadeiryddion llywodraethwyr, i berfformiad a'r ddarpariaeth ar lefel ysgol gyfan ac ar gyfer amrywiol bynciau, grwpiau blwyddyn ac is-gategorïau o ddisgyblion, er mwyn cymharu cynnydd disgyblion unigol, a/neu grwpiau ohonynt, â'r cynnydd a wnaed mewn ysgolion eraill tebyg a nodi meysydd o dangyflawni a bylchau mewn cyflawniad
- cadarnhau, gyda phenaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr, pa feysydd sydd i gael blaenoriaeth ar gyfer gwella a bennwyd yng nghynllun datblygu'r ysgol a'r strategaethau i'w defnyddio i gyflawni gwelliannau
- cytuno ar dargedau realistig ond fydd yn ymestyn ac yn codi disgwyliadau, gosod y safon ar gyfer gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu a darparu'r meini prawf ar gyfer llwyddo y bydd cyrhaeddiad a chynnydd pob disgybl yn cael eu mesur yn eu herbyn
- asesu ysgolion sy'n destun mesurau arbennig, sy'n cael eu monitro gan Estyn neu awdurdod lleol neu a nodwyd fel arall, drwy'r broses gategoreiddio, fel ysgol sy'n achosi pryder difrifol, p'un a oes gan lywodraethwyr a thimau arwain ysgolion y cynhwysedd a'r ewyllys i arwain ar wella ysgol – a gwneud argymhellion priodol yn ôl yr angen
- hysbysu awdurdodau lleol ac awdurdodau esgobaethol am y sefyllfaoedd hynny lle mae ymyrryd statudol yn ofynnol a darparu mewnbwn ar y math o ymyrryd y gellid ymgymryd ag ef - p'un a yw hynny yn golygu penodi llywodraethwyr ychwanegol, gwaredu cyllideb ddirprwyedig yr ysgol neu sefydlu fwrdd gweithredol interim neu fesur arall priodol.

Mae GwE yn gyfrifol ac yn atebol am y swyddogaethau uchod ac am eu heffeithiolrwydd a'u heffaith ar safonau. Caiff y swyddogaethau hyn eu cymhwyso mewn modd cymesur - hynny yw, bydd yr ysgolion hynny sydd fwyaf angen cefnogaeth yn cael eu monitro'n fwy agos. I'r gwrthwyneb, ni fydd angen monitro ysgolion sy'n perfformio'n gadarn mewn modd mor fanwl.

Mae gan bob ysgol Ymgynghorydd Her [YH] dynodedig sy'n gyfrifol am:

- gynnig arweiniad, cefnogaeth, a her i godi safonau, ac i sicrhau ansawdd y broses
- gwblhau'r broses Gategoreiddio Genedlaethol. Bydd YH yn ymweld â phob ysgol yn ystod Tymor yr Hydref i gwblhau Adroddiad Categoreiddio Cenedlaethol yr Ysgol [dros dro hyd nes y ceir Gwiriad Cenedlaethol] ac er mwyn cadarnhau targedau perfformiad ar gyfer 2016-17.
- adolygu defnydd ysgolion o'r GAD a'u cyfranogiad mewn gweithgareddau DPP perthnasol ar gyfer staff
- sicrhau y cyflawnir Rheoli Perfformiad y Pennaeth yn briodol
- fonitro canol-blwyddyn o gynnydd ysgol tuag at ei thargedau perfformiad
- ysgrifennu'r adroddiad cyn-arolygiad a/neu cyn-ail ymweliad pan hysbysir yr ysgol am ymweliad gan Estyn

- sicrhau bod unrhyw ysgol sydd mewn categori dilynol Estyn yn cael cefnogaeth gadarn

Mae'r prif agweddau ar waith yr Ymgynghorydd Her yn cynnwys :

- cefnogi a herio ysgolion yn y dasg o godi safonau
- cefnogi ysgol i hunanarfarnu a hunan-wella
- sicrhau addysgu a dysgu o safon uchel
- broceru cefnogaeth ac ymyrraeth effeithiol
- datblygu arweinyddiaeth ysgol
- meithrin cynhwysiad ysgol i ysgol

**Y Rhaglen Herio a Chefnogi ar gyfer ysgolion yn ôl categori cefnogaeth ac anghenion : Rhaglen 3 Model**

*Model 1 : Ysgolion categori cefnogaeth Gwyrdd a'r rheiny sydd wedi'u hadnabod yn ysgolion categori cefnogaeth Melyn cadarn a sefydlog:* mae'r rhaglen ar gyfer ysgolion yn y categorïau cefnogaeth gwyrdd a melyn cadarn yn seiliedig ar yr egwyddor o arweinwyr ysgol yn cyd-weithio ac yn cymryd cyfrifoldeb arweiniol am safonau a rhaglenni gwella. Disgwylia GwE i ysgolion fod yn arloesol a gwthio ffiniau'r modd y maent yn herio a chefnogi ei gilydd. Nod y rhaglen ar gyfer ysgolion gwyrdd a melyn cadarn yw :

- grymuso arweinwyr ysgolion ymhellach i herio a chefnogi arweinwyr ysgolion eraill i arwain eu hysgolion hyd yn oed yn fwy effeithiol.
- gofalu bod pob plentyn a pherson ifanc yn elwa o ddysgu ac addysgu rhagorol.
- arwain at wella deilliannau dysgwyr.
- datblygu mwy o annibyniaeth trwy gyfrwng y broses Gategoreiddio Genedlaethol.
- meithrin dyfalbarhad mwy cadarn ar bob lefel o arweinyddiaeth yn ein hysgolion.

Bydd arweinwyr ysgolion yn cydweithio mewn grwpiau gyda'r ymgynghorydd her i gynnal a meithrin rhagoriaeth drwy :

- ddatblygu system o herio a chefnogi ar y cyd.
- rhannu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol ac arferion rhagorol.
- datblygu systemau cadarn yn ysgolion y naill a'r llall.
- anelu at sicrhau safonau uchel ac arferion arloesol ac ysbrydoledig i bob dysgwr.
- defnyddio'r Model Cenedlaethol ar gyfer Categoreiddio fel sbardun i welliant parhaus.
- bod â chyfrifoldeb ar y cyd am wella safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth yn ysgolion y naill a'r llall.

Bydd ysgolion yn:

- cyd-berchnogi pob ysgol yn y grŵp a chydweithio i gefnogi a herio ei gilydd.
- cydweithio mewn Grwpiau Adolygu Cymheiriaid. Bydd y grwpiau'n cynnwys rhwng 5 a 7 ysgol. Bydd angen i holl aelodau'r grŵp gytuno i gyd-weithio a chytuno i arddel ethos y rhaglen.
- rhannu eu AHA, CGY, a'u targedau perfformiad cyfredol yn ogystal â manylion am eu defnydd o'r Grant Amddifadedd Dysgwyr [GAD] a gweithgareddau Datblygiad Proffesiynol Parhaus [DPP] gyda'i gilydd a'r YH.
- cymryd rhan mewn cefnogaeth 'ysgol i ysgol' yn ystod y flwyddyn ar gyfer agweddau sydd wedi'u hadnabod fel meysydd ar gyfer gwelliant. Y Grŵp Adolygu Cymheiriaid fydd y pwynt cyswllt cyntaf o ran darparu neu froceru cefnogaeth ar gyfer gwelliant, ond anogir ysgolion i gydweithio ag ysgolion eraill y tu allan i'r grŵp. Bydd ysgolion yn datblygu a rhannu arferion effeithiol fel ffordd gynaliadwy o gyflawni rhagoriaeth.
- defnyddio'u Grant Gwella Addysg [GGA] i gyllido unrhyw gyfarfodydd a blaenoriaethu'r gwaith hwn fel strategaeth gwelliant ysgol allweddol.
- cynnal adolygiadau annibynnol penodol yn ystod y flwyddyn gan ymgorffori'r deilliannau yng ngham nesaf y rhaglen a diweddaru'r ddogfennaeth yn unol â hynny.

Bydd yr YH yn:

- cefnogi a herio ysgolion gyda'r dasg o godi safonau.
- cwblhau'r adroddiad Categoreiddio ar gyfer pob ysgol unigol.
- monitro defnydd yr ysgol o'r GAD ac o weithgareddau DPP.
- monitro cynnydd pob ysgol tuag at ei thargedau.
- arwain, herio a chefnogi gwaith y grwpiau adolygu cymheiriaid a chefnogi'r grwpiau sy'n cymryd rhan i gyd lunio'r is-grwpiau.
- sicrhau ansawdd y cyfarfodydd adolygu cymheiriaid a chynnig adborth i'r grwpiau.

*Amlinelliad o'r rhaglen dros y flwyddyn*

- YH yn ymweld â phob ysgol yn ystod Tymor yr Hydref i gwblhau Adroddiad Categoreiddio Cenedlaethol yr Ysgol ac er mwyn cadarnhau targedau perfformiad ar gyfer 2016-17 a thrafod y defnydd o'r GAD.
- Ysgol yn rhannu Asesiad Hunan Arfarnu, Cynllun Gwella Ysgol a thargedau perfformiad cyfredol yr ysgol yn ogystal â manylion am ddefnydd o'r GAD a gweithgareddau DPP gyda'r YH a gyda'r holl benaethiaid yn y grŵp cyn y cyfarfod adolygu cymheiriaid.
- YH yn trefnu cyfarfodydd herio ac adolygu Tymor yr Hydref a pob pennaeth o fewn y grŵp yn gyfrifol am baratoi cyflwyniad adolygu cymheiriaid ar gyfer y cyfarfod adolygu cymheiriaid. Gall hyn ddigwydd fesul grŵp cyfan neu gellir ffurfio parau/triawdau o blith y prif grŵp i herio a chefnogi ei gilydd.
- Pob ysgol yn y grŵp yn darparu mynediad llawn at ddata perthnasol i gymheiriaid.
- Disgwyliad bod aelodau eraill timau arwain yn rhan ganolog o'r broses a'r cyfarfodydd adolygu.
- Yn ystod y flwyddyn, bydd ysgolion yn cymryd rhan mewn cefnogaeth ysgol-i-ysgol ar gyfer meysydd sydd wedi'u hadnabod yn ystod cyfarfod yr Hydref fel meysydd ar gyfer gwelliant. YH i fod yn bresennol yn rhai o'r sesiynau cydweithio ysgol-i-ysgol i fod wrth law i gynnig cefnogaeth a sicrhau ansawdd y broses dros y flwyddyn.
- Ysgolion i wahodd yr YH i gymryd rhan ym mhrosesau monitro'r ysgol drwy graffu ar lyfrau ayyb.

- Pob ysgol yn bartner cydradd yn y broses ac yn cyfrannu'n llawn at y cyfarfodydd adolygu cymheiriaid. Dylai'r broses fod yn ddwyochrog gyda phob ysgol yn elwa o'r gefnogaeth a'r her.
- Yr ysgol a'r YH yn adolygu cynnydd tuag at dargedau yn ystod Tymor y Gwanwyn a disgwylir bod pob ysgol yn ysgrifennu diweddariad ar gynnydd y '*cydweithio ysgol i ysgol'*.
- Cynhelir cyfarfod adolygu yn ystod yr Haf i drafod cynnydd yn erbyn y meysydd i'w datblygu. Disgwylir bod y grŵp yn defnyddio ystod eang o ffynonellau tystiolaeth wrth drafod ansawdd arweinyddiaeth a'r dysgu a'r addysgu a bod yr arferion gorau yn cael eu rhannu.
- YH i ddod i farn gychwynnol ar gategori 'gallu i wella' yr ysgol yn dilyn cyfarfod adolygu'r Haf ac yn cwblhau fersiwn drafft o adran '*Gallu i Wella'* yr Adroddiad Categoreiddio Cenedlaethol Ysgol. Ysgolion ac YH hefyd yn arfarnu defnydd ac effaith y GAD.
- Gall YH drefnu ymweliad ychwanegol i ysgol unigol ar unrhyw adeg o'r flwyddyn pe bai angen tystiolaeth bellach i ddod i farn ar safonau, ansawdd yr addysgu a'r dysgu, neu ansawdd yr arweinyddiaeth.

*Model 2 : Ysgolion categori cefnogaeth Melyn :* bydd y mwyafrif o ysgolion yn y categori cefnogaeth Melyn yn gweithio gyda'r YH cyswllt er mwyn canolbwyntio ar berfformiad, cryfderau ac agweddau i'w gwella. Yn dilyn y cyfarfod adolygu cychwynnol yn Nhymor yr Hydref, bydd ysgolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyd ag ysgolion eraill sydd â blaenoriaethau gwella tebyg [fel rhan o weithio mewn parau/triawdau neu mewn grŵp mwy]. Mae cefnogaeth, her a phartneriaeth ysgol i ysgol yn elfennau allweddol yn y rhaglen ar gyfer ysgolion yn y categori cefnogaeth Melyn. Yn ystod Tymor yr Haf, bydd yr ysgol a'r YH yn cynnal arfarniad ffurfiol o'r cynnydd a wnaed gan yr ysgol o ran cyflawni'r gwelliannau arfaethedig.

Bydd ysgolion yn :
- rhannu eu Cynllun Gwella Ysgol, Asesiad Hunan Arfaranu a'u targedau perfformiad cyfredol yn ogystal â manylion am eu defnydd o'r GAD a gweithgareddau DPP gyda'r YH.
- cymryd rhan mewn cefnogaeth ysgol-i-ysgol yn ystod y flwyddyn ar gyfer agweddau sydd wedi'u hadnabod fel blaenoriaethau gwella.
- yn datblygu a rhannu arfer effeithiol fel dull cynaliadwy o gyflawni rhagoriaeth.
- adolygu ac arfarnu cynnydd yn ystod y flwyddyn.
- gwahodd yr YH i gymryd rhan ym mhrosesau monitro'r ysgol drwy graffu ar lyfrau ayyb.
- defnyddio'u GGA i gyllido unrhyw gyfarfodydd a blaenoriaethu'r gwaith hwn fel strategaeth gwelliant ysgol allweddol.

Bydd yr YH yn:
- cefnogi a herio ysgolion gyda'r dasg o godi safonau.
- cwblhau'r adroddiad Categoreiddio ar gyfer pob ysgol unigol.
- monitro defnydd yr ysgol o'r GAD ac o weithgareddau DPP.
- monitro cynnydd pob ysgol tuag at ei thargedau.
- arwain, herio a chefnogi gwaith ysgolion unigol.
- broceru cefnogaeth ysgol-i-ysgol gydag ysgolion eraill sydd â blaenoriaethau gwella tebyg, ac ysgolion lle mae arfer effeithiol mewn perthynas â'r meysydd sydd wedi'u blaenoriaethu.

*Amlinelliad o'r rhaglen dros y flwyddyn*
- YH yn ymweld â phob ysgol (cyfarfod adolygu) yn ystod Tymor yr Hydref. Cwblheir yr Adroddiad Categoreiddio Cenedlaethol Ysgol fel rhan o'r cyfarfod adolygu a chytunir ar y categori cefnogaeth gyda'r ysgol.
- Ysgol yn rhannu Asesiad Hunan Arfarnu, Cynllun Gwella Ysgol a thargedau perfformiad cyfredol yr ysgol yn ogystal â manylion am ddefnydd o'r GAD a gweithgareddau DPP gyda'r YH.
- YH a'r ysgol yn adnabod ysgolion eraill sydd â blaenoriaethau gwella tebyg ac ysgolion lle mae arfer effeithiol mewn perthynas â'r meysydd sydd wedi'u blaenoriaethu. Yn dilyn trafodaeth gyda'r ysgol bydd yr YH yn helpu i froceru a chomisiynu cefnogaeth briodol.
- Yn ystod y flwyddyn, ysgolion yn gweithio gydag ysgolion eraill sydd â blaenoriaethau gwella tebyg ac yn rhannu arferion effeithiol.
- Gall YH fynychu rhai sesiynau cydweithio ysgol-i-ysgol er mwyn bod wrth law i gynnig cefnogaeth a sicrhau ansawdd y broses yn ystod y flwyddyn.
- Pob ysgol i ysgrifennu adroddiad cynnydd ar gydweithio ysgol-i-ysgol a'i effaith
- YH yn cynnal cyfarfod adolygu yn ystod yr Haf i drafod cynnydd yn erbyn blaenoriaethau a thargedau, gan gynnwys arfarniad o ddefnydd ac effaith y GAD a gweithgareddau DPP.
- YH yn dod i farn gychwynnol ar gategori '*gallu i wella'* yr ysgol yn dilyn cyfarfod adolygu'r Haf ac yn cwblhau fersiwn drafft o adran '*Gallu i Wella'* yr Adroddiad Categoreiddio Cenedlaethol Ysgol. Ysgolion ac YH hefyd yn arfarnu defnydd ac effaith y GAD a gweithgareddau DPP.
- Gall YH drefnu ymweliad ychwanegol i ysgol unigol pe bai angen tystiolaeth bellach i gwblhau'r adroddiad Categoreiddio.
- Gallai'r ymgynghorydd her drefnu ymweliad ychwanegol i ysgol unigol ar unrhyw adeg o'r flwyddyn pe bai angen tystiolaeth bellach i ddod i farn ar safonau, ansawdd yr addysgu a'r dysgu, neu ansawdd yr arweinyddiaeth.

*Model 3 : Ysgolion categori cefnogaeth Melyngoch a Choch* : bydd ysgolion yn y categorïau cefnogaeth melyngoch a choch yn gweithio gyda'r YH ar eu blaenoriaethau gwella ysgol. Bydd ysgolion yn y categori cefnogaeth melyngoch yn cael cefnogaeth, her ac ymyrraeth bwrpasol yn unol â'r angen. Mae'n bosib y bydd ysgolion melyngoch sydd eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol a datblygu eu gallu i wella yn barod i fabwysiadu, gyda chymorth, rai o'r strategaethau yn y model ar gyfer ysgolion yn y categori melyn. Bydd ysgolion melyngoch yn derbyn cefnogaeth gyda ffocws pendant, byrdymor am amser cyfyngedig er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd sydd angen gwella neu agweddau ar berfformiad sydd heb fod yn gwella'n ddigon cyflym. Bydd ysgolion yn y categori coch yn derbyn mwy o gyfarwyddyd a chefnogaeth ddwys gan GwE, a gallent fod yn agored i ymyrraeth sy'n golygu cydweithio rhwng GwE a'r awdurdod lleol. Mae cefnogaeth ysgol-i-ysgol i gael mynediad at, a rhannu arferion gwella effeithiol, yn nodwedd ganolog o'r rhaglen ar gyfer ysgolion yn y categorïau cefnogaeth melyngoch a choch. Mae'r Cynllun Gwella yn ddogfen allweddol sy'n ategu'r CGY. Mae'r Rhaglen Herio a Chefnogi ar gyfer ysgolion yn y categorïau melyngoch a choch yn ymdrech ar y cyd gan ysgolion ac YH i wella perfformiad a meithrin y gallu i wella, gan arwain at fwy o gyfrifoldeb annibynnol am wella i ysgolion yn y dyfodol.

Mae ysgolion yn gyfrifol ac yn atebol am ganfod y datrysiadau i'r heriau y maent yn eu hwynebu. Tasg llywodraethwyr, arweinwyr ysgolion, athrawon a staff eraill yw gosod disgwyliadau uchel ar ddisgyblion, mynd ati'n gyson i geisio gwella ansawdd addysgu a dysgu, codi safonau, rhannu arferion da a dysgu'r naill oddi wrth y llall drwy bartneriaethau dilys gyda chymheiriaid, gan gynnwys GwE, a chefnogaeth ysgol-i-ysgol.

Bydd yr YH yn:

- cefnogi a herio ysgolion gyda'r dasg o godi safonau.
- rhoi arweiniad, cefnogaeth a her ar bob cam yn y rhaglen. Rôl yr YH yw meithrin gallu i wella o fewn yr ysgol a helpu'r ysgol i wella.
- gweithio'n agos ac yn rheolaidd gydag ysgolion er mwyn rhoi cefnogaeth barhaus i waith yr ysgol wrth iddi gyflawni'r blaenoriaethau gwella, i sicrhau gweithrediad ac effaith y Cynllun Cefnogaeth ac i wella y defnydd o ddata a thracio cynnydd tuag at dargedau'r ysgol.
- cwblhau'r adroddiad Categoreiddio ar gyfer pob ysgol unigol, monitro defnydd yr ysgol o'r GAD a gweithgareddau DPP ac, yn ystod Tymor y Gwanwyn, monitro cynnydd pob ysgol tuag at ei thargedau.
- monitro ac arfarnu cynnydd yr ysgol drwy weithgareddau monitro rheolaidd a chyfarfodydd arfarnu ffurfiol tymhorol gydag uwch arweinwyr a llywodraethwyr.

Bydd UYHaCh, neu ei gynrychiolydd, yn gyfrifol am sicrhau ansawdd a chraffu allanol er mwyn sicrhau bod adeiladu cynhwysiad a gwelliant yn digwydd mewn ysgolion sy'n peri pryder, ac yn cadw mewn cysylltiad cyson ag awdurdodau lleol.

*Amlinelliad o'r rhaglen dros y flwyddyn*

- YH yn darparu cefnogaeth ar gyfer y broses hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant, ac yn herio er mwyn sicrhau bod y broses yn gywir, yn arbennig yn yr ysgolion hynny sydd mewn perygl o beri pryder neu sydd yn peri pryder.
- YH yn ymweld â phob ysgol [cyfarfod adolygu] yn ystod Tymor yr Hydref [gweler Atodiad 2 isod]. Cwblheir yr Adroddiad Categoreiddio Cenedlaethol Ysgol fel rhan o'r cyfarfod adolygu, a chytunir ar y categori cefnogaeth gyda'r ysgol.
- Ysgol yn rhannu Asesiad Hunan Arfarnu, Cynllun Gwella Ysgol a thargedau perfformiad cyfredol yr ysgol yn ogystal â manylion am ddefnydd o'r GAD a gweithgareddau DPP gyda'r YH.
- Dylai timau arwain fod yn rhan ganolog o'r broses adolygu a'r cyfarfodydd gyda'r YH.
- Yn dilyn cyfarfod adolygu Tymor yr Hydref, bydd yr ysgol yn nodi'r gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen arni, y tu hwnt i'w hadnoddau mewnol ei hun, er mwyn helpu i gyflawni blaenoriaethau ei chynllun gwella.
- Pennaeth, UDRh a'r YH yn llunio a chytuno ar Gynllun Cefnogaeth [gweler Atodiad 1 isod]. Gallai hwnnw gynnwys cefnogaeth YH/ymgynghorydd allanol/cefnogaeth ysgol i ysgol/cefnogaeth gan gymheiriaid sy'n benaethiaid.
- Disgwylir i bob ysgol ddefnyddio ei hadnoddau ei hun megis ei GGA, yn ogystal â gofyn i GwE gomisiynu cefnogaeth yn ôl yr angen, gan arwain o bosib at ddyrannu rhagor o ddiwrnodau o gefnogaeth. Gallai amrywiaeth o ddarparwyr megis y rhai a restrir uchod gyflwyno'r gefnogaeth ychwanegol hon.
- Mae'r rhaglen yn cynnwys adolygu ac arfarnu cynnydd wrth wneud gwelliannau a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn [gweler Atodiad 3 isod]. Bydd yr YH yn trefnu adolygiadau trylwyr o'r dystiolaeth ar gyfer cynnydd a gynlluniwyd [bob tua deg wythnos mewn ysgolion categori coch a phob tymor o leiaf yn yr ysgolion categori melyngoch]. Gall y rhain gynnwys cymheiriaid ysgol allanol neu gymheiriaid GwE, fel y bo'n briodol, yn gweithio gyda'r YH a'r arweinwyr i edrych ar faterion penodol. Y meysydd i'w hadolygu fydd y rhai a nodwyd yn flaenoriaethau gwella, a gallent gynnwys safonau'r gwaith yn llyfrau'r disgyblion; ansawdd yr addysgu, y dysgu a'r asesu; presenoldeb, ymddygiad ac ymgynnwys; ansawdd yr arweinyddiaeth, rheolaeth llinell ac atebolrwydd; cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion, e.e. disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim [PYD].
- Cyn y cyfarfodydd adolygu, bydd yr ysgol yn darparu arfarniad o effaith y gwaith gwella a gynlluniwyd a'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan nodi i ba raddau y mae'n cyflawni ei hamcanion gwella. Mae'r broses hon yn sicrhau bod arfarnu'n rhan annatod o'r broses gefnogi a herio ac o gylch cynllunio gwelliant ysgol.
- Bydd yr YH yn hwyluso'r cyfarfod a bydd yn gyfrifol am ysgrifennu cofnod o'r cyfarfod hwn ar gyfer yr ysgol. Gall UYHaCh, neu gynrychiolydd o'r Awdurdod, fynychu i fonitro'n allanol.
- Yn dilyn y cyfarfod, bydd yr ysgol yn cyflwyno'r arfarniad o gynnydd a'r adroddiad cynnydd diweddaraf i'r grŵp llywodraethwyr sy'n gyfrifol am safonau ac ansawdd er gwybodaeth ac er mwyn herio. Mewn ysgolion cynradd, gall yr adroddiad fynd yn syth at y Corff Llywodraethu. Bydd UYHaCh, neu gynrychiolydd, yn mynychu'r cyfarfod hwn, a gwahoddir hefyd gynrychiolydd o'r awdurdod lleol ac/neu awdurdod esgobaethol i fynychu lle'n briodol os yw'r ysgol yn peri pryder. Bydd adroddiad a chofnodion y cyfarfod hwn yn mynd at y corff llywodraethu llawn.
- Caiff ysgolion sy'n peri pryder eu monitro a'u cefnogi'n ddwys. Pan fo ysgolion yn perfformio'n gryf, bydd y monitro a'r cefnogi'n ysgafn o ran natur. Mewn rhai amgylchiadau, gall yr Awdurdod ofyn i GwE gynnal ymweliad monitro estynedig.
- Gall YH drefnu ymweliad ychwanegol i ysgol unigol pe bai angen tystiolaeth bellach i gwblhau'r adroddiad Categoreiddio.
- Gall YH drefnu ymweliad ychwanegol i ysgol unigol ar unrhyw adeg o'r flwyddyn pe bai angen tystiolaeth bellach i ddod i farn ar safonau, ansawdd yr addysgu a'r dysgu, neu ansawdd yr arweinyddiaeth.

*Trosolwg o'r broses gydag ysgolion categori cefnogaeth Melyngoch/Coch*

Isod ceir trosolwg o'r cylch blwyddyn ar gyfer pob ysgol sydd mewn categori cefnogaeth Melyngoch neu Goch o Dymor yr Hydref 2016 [wedi'i deilwra yn ôl anghenion penodol].

Yr ysgol yn cytuno ar ddyddiad ar gyfer cyfarfod cychwynnol yr hydref gyda'r YH.

- AHA
- CGY
- Dadansoddiad ac arfarniad o berfformiad diwedd cyfnod allweddol presennol [yn cynnwys perfformiad yn erbyn targedau]
- Targedau diwedd cyfnod allweddol 2017 a 2018
- Ffigyrau presenoldeb 2016
- Ffigyrau gwaharddiadau penodedig a pharhaol 2016
- Defnydd o gyllid GAD
- Gweithgaredd DPP arfaethedig

**Cyfarfod adolygu'r Hydref**
Mae'r cyfarfod adolygu'n galluogi'r YH i gwblhau'r Adroddiad Categoreiddio Cenedlaethol Ysgol (dros dro hyd nes y ceir Gwiriad Cenedlaethol) ac i adolygu'r materion gyda'r ysgol, gan gynnwys:

- perfformiad yr ysgol yn 2016 yn erbyn ei thargedau
- targedau perfformiad ar gyfer 2017 a 2018
- defnydd o'r GAD
- gweithgaredd DPP arfaethedig
- blaenoriaethau gwella

Ysgol a'r YH yn cytuno ar Gynllun Cefnogaeth ar gyfer yr ysgol a fydd yn cynnwys:

- Cefnogaeth ymgynghorydd her
- Cefnogaeth ymgynghorydd allanol/arbenigwr (o GwE neu o rywle arall)
- Cefnogaeth ysgol i ysgol
- Cefnogaeth gan gymheiriaid sy'n benaethiaid

YH yn comisiynu cefnogaeth ac yn sicrhau ansawdd gweithrediad y Cynllun Cefnogaeth. YH yn ymweld â'r ysgol yn gyson (bob pythefnos o leiaf mewn ysgolion categori coch) i gefnogi'r ysgol ac i fonitro cynnydd ac effaith y gweithgareddau gwella a gynlluniwyd

**Yn ystod pob tymor**
Yr ysgol yn cyflawni'r gweithgareddau gwella a gynlluniwyd

**Yn ystod pob tymor : cefnogaeth a monitro parhaus**
Ymweliadau rheolaidd yr YH yn cynnwys cefnogaeth ar:

- gydweithio ar flaenoriaethau'r CGY
- ansawdd yr addysgu, y dysgu a'r asesu
- presenoldeb, ymddygiad ac ymgynnwys
- ansawdd arweinyddiaeth/rheolaeth llinell/atebolrwydd
- cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion,
- datblygiad arweinwyr canol
- gwaith gyda'r Corff Llywodraethu/grwp o lywodraethwyr

**O leiaf bob tymor :** ysgol yn cynnal arfarniad trylwyr o'i chynnydd wrth geisio cyflawni holl flaenoriaethau'r CGY ar gyfer GwE. Gellir gwneud hyn ar gyfer pob blaenoriaeth yn ei thro neu ar gyfer yr holl flaenoriaethau ar yr un pryd. Mae'r UDRh a GwE yn cynnal adolygiad ffurfiol ar y cyd o'r cynnydd ac effaith wrth geisio cyflawni holl flaenoriaethau'r CGY a thargedau, ac yn penderfynu os oes angen cefnogaeth ychwanegol.

**O leiaf bob tymor :** YH yn hwyluso'r cyfarfod hwn. Bydd UYHaCh, neu gynrychiolydd, yn bresennol i fonitro'n allanol a sicrhau ansawdd.

**O leiaf bob tymor :** UYHaCh, neu gynrychiolydd, yn mynychu'r cyfarfod gyda'r llywodraethwyr. Gwahoddir swyddogion o'r awdurdod lleol a'r awdurdod esgobaethol i fynychu mewn ysgolion sy'n peri pryder, a gall yr awdurdod lleol ystyried ymyrraeth ffurfiol ble'n briodol.

**O leiaf bob tymor :** ysgol yn cyflwyno ei harfarniad o gynnydd a'i hadroddiad cynnydd diweddaraf i'r llywodraethwyr. Mae grŵp monitro'r llywodraethwyr (uwchradd) neu'r Corff Llywodraethu (cynradd) yn derbyn yr Adroddiad Hunanarfarnu ac Adolygu Cynnydd tymhorol er gwybodaeth ac er mwyn craffu a herio. Caiff dogfennau a chofnodion grŵp monitro'r Corff Llywodraethu (ysgolion uwchradd yn unig) eu cyflwyno i'r Corff Llywodraethu llawn

**Tymor yr Haf :** YH yn cynnig cefnogaeth gyda hunanarfarnu, a hyfforddiant ar gyfer UDA ac arweinwyr canol, yn ôl yr angen. Bydd yr YH yn hwyluso'r cyfarfod. Pwrpas y cyfarfod yw arfarnu cynnydd ac effaith gweithgareddau gwella'r ysgol. Pennir barn gychwynnol ar allu'r ysgol i wella cyn yr adroddiad categoreiddio yn Nhymor yr Hydref.

**Tymor yr Haf, arfarniad ffurfiol o gynnydd yn ystyried** : AHA**;** CGY**;** Arfarniad o gynnydd yn erbyn blaenoriaethau CGY 2016-17; Cynnydd tuag at dargedau diwedd cyfnod allweddol 2017 a 2018; Materion fydd angen sylw pellach a blaenoriaethau CGY 2017-18**;** Arfarniad o effaith y GAD a gweithgareddau DPP

Medi 2017, cylch gwella ysgolion blynyddol a'r cylch herio a chefnogi yn ailddechrau.

**Deilliannau Categoreiddio Ysgolion Môn : Gwelliannau Ysgolion Categori Melyngoch/Coch 2014 - 2016**
Gan bod rhai addasiadau cenedlaethol wedi'u gwneud i feini prawf y 3 cam o'r broses gategoreiddio ers ei fabwysiadu, a gan bod trefn rymusach o safoni a chymedroli rhanbarthol a chenedlaethol wedi'i gweithredu llynedd, mae cymharu proffil ysgolion yr Awdurdod yn 2014-15 hefo proffil 2015-16 [a phroffil arfaethedig 2016-17] ychydig yn gymhleth. Ar draws ysgolion y ddau sector gafodd eu harolygu, gwelir bod cyfatebiaeth agos rhwng dyfarniad YH GwE yng Ngham 2 o'r broses [*Gallu i Wella*] a dyfarniad Estyn yn y farn gyffredinol. Fodd bynnag, yn 2014-15 a thymor cyntaf 2015-16, yn achos lleiafrif bychan o ysgolion, roedd y dyfarniad ar ansawdd arweinyddiaeth yn rhy hael. Gweler Tabl 7 isod parthed proffil ysgolion *Melyngoch/Coch* gafodd eu harolygu yn y cyfnod dan sylw [Tabl 6 yn dangos proffil holl ysgolion].

Mae Tabl 1 [isod] yn dangos y gwelliannau amlwg sydd wedi digwydd ar draws ysgolion Môn rhwng 2014-15 a 2015-16. Gwelir cynnydd o +3.9% [i 7.7%] yn y ganran o ysgolion categori cefnogaeth *Gwyrdd* a chynnydd o +3.8% [i 59.6%] yn y nifer o ysgolion categori cefnogaeth *Melyn*. Fel canlyniad, roedd y ganran o ysgolion *Melyngoch* wedi lleihau -9.7% [i 28.8%]. Fodd bynnag, gosodwyd un ysgol ychwanegol yn y categori cefnogaeth *Coch* [cynyddu o 1.9% i 3.8%]. Mae'r sefyllfa gyfredol ar gyfer 2016-17 [i'w chadarnhau yn derfynol cyn Tachwedd 2016] yn amlygu gwelliannau sylweddol pellach gyda 7.7% a 73.1% yn y categoriau cefnogaeth *Gwyrdd* a *Melyn* a 17.3% yn y *Melyngoch.* Dim ond un ysgol [1.9%] fydd yn y categori cefnogaeth *Coch*. Dros gyfnod treigl 2014>2016, felly, mae'r ganran o ysgolion yn y categoriau cefnogaeth mwyaf dwys [*Melyngoch/Coch*] wedi lleihau o 40.4% i 19.2% ac mae'r ffigwr ar gyfer 2016-17 wedi'i alinio'n well gyda'r ffigwr cyfatebol yn yr awdurdodau eraill. Mae hyn yn gadarnhaol iawn.

Mae dadansoddiad pellach o farnau oddi fewn i Gam 2 y drefn gategoreiddio [barn lleol ar allu yr ysgol i wella – ansawdd arweinyddiaeth a'r dysgu/addysgu], hefyd yn amlygu gwelliannau sylweddol dros y cyfnod treigl [gweler Tabl 2 isod]. Dros y cyfnod dan sylw mae'r ganran o ysgolion sydd yn derbyn y ddau ddyfarniad uchaf [A neu B] wedi cynyddu o 65.3% yn 2014-15 i 69.3% [2015-16] ac yna i 78.9% yn 2016-17. Mae hyn wedi arwain at leihad sylweddol hefyd yn y ganran o ysgolion sydd wedi derbyn y dyfarniadau is [C neu D] : 34.7% [2014-15] 30.7% [2015-16] a 21.1% yn 2016-17.

***Tabl 1 : Y sefyllfa genedlaethol a rhanbarthol yn 2014-15 a 2015-16***

| | 2014-15 | | | | | | | | 2015-16 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwyrdd | | Melyn | | Melyngoch | | Coch | | Gwyrdd | | Melyn | | Melyngoch | | Coch | |
| Consortia | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| GwE | 39 | 9.1% | 255 | 59.4% | 122 | 28.4% | 13 | 3.0% | 53 | 12.5% | 277 | 65.5% | 78 | 18.4% | 15 | 3.5% |
| ERW | 83 | 16.5% | 254 | 50.6% | 143 | 28.5% | 22 | 4.4% | 122 | 24.6% | 246 | 49.6% | 114 | 23.0% | 14 | 2.8% |
| EAS | 43 | 18.2% | 109 | 46.2% | 69 | 29.2% | 15 | 6.4% | 53 | 22.6% | 121 | 51.7% | 49 | 20.9% | 11 | 4.7% |
| CSS | 71 | 19.0% | 159 | 42.6% | 112 | 30.0% | 31 | 8.3% | 105 | 28.0% | 191 | 50.9% | 61 | 16.3% | 18 | 4.8% |
| ALlau | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Mon | 2 | 3.8% | 29 | 55.8% | 20 | 38.5% | 1 | 1.9% | 4 | 7.7% ↑ | 31 | 59.6% ↑ | 15 | 28.8% ↓ | 2 | 3.8% ↑ |
| Gwynedd | 10 | 9.0% | 69 | 62.2% | 29 | 26.1% | 3 | 2.7% | 16 | 15.0% | 72 | 67.3% | 16 | 15.0% | 3 | 2.8% |
| Conwy | 7 | 10.9% | 29 | 45.3% | 27 | 42.2% | 1 | 1.6% | 7 | 11.3% | 38 | 61.3% | 14 | 22.6% | 3 | 4.8% |
| Dinbych | 4 | 7.3% | 30 | 54.5% | 20 | 36.4% | 1 | 1.8% | 4 | 7.3% | 39 | 70.9% | 10 | 18.2% | 2 | 3.6% |
| Fflint | 8 | 10.1% | 54 | 68.4% | 12 | 15.2% | 5 | 6.3% | 14 | 17.7% | 49 | 62.0% | 14 | 17.7% | 2 | 2.5% |
| Wrecsam | 8 | 11.8% | 44 | 64.7% | 13 | 19.1% | 3 | 4.4% | 8 | 11.8% | 48 | 70.6% | 9 | 13.2% | 3 | 4.4% |

***Tabl 2 : Barnau Cam 2 [Gallu i Wella - ansawdd arweinyddiaeth + dysgu/addysgu]***

| Dyfarniad Gallu i Wella [A > D] | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 [Interim] |
|---|---|---|---|
| A | 3.8% | 9.6% ↑ | 11.6% ↑ |
| B | 61.5% | 59.7% | 67.3% ↑ |
| C | 32.8% | 26.9% ↓ | 19.2% ↓ |
| D | 1.9% | 3.8% | 1.9% ↓ |

Mae Tablau 3/4/5 [isod] yn manylu ymhellach ar y gwelliannau/cynnydd [neu ddiffyg gwelliannau/cynnydd] yn yr ysgolion oedd yn y categori cefnogaeth *Melyngoch/Coch* yn 2014-15 a/neu 2015-16.

O'r 20 ysgol oedd mewn categori cefnogaeth *Melyngoch* neu *Goch* yn 2014-15, bu i 7 wella eu perfformiad yn ddigonol i gael eu symud i'r categori cefnogaeth *Melyn* erbyn 2015-16; bu i 12 gael eu cadw yn y categori er mwyn sicrhau gwelliannau pellach neu i wreiddio arferion a gwelwyd un ysgol yn disgyn i gategori is oherwydd pryder sylweddol am ansawdd arweinyddiaeth ac agweddau o'r dysgu/addysgu. Yn ystod yr un cyfnod gwelwyd 3 ysgol arall yn disgyn o'r categori cefnogaeth *Melyn* i *Melyngoch* (3 ysgol). Yn 2015-16, felly, roedd 16 ysgol yn y categoriau cefnogaeth mwyaf dwys. Yn ystod y flwyddyn gweithredwyd rhaglenni cefnogaeth penodol gyda'r ysgolion hyn ac mae dyfarniadau interim 2016-17 yn amlygu gwelliannau digon cadarn mewn 9 o'r ysgolion i gael eu tynnu o'r categori. Mae 6 o'r ysgolion yn cael eu cadw yn y categori er mwyn sicrhau eu bod yn cael mynediad i gefnogaeth bellach ar eu taith gwella. Mae 3 o'r ysgolion hynny [3 ysgol wedi bod yn y categori *Melyngoch* am gyfnod treigl 3 blynedd. Nid yw hyn yn dderbyniol ac mae angen cytuno gyda'r ysgolion a'r Awdurdod ar gerrig milltir penodol i sicrhau y gwelliannau angenrheidiol. Os na ellir sicrhau y gwelliannau oddi fewn i'r amserlen gytunedig, bydd angen i'r Awdurdod ystyried camau gweithredu pellach. Yn 2016-17, felly, 7 ysgol sydd yn y categoriau cefnogaeth mwyaf dwys ac yn y mwyafrif helaeth o'r sefyllfaoedd, mae'r gweithredu sydd yn angenrheidiol i sicrhau gwelliannau yn rhychwantu agweddau o uwch arweinyddiaeth. Caiff hyn ei amlygu yn Nhabl 5 [isod] gyda gradd C [neu is] wedi'i ddyfarnu i'r ysgolion ar sail Cam 2 o gategoreiddio 2016-17. O'r 20 ysgol oedd yn y categori *Melyngoch/Coch* yn 2014-15, mae 60.0% ohonynt bellach wedi derbyn dyfarniad B ar gyfer ansawdd eu harweinyddiaeth. Mae Atodiad 4 [isod] yn cyflwyno astudiaethau achos o weithredu ac effaith gyda sampl o'r ysgolion hyn.

*Tabl 3 : Trosolwg ar sail categori cefnogaeth [Ysgol Uwchradd Caergybi heb ei chynnwys gan ei bod yn rhan o raglen gefnogaeth Her Ysgolion Cymru]*

| Ysgol | Categoreiddio 2014-15 | Categoreiddio 2015-16 | Categoreiddio 2016-17 *[i'w gadarnhau – dyfarniad interim]* |
|---|---|---|---|
| 1 | | ↔ | ↔ |
| 2 | | ↔ | Os caiff yr ysgol ei thynnu o gategori dilyniant Monitro Estyn. Rhagolygon cyfredol yn gadarnhaol. ↑ |
| 3 | | ↔ | Os caiff yr ysgol ei thynnu o gategori dilyniant Monitro Estyn. Rhagolygon cyfredol yn gadarnhaol. ↑ |
| 4 | | ↔ | ↔ |
| 5 | | ↔ | ↑ |
| 6 | | ↑ | ↔ |
| 7 | | ↑ | ↔ |
| 8 | | ↑ | ↓ |
| 9 | | ↔ | ↑ |
| 10 | | ↑ | ↔ |
| 11 | | ↔ | ↑ |
| 12 | | ↔ | ↔ |
| 13 | | ↔ | ↑ |
| 14 | | ↔ | ↑ |
| 15 | | ↑ | ↔ |
| 16 | | ↑ | ↔ |
| 17 | | ↓ | ↔ |
| 18 | | ↑ | ↔ |
| 19 | | ↔ | ↑ |
| 20 | | ↔ | ↑ |
| 21 | | ↓ | ↑ |
| 22 | | ↓ | ↔ |
| 23 | | ↓ | ↔ |

*Tabl 4 : Trosolwg ar sail Cam 1 [Grwp Data]*

| | |
|---|---|
| | ↑ |
| | ↔ |
| | ↓ |

| Ysgol | Categoreiddio 2014-15 | Categoreiddio 2015-16 | Categoreiddio 2016-17 [i'w gadarnhau – dyfarniad interim] |
|---|---|---|---|
| 1 | 1 | 1 ↔ | 1 ↔ |
| 2 | 1 | 1 ↔ | 1 ↔ |
| 3 | 2 | 1 ↑ | 2 ↓ |
| 4 | 1 | 1 ↔ | 1 ↔ |
| 5 | 2 | 1 ↑ | 1 ↔ |
| 6 | 1 | 1 ↔ | 1 ↔ |
| 7 | 2 | 2 ↔ | 2 ↔ |
| 8 | 2 | 2 ↔ | 2 ↔ |
| 9 | 3 | 2 ↑ | 3 ↓ |
| 10 | 3 | 2 ↑ | 2 ↔ |
| 11 | 3 | 2 ↑ | 2 ↔ |
| 12 | 4 | 3 ↑ | 2 ↑ |
| 13 | 4 | 3 ↑ | 3 ↔ |
| 14 | 4 | 3 ↑ | 2 ↑ |
| 15 | 4 | 3 ↑ | 3 ↔ |
| 16 | 3 | 2 ↑ | 1 ↑ |
| 17 | 3 | 3 ↔ | 3 ↔ |
| 18 | 2 | 3 ↓ | 2 ↑ |
| 19 | 2 | 2 ↔ | ? |
| 20 | 1 | 2 ↓ | 1 ↑ |
| 21 | 3 | 1 ↑ | 2 ↓ |
| 22 | 3 | 3 ↔ | 3 ↔ |
| 23 | 2 | 2 ↔ | 3 ↓ |

*Tabl 5 : Trosolwg ar sail Cam 2 [Gallu i Wella – ansawdd arweinyddiaeth + dysgu/addysgu]*

| | |
|---|---|
| | ↑ |
| | ↔ |
| | ↓ |

| Ysgol | Categoreiddio 2014-15 | Categoreiddio 2015-16 | Categoreiddio 2016-17 [i'w gadarnhau – dyfarniad interim] |
|---|---|---|---|
| 1 | C | C ↔ | C ↔ |
| 2 | B | C ↓ | B ↑ |
| 3 | D | C ↑ | C ↔ |
| 4 | C | C ↔ | C ↔ |
| 5 | C | C ↔ | C ↔ |
| 6 | C | B ↑ | B ↔ |
| 7 | B | B ↔ | B ↔ |
| 8 | C | B ↑ | C ↓ |
| 9 | C | B ↑ | B ↔ |
| 10 | C | B ↑ | B ↔ |
| 11 | C | C ↔ | B ↑ |
| 12 | C | C ↔ | C ↔ |
| 13 | C | B ↑ | B ↔ |
| 14 | B | C ↓ | B ↑ |
| 15 | B | B ↔ | B ↔ |
| 16 | C | B ↑ | B ↔ |
| 17 | C | D ↓ | D ↔ |
| 18 | C | B ↑ | B ↔ |
| 19 | C | C ↔ | C ↔ |
| 20 | C | D ↓ | B ↑ |
| 21 | B | C ↓ | B ↑ |
| 22 | B | C ↓ | C ↔ |
| 23 | B | C ↓ | C ↔ |

**Tabl 6 : Proffil barnau arolygiadau blwyddyn addysgol 2015-16 : holl ysgolion Môn**

| | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
|---|---|---|---|---|
| Cwestiwn Allweddol 1 | 0% | 71.4% | 28.6% | 0% |
| Cwestiwn Allweddol 2 | 0% | 57.1% | 42.9% | 0% |
| Cwestiwn Allweddol 3 | 0% | 57.1% | 28.6% | 14.3% |
| Barn Gyffredinol 1 : Perfformiad Presennol | 0% | 71.4% | 28.6% | 0% |
| Barn Gyffredinol 2 : Gallu i Wella | 0% | 57.1% | 28.6% | 14.3% |

**Tabl 7 : Proffil barnau ysgolion Melyngoch/Coch gafodd eu harolygu yn 2014-15 neu 2015-16**

| Barnau | a | b | c | ch | d | dd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dyddiad Arolygiad** | Gwanwyn 2015 | Gwanwyn 2015 | Hydref 2015 | Hydref 2015 | Gwanwyn 2016 | Hydref 2015 |
| **Cwestiwn Allweddol 1** | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Da |
| **Cwestiwn Allweddol 2** | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol |
| **Cwestiwn Allweddol 3** | Digonol | Anfoddhaol | Digonol | Anfoddhaol | Digonol | Digonol |
| **Barn Gyffredinol 1** | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Da |
| **Barn Gyffredinol 2** | Digonol | Anfoddhaol | Digonol | Anfoddhaol | Digonol | Digonol |
| **Categori Dilyniant** | Monitro Estyn | Mesurau Arbennig | Monitro Estyn | Mesurau Arbennig | Monitro Estyn | Monitro Estyn |
| **Dyfarniad Cam 2 GwE pan gafodd yr ysgol ei harolygu** | B | C | B | C | C | C |
| **Sefyllfa Gyfredol** | Allan o gategori dilyniant yn ystod Gwanwyn 2016. Categori cefnogaeth *Melyn* 2016-17. | Cynnydd sylweddol wedi digwydd mewn cyfnod cymharol fyr o weithredu. Estyn wedi ei thynnu allan o gategori statudol yn Haf 2016. Categori cefnogaeth *Melyn* 2016-17. | Ail ymweliad Estyn Hydref 2016. Disgwyliad bydd yr ysgol yn cael ei thynnu o'r categori. Parhau yn y categori *Melyngoch* yn 2016-17 er mwyn gwella ymhellach agweddau o arweinyddiaeth a safonau. | Cynnydd araf a phryder am gynhwysedd yr ysgol i sicrhau y gwelliannau angenrheidiol. Adroddiadau monitro yn amlygu pryder ar sawl lefel a'r ALl yn ystyried ystod o opsiynau mewn ymateb. | Ail ymweliad Estyn Gwanwyn 2017. Ymweliadau monitro cynnydd pellach i'w cynnal ond disgwyliad bydd yr ysgol yn cael ei thynnu o'r categori.Ystyriaeth i'w symud i gategori *Melyn* bryd hynny. | Ail ymweliad Estyn Hydref 2016. Disgwyliad bydd yr ysgol yn cael ei thynnu o'r categori. Ystyriaeth i'w symud i gategori cefnogaeth Melyn bryd hynny. |
| **Dyfarniad Interim Cam 2 GwE ar gyfer 2016-17** | B | B | C | D | C | B |

**Materion allweddol yn deillio o weithredu 2015-16 gydag ysgolion *Melyngoch/Coch* :**

- Sicrhau bod pob YH sydd yn gweithredu gydag ysgolion categori cefnogaeth *Melyngoch/Coch* yn cael mynediad i raglen hyfforddiant ddwys er mwyn gweithredu'r model newydd yn effeithiol ac yn gyson.
- Sicrhau bod gweithdrefnau atebolrwydd a rheoli llinell effeithiol ar waith ar bob lefel [Ysgol>YH; YH>Ysgol; UYHaCH>YH; Awdurdod>UYHaCh].
- Sicrhau bod pob ysgol categori cefnogaeth *Melyngoch/Coch* yn cael mynediad i *Gynllun Cymorth* o ansawdd a bod manylion y cynllun, a chynnydd yn ei erbyn, yn cael ei rannu gyda'r Llywodraethwyr. Bydd pob cynllun yn cael ei gytuno gyda'r Pennaeth ac yn amlygu cyfraniad GwE a'r ysgol i'r gweithredu angenrheidiol.
- Sicrhau bod y gefnogaeth a gomisiynir yn gwneud defnydd effeithiol o ymyrraeth YH cyswllt, cydweithio ysgol>ysgol; mynediad i arbenigeddau ysgolion cyd-arweiniol; rhwydweithiau lleol neu gefnogaeth arbenigol bellach. Gallai hyn gynnwys cefnogaeth wedi'i thargedu ar gyfer clystyrau o ysgolion sy'n mynd i'r afael â materion cyffredin trwy froceru deallus gan YH.
- Sicrhau bod Llywodraethwyr yn fwy canolog i weithredu GwE gydag ysgolion yn y categoriau dwys ee cynnwys mewn ymweliadau/ymarferiadau craffu a monitro.
- Sicrhau bod adroddiadau monitro yn amlygu'n glir y gwelliannau sydd wedi digwydd, yr agweddau sydd angen sylw pellach a chyfraniadau penodol yr ysgol a'r YH i warantu y gwelliannau hynny. Ymhob achos, bydd yr adroddiadau yn cael eu cyflwyno i gynrychiolaeth o'r Llywodraethwyr.
- Sicrhau bod gweithredu gyda'r ysgolion yn cynnwys pob haen o arweinyddiaeth er mwyn gwella gwydnwch arweinyddol ee trwy gyfrwng gweithgareddau megis cyd-arfarnu; cyd-gynllunio; cyd-arsylwi; cyd-graffu ar waith; modelu gweithredu ayyb
- Sicrhau bod arweinwyr ysgolion *Melyngoch/Coch* yn manteisio ar yr ystod rhaglenni hyfforddiant gaiff eu cyflwyno gan GwE yn ystod y flwyddyn addysgol a'u bod yn gweithredu'n rymus wedyn ar y cyngor a'r arweiniad gaiff ei gyflwyno.
- Sicrhau bod yr ysgolion dan sylw yn gosod targedau heriol a bod gweithdrefnau pwrpasol ac effeithiol ar waith i dracio cynnydd ac i ymyrryd yn amserol pan fo angen gwneud hynny.
- Parhau i sicrhau bod yr Awdurdod yn derbyn gwybodaeth o ansawdd parthed cynnydd/diffyg cynnydd mewn ysgolion sy'n peri pryder a bod hynny yn digwydd yn rheolaidd ac yn amserol.
- Gweithio gyda'r Awdurdod i sicrhau bod terfynau amser tynn yn cael eu cytuno ar gyfer sicrhau y gwelliannau angenrheidiol yn yr ysgolion a phan na fo hynny yn digwydd, i weithio gyda'r Awdurdod i sicrhau y gweithredir gweithdrefnau ymyrraeth statudol yn effeithiol ac amserol.

**CYNLLUN CEFNOGAETH GwE**

**I'w gwblhau gan yr Ymgynghorydd Her mewn trafodaeth â'r Pennaeth, a'i atodi i'r Cynllun Gwella Ysgol Mae'n bosib y bydd gan ysgolion sydd mewn categori statudol ar gyfer gweithgarwch dilynol gan Estyn gynllun manylach sy'n briodol ar gyfer eu hanghenion a'u hamgylchiadau.**

<table>
<tr><td>Ysgol</td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Pennaeth</td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Ymgynghorydd Her</td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Blaenoriaethau'r Cynllun Gwella Ysgol</td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Dyddiad cychwyn a gorffen y Cynllun Cefnogaeth</td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Amcanion a phwrpas yr ymyrraeth</td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Rhaglen waith</td><td colspan="2">I gynnwys amser yr Ymgynghorydd Her ac unrhyw gomisiynu ychwanegol</td></tr>
<tr><td>Cefnogaeth benodol i'w darparu</td><td>Amserlen</td></tr>
<tr><td>Cefnogaeth yr Ymgynghorydd Her :<br><br>Cefnogaeth gan ymgynghorydd allanol/(Cefnogaeth ALl) :<br><br>Cefnogaeth ysgol i ysgol :<br><br>Cefnogaeth gan gymheiriaid sy'n benaethiaid :<br><br>Arall :</td><td></td></tr>
<tr><td>Ymrwymiad amser</td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Costau ychwanegol a ffynhonnell arian</td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Deilliannau disgwyliedig (proses)</td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Deilliannau disgwyliedig (effaith)</td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td colspan="3">I'w gwblhau ar y cyd gyda'r Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth ar derfyn y cyfnod gweithredu</td></tr>
<tr><td>Cynnydd ac effaith</td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Gwerth am arian</td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Gwaith pellach sydd ei angen</td><td colspan="2"></td></tr>
</table>

**ADRODDIAD YMWELIAD YR YMGYNGHORYDD HER:  TYMOR YR HYDREF**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol** | | **Pennaeth** | |
| **Ymgynghorydd Her** | | **ALl** | |
| **Yn bresennol yn y cyfarfod** | | **Dyddiad** | |

| | | |
|---|---|---|
| **Sylwadau byr ar ansawdd a chywirdeb arfarniad yr ysgol o'i pherfformiad** | | |
| | | |
| **Sylwadau byr ar berfformiad diwedd cyfnod allweddol a pherfformiad yn erbyn targedau *** | | |
| | | |
| **Sylwadau byr ar bresenoldeb, ymddygiad a gwaharddiadau** | | |
| | | |
| **Sylwadau byr ar briodoldeb a lefel her targedau perfformiad 2016 a 2017 (yn cynnwys presenoldeb)** | | |
| | | |
| **Sylwadau byr ar briodoldeb y Cynllun Gwella Ysgol yn cynnwys y gweithgareddau DPP arfaethedig ar gyfer staff. Pa mor debygol yw hi y bydd y camau gweithredu penodol a manylder y cynllunio yn arwain at y deilliannau dymunol?** | | |
| | | |
| **Sylwadau byr ar briodoldeb y defnydd o'r Grant Amddifadedd Disgyblion** | | |
| | | |
| **Rhowch fanylion am sut fydd yr ysgol yn cydweithio ag ysgolion eraill i ddatblygu a gwella [rhowch enwau partneriaid].** | | |
| | | |
| **GWEITHREDU A GYTUNWYD** | **PWY?** | **ERBYN PRYD** |
| | | |
| **Materion i sylw'r Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth** | | |
| | | |
| **Angen ymweliad archwilio dilynol manwl gan aelodau tîm GwE** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **OES** | | **NAC OES** | |
| **Os OES, nodwch y rhesymau yn fyr isod** | | | |
| | | | |

*Dylai'r ymgynghorydd her gwblhau'r adroddiad terfynol o fewn 10 diwrnod gwaith ac mae'n rhaid i'r ysgol rannu'r adroddiad gyda'r Corff Llywodraethu*

*Anfonwch gopi at:*
- *Yr Ysgol*
- *Yr Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth*

**ADRODDIAD MONITRO AC ARFARNU TYMHOROL**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol** | | **ALl** | |
| **Pennaeth** | | **Ymgynghorydd Her** | |
| **Adroddiad gan** | | **Dyddiad** | |
| **Yn bresennol:** | | | |

| **Cynnydd wrth ymdrin â Blaenoriaethau CGY neu Argymhellion y CGÔA** | | | |
|---|---|---|---|
| *Ar gyfer pob blaenoriaeth yn y Cynllun Gwella Ysgol neu argymhelliad yn y Cynllun Gweithredu Ôl Arolwg, rhowch sylwadau byr ar y cynnydd wrth weithredu'r prosesau a gynlluniwyd a'u heffaith ac wrth gyflawni amcanion y CGY/CGÔA, targedau a meini prawf llwyddiant. Dewch i farn ar y cynnydd ymhob blaenoriaeth neu argymhelliad gan ddefnyddio disgrifyddion cynnydd Estyn fel model 'cyd-fynd orau' : Cyfyngedig/Boddhaol/Cryf/Da Iawn.*<br><br>*Crynodeb o ganfyddiadau arfarnu ar gyfer pob blaenoriaeth neu argymhelliad gan ddefnyddio pwyntiau bwled lle'n bosib :* | | | |
| **Materion i gael sylw a chamau gweithredu**<br>*Nodwch unrhyw faterion i gael sylw a chamau gweithredu penodol yma* | | | |
| **Materion angen sylw** | **Gweithredu** | **Gan bwy?** | **Erbyn pryd** |
| | | | |
| Caiff gweithgareddau dilynol eu cofnodi ar y Cofnodion Ymweliad a'u hadrodd yn y cyfarfod monitro ac arfarnu nesaf | | | |
| **Materion i sylw'r Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth, yr ALl neu Swyddogion Esgobaethol** | | | |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Arwyddwyd** | | **Dyddiad** | |

*Rhaid rhannu'r adroddiad gyda'r Corff Llywodraethu er gwybodaeth ac er mwyn craffu a herio*

*Atodiad 4 : Astudiaethau achos o weithredu ac effaith mewn sampl o ysgolion Melyngoch/Coch*

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol A |
| **Categori Cefnogaeth** | Melyngoch |
| **Categori Estyn** | Dim categori presennol. Arolygiad tebygol 2016-17 |

Cyfanswm cefnogaeth uniongyrchol a ddarparwyd neu gomisiynwyd 2015-16 : 69 diwrnod o gefnogaeth uniongyrchol

| **Blaenoriaethau/Meysydd Gwella** | **Cefnogaeth a ddarparwyd a/neu comisiynwyd gan GwE** | **Amserlen y gweithredu** | **Cyfanswm nifer dyddiau cefnogaeth [YH + eraill]** | **Gwelliannau a welwyd mewn :**<br>• **Arweinyddiaeth**<br>• **Dysgu ac Addysgu**<br>• **Deilliannau i ddysgwyr** |
|---|---|---|---|---|
| Sicrhau adroddiad hunan arfarnu cyfredol, Cynllun Datblygu Ysgol o ansawdd a darlun clir o safonau cyflawniad disgyblion ac addysgu | • Cefnogaeth YH i geisio cael arfarniad cyfredol o safonau a darpariaeth yn yr ysgol<br>• Sesiwn hyfforddi gwyll i holl staff yr ysgol gan yr YH ar addysgu effeithiol<br>• Cefnogaeth ac arweiniad Partner Cynorthwyol Rhifedd a Llythrennedd ar wella ansawdd cynllunio ac arweiniad ar addysgu<br>• Hyfforddiant gan GwE ym maes hunan arfarnu<br>• Holl staff CA2 i fynychu hyfforddiant ym maes Asesu Ffurfiannol yn Ysgol Corn Hir<br>• 2 aelod staff wedi cofrestru ar gyfer hyfforddiant mewn ysgol gyfagos ym maes AaGD - comisiynwyd gan GwE | Medi a Hydref 2015<br><br>28/09/16<br><br>28/09/16<br>01/11/16<br>06/11/15<br><br>22/10/15<br>15/11/15<br>25/11/15<br><br>21/10/15<br><br>Medi 2015–Mai 2016 | 4 ddiwrnod<br><br>1 .5diwrnod<br><br>0.5 diwrnod x 2 aelod staff<br><br>Cyfanswm o 6 diwrnod dros y flwyddyn. | • Effaith y gefnogaeth rhifedd a llythrennedd ar ddarpariaeth yn gyfyngedig hyd at y Nadolig - absenoldebau staff .<br>• Effaith yr hyfforddiant addysgu yn gyfyngedig hyd at y Nadolig - absenoldeb staff.<br>• Effaith yr hyfforddiant addysgu yn gyfyngedig hyd at y Nadolig.<br>• Effaith yr hyfforddiant arweinyddiaeth yn gyfyngedig gan na chwblhawyd y dyddiau hyfforddiant i gyd.<br><br>Yn dilyn mynegiant o bryder gan yr YH am ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth , penderfynwyd llunio cynllun gweithredu brys er mwyn sicrhau cynnydd yr ysgol tuag at flaenoriaethau'r CDY. Lluniwyd dau gynllun gweithredu ar gyfer Tymor y Gwanwyn ac yna Tymor yr Haf. |
| Cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu brys cytunedig Chwefror-Mawrth 2016 ac Ebrill-Gorffennaf 2016.<br><br>Blaenoriaeth 1 : Codi safonau | Cefnogaeth athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen Môn ar ddarpariaeth yn y dosbarthiadau a chynllunio gweithgareddau cyfoethog . | 29/01/16<br>02/02/16<br>04/02/16<br>14/04/16 | 3 diwrnod | • Mae'r cynnydd yn erbyn y flaenoriaeth hon yn gryf gydag agweddau o gynnydd da iawn.<br>• Cynnydd da o ran ansawdd darpariaeth i ddisgyblion yn y dosbarthiadau<br>• Gweithgareddau ardal tu allan wedi eu cyfoethogi.<br>• Ansawdd cynllunio'r athrawon wedi gwella.<br>• Defnydd mwy cadarn o egwyddorion asesu ar gyfer dysgu yn y |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| addysgu yn y CS. Ffocws ar : gynllunio effeithiol; gweithredu asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol; gwella ansawdd cynnwys llyfrau disgyblion; gwella darpariaeth y dosbarthiadau o ran gweithgareddau i ddisgyblion a gweithrediad y Cyfnod Sylfaen. | Cymorthyddion i ymweld ag ysgol i weld arfer dda.<br><br>2 athrawes i fynychu hyfforddiant gan YH GwE ym maes asesu ar gyfer dysgu a gweld arfer dda yn Ysgol Bro Lleu.<br><br>Cefnogaeth ac arweiniad Partner Cynorthwyol Rhifedd ar wella ansawdd cynllunio. | 13/05/16<br><br>12/02/16<br><br>Medi 2015 ac Ebrill 2016 | 2 ddiwrnod | dosbarthiadau.<br>• Gyda chefnogaeth a derbyn dogfennaeth enghreifftiol, cynlluniau o ansawdd da yn eu lle ar gyfer 2016-17. |
| Blaenoriaeth 2 : Codi safonau dysgu ac addysgu CA2. Ffocws ar : gynllunio effeithiol; gweithredu asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol; gwella ansawdd cynnwys llyfrau disgyblion; gwella darpariaeth yn y dosbarthiadau a sicrhau bod arddangosfeydd yn adlewyrchu a hybu'r dysgu. | YH i roi arweiniad i athrawon CA2 ar gynllunio ac addysgu effeithiol [hyfforddiant ac arweiniad unigol], rhannu arferion da a chynlluniau enghreifftiol. Paratoi cynlluniau ar y cyd<br><br>Cefnogaeth ac arweiniad Partner Cynorthwyol Rhifedd ar wella ansawdd cynllunio | 05/02/16<br>Mai a Mehefin 2016<br><br>04/01/16<br>04/02/16<br>04/03/16<br>23/03/16<br>10/06/16 | 4 diwrnod<br><br>3 diwrnod | • Mae'r cynnydd yn erbyn y flaenoriaeth hon yn gryf.<br>• Nodir bod cryn newid mewn staffio wedi digwydd oherwydd absenoldebau – hyn wedi golygu ail ymweld â rhannau o'r gwaith yn ystod y flwyddyn ac felly oediad mewn gweithredu. Bydd newidiadau pellach yn y staffio eto ym 2016-17.<br>• Safonau cyflawniad disgyblion yn y llyfrau wedi gwella.<br>• Disgyblion mwy abl yn cyflawni gwaith o well ansawdd.<br>• Defnydd o Asesu ar gyfer Dysgu yn fwy cyson.<br>• Gwelliant yn ansawdd y cynllunio ond mae angen sicrhau trefn bendant o gynllunio a sicrhau bod cynlluniau yn eu lle yn brydlon flwyddyn nesaf. Mae angen hefyd datblygu gallu'r ysgol i gynllunio'n effeithiol yn annibynnol – gor-ddibynnol ar gefnogaeth YH ar hyn o bryd. |
| Blaenoriaeth 3 : Sefydlu systemau penodol yn yr ysgol ar gyfer cofnodi ac olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol. Ffocws ar : wella darpariaeth yn y dosbarthiadau; sicrhau bod arddangosfeydd yn adlewyrchu a hybu'r dysgu; olrhain cynnydd disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion yn effeithiol; gwneud defnydd effeithiol, cywir a chyson gan bob aelod staff o INCERTS ; sicrhau bod cofnodion cynnydd o ran data profion safonedig cenedlaethol yn gyfredol; sicrhau cymedroli gwaith disgyblion CA2 yn unol â gofynion statudol | Arweiniad gan bennaeth ysgol gyfagos er mwyn sefydlu systemau ar gyfer olrhain cynnydd a phresenoldeb disgyblion [ar ffurf hyfforddiant staff cyfan, cyfarfodydd gyda'r pennaeth, cefnogaeth i staff unigol].<br><br>Ffocws pennaf ar y defnydd o system Incerts - poblogi'r system fel bod yr wybodaeth am ddisgyblion yn gyfredol ac yna athrawon unigol i wneud defnydd da o'r wybodaeth wrth gynllunio ar gyfer cefnogi ac addysgu disgyblion .<br><br>Rhannu arferion da yr ysgol ei hun.<br><br>Cefnogaeth athro profiadol o ysgol gyfagos i gefnogi cymedroli gwaith CA2 yn unol â gofynion cenedlaethol .<br><br>Cefnogaeth cyn-Bennaeth profiadol i sicrhau diweddaru gwybodaeth a rhoi systemau ar waith | 13/01/16<br>20/01/16<br><br>Mai a Mehefin 2016<br><br>Mehefin 2016 | Comisiynu 6 diwrnod dros 2 dymor<br><br>4 diwrnod | • Cynnydd boddhaol yma - nid yw pob athrawes wedi derbyn cymorth unigol oherwydd absenoldebau.<br>• Arafwch wedi bod yn y gweithredu cychwynnol - absenoldebau wedi effeithio ar hyn.<br>• Cymedroli gwaith disgyblion B6 wedi ei gwblhau'n effeithiol.<br>• Gwybodaeth yn gyfredol bellach ac athrawon yn gwneud defnydd cychwynnol o ddata Incerts i gynllunio ar gyfer disgyblion a llunio adroddiadau blynyddol ar gynnydd disgyblion i rieni.<br>• Mae defnydd effeithiol athrawon o'r wybodaeth am gynnydd disgyblion a'r system olrhain yn parhau'n gyfyngedig ar hyn o bryd.<br>• Mae angen mwy o waith i sicrhau bod systemau cofnodi cynnydd yn cael ei gadw'n gyfredol y flwyddyn nesaf ac y gwneir defnydd da o'r wybodaeth gan athrawon ar lefel dosbarth |
| Blaenoriaeth 4 : Gwella | Comisiynu cyn-Bennaeth profiadol i roi | Chwefror- | Comisiynu 16 diwrnod | • Gyda chefnogaeth sylweddol, mae gan yr ysgol ddarlun mwy eglur o'i |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth. Ffocws ar : sicrhau bod dogfennaeth rheolaethol statudol a threfniadau diogelwch yn eu lle; diweddaru a gwirio AHA yr ysgol; sicrhau gweithredu cynlluniau gweithredu brys; adrodd ar gynnydd yr ysgol yn erbyn y cynllun gweithredu brys yn rheolaidd; datblygu gallu staff i fonitro cynnydd a chynllunio ar gyfer hunan wella; datblygu rolau arweinyddion yn yr ysgol; datblygu rôl llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol i'r ysgol; sicrhau llais cryf i ddisgyblion yn natblygiad yr ysgol; sicrhau ymateb i gonsyrn rhieni. | cefnogaeth i'r Pennaeth Mewn Gofal yn absenoldeb y pennaeth [arweiniad ar faterion rheolaethol eang dros y cyfnod a chydweithio gyda'r YH].<br><br>Cefnogaeth a hyfforddiant gan YH i lunio cynlluniau gweithredu brys a rhoi'r cynlluniau ar waith.<br><br>Monitro gweithrediad y cynlluniau gweithredu brys a chynllunio camau nesaf ymlaen.<br><br>Adrodd i lywodraethwyr a'r awdurdod addysg ar gynnydd<br><br>Cydweithio gyda staff a llywodraethwyr yr ysgol a'r awdurdod addysg er mwyn cynnal yr ysgol mewn cyfnod bregus.<br><br>Datblygu agweddau o arweinyddiaeth, gan gynnwys monitro ac adrodd ar gynnydd er mwyn datblygu cynhwysedd yr ysgol i allu arfarnu ei chynnydd ei hun | Gorffennaf 2016<br><br>Chwefror-Gorffennaf 2016 | dros 2 dymor<br><br>Ionawr–Chwefror 2016 [10 diwrnod]<br><br>Ebrill-Gorffennaf 2016 [12 diwrnod] | chynnydd a'r materion sydd angen gweithrediad pellach.<br>• Mae cynnydd cryf wedi digwydd o ran gweithredu'r camau a nodir yn y cynlluniau gweithredu brys ac wrth sicrhau bod dogfennaeth statudol yn eu lle.<br>• Mae staff wedi cydweithio'n effeithiol mewn cyfnod anodd ac wedi datblygu yn eu gallu i gofnodi cynnydd wrth weithredu'r cynllun gweithredu brys.<br>• Mae'r llywodraethwyr yn llwyr ymwybodol o sefyllfa a safonau'r ysgol, ac yn derbyn gwybodaeth reolaidd gan yr YH a'r pennaeth mewn gofal. Mae angen i fwy o lywodraethwyr chwarae rhan mwy gweithredol mewn monitro cynnydd yr ysgol<br>• Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn rhoi darlun cyfredol o safonau. Mae blaenoriaethau CDY 2016-17 wedi eu pennu.<br>• Mae'r ysgol wedi bod yn ddibynnol ar gefnogaeth sylweddol i wella ansawdd darpariaeth a safonau yn 2015-16<br>• Mae rôl a mewnbwn yr YH wedi cynyddu yn hytrach na lleihau yn ystod y flwyddyn a hynny er mwyn sicrhau bod gwelliannau i'w gweld yn yr ysgol.<br>• Mae absenoldebau staff wedi golygu cryn ansefydlogrwydd yn y dosbarthiadau a chryn newid yn arweinyddiaeth yr ysgol yn ystod y flwyddyn.<br>• Mae angen parhau i gefnogi'r ysgol i wella ei gallu/aeddfedrwydd i fonitro a chofnodi ei chynnydd ei hun. Nid yw eto wedi dangos ei gallu i wneud hyn yn annibynnol. |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol B | | | |
| **Categori Cefnogaeth** | Melyngoch | | | |
| **Categori Estyn** | Monitro Estyn | | | |
| Cyfanswm cefnogaeth uniongyrchol a ddarparwyd neu gomisiynwyd 2015-16 : 30 diwrnod | | | | |
| **Blaenoriaethau/Meysydd Gwella** | **Cefnogaeth a ddarparwyd a/neu comisiynwyd gan GwE** | **Amserlen y gweithredu** | **Cyfanswm nifer dyddiau cefnogaeth [YH + eraill]** | **Gwelliannau a welwyd mewn :**<br>• **Arweinyddiaeth**<br>• **Dysgu ac Addysgu**<br>• **Deilliannau i ddysgwyr** |
| Paratoadau cyn arolygiad : arolygiad Medi 2015. Cyhoeddwyd yr adroddiad Tachwedd 2015 | Cefnogaeth cyn arolwg gan yr YH i wirio ansawdd dogfennaeth ac i baratoi staff a llywodraethwyr<br><br>Cefnogaeth 2 YH i gynghori staff ac i'w paratoi ar gyfer arolygiad. | Medi 2015<br><br>15-09-15 | 3 diwrnod | • Arolygiad Estyn Medi 2015 yn nodi bod safonau ac addysgu yn dda ond yr arweinyddiaeth a gallu'r ysgol i wella yn ddigonol. Hyn yn ganlyniad disgwyliedig i'r ysgol ac yn welliant ar beth fyddai canfyddiadau wedi bod flwyddyn ynghynt pan oedd y gallu i wella yn anfoddhaol. Gosodwyd yr ysgol mewn categori Monitro Estyn a'r argymhellion felly yn ffocws i weithredu 2015-16. |
| | Cefnogaeth YH i lunio cynllun gweithredu ôl arolwg. | 21/10/16<br>02/11/15<br>20/11/15<br>25/11/15 | 2 ddiwrnod | • Cynllun gweithredu effeithiol yn ei le sydd yn cyplysu argymhellion Estyn a blaenoriaethau Cynllun Datblygu'r Ysgol |
| Gweithredu ôl Arolwg.<br><br>Argymhelliad 1 : sicrhau bod cynlluniau manwl yn CA2 ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion yn unol â'u gallu | Cefnogaeth ac arweiniad Partner Cynorthwyol Rhifedd ar wella ansawdd cynllunio ac arweiniad ar addysgu rhifedd i ddisgyblion mwy abl. Cyflwyniad i adnoddau a fframweithiau cynllunio<br><br>Ymweliad gan Bartner Cynorthwyol Rhifedd y Cyfnod Sylfaen i wirio ansawdd cynlluniau a chynnig arweiniad.<br><br>Cydlynydd Rhifedd wedi dilyn hyfforddiant GwE i arweinwyr canol i'w arfogi i arwain ym maes Rhifedd. | 07/09/15<br>11/09/15<br>27/11/15<br>15/04/1<br><br>Mehefin 2016<br><br>Medi 2015–Mai 2016 | 3 diwrnod<br><br>Hyfforddiant<br>3 diwrnod | • Safon cynllunio tymor canolig a hwy rhifedd o ansawdd da iawn .<br>• Cynlluniau tymor byr yr ysgol gyfan hefyd bellach o ansawdd cadarn iawn ac yn rhoi sylw da i wahaniaethu..<br>• Effaith y cynllunio i'w weld yn glir yn natur y profiadau rhif a welir yn y dosbarthiadau ac yn llyfrau gwaith y disgyblion.<br>• Ar gais yr YH, athrawon CA2 wedi rhannu eu harferion da o ran cynllunio ac ansawdd darpariaeth a safonau gydag athrawon ysgolion eraill.<br>• Er mai argymhelliad ar gyfer CA2 sydd yma, gwelir datblygiadau effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen hefyd.<br>• Data diwedd 2016 yn dangos bod disgyblion CA2 wedi cyflawni'n dda ar Lefel 4 a Lefel 5 mewn Rhifedd<br>• Safonau cyflawniad disgyblion yn y llyfrau Rhifedd ar draws y cwricwlwm yn dda, gan gynnwys y disgyblion mwy abl. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Argymhelliad 2 : Sicrhau bod yr addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2 yn ymateb yn llawn i anghenion disgyblion mwy abl. | Cefnogaeth ac arweiniad Partner Cynorthwyol Rhifedd ar well ansawdd cynllunio ac arweiniad ar addysgu Rhifedd i ddisgyblion mwy abl. Cyflwyniad i adnoddau a fframweithiau cynllunio.<br><br>Cynhaliaeth/arweiniad i'r cydlynydd MATh a'r llywodraethwr â chyfrifoldeb am MATh ar addasu polisi'r ysgol, ar arwain a datblygu arbenigeddau staff yn y maes ac ar olrhain cynnydd disgyblion MATh yr ysgol drwy ddefnydd o ddata, monitro llyfrau a gwersi a llunio adroddiadau cynnydd. | Medi 2015<br><br>Mai 2016<br>04/02/16<br>14/04/16 | Gweler cefnogaeth PC.<br><br>1.5 diwrnod | • Rôl y cydlynydd MATh wedi datblygu'n dda, cynnydd mewn hyder ac arbenigedd wrth fonitro cyflawniad disgyblion MATh ac adrodd ar hynny i staff a llywodraethwyr.<br>• Cofrestr MATh a systemau effeithiol i olrhain eu cynnydd yn eu lle.<br>• Holl staff yr ysgol yn gwybod yn dda am anghenion a chynnydd y disgyblion MATh a'r cydlynydd yn arwain yn gadarn ar ddatblygiadau.<br>• Ansawdd yr addysgu yn sicrhau lefel her effeithiol i ddisgyblion MATh yn y gwersi - tystiolaeth yn llyfrau'r disgyblion yn gadarn iawn.<br>• Safon y gwaith a gyflawnir gan ddisgyblion MATh drwy'r ysgol yn dda gydag agweddau rhagorol.<br>• Data disgyblion ar ddiwedd y CS ac ar ddiwedd CA2 Haf 2016 yn gadarn gyda disgyblion MATh yn cyflawni'n dda ar y lefelau uwch. Mae dadansoddiadau cynnar o'r profion cenedlaethol hefyd yn dangos cynnydd da.<br>• Ysgol gyfan wedi ymateb yn gadarn a darpariaeth ar gyfer disgyblion MATh drwy'r ysgol yn gadarn dda. |
| Argymhelliad 3 : Miniogi adborth athrawon ar waith disgyblion i fod yn fwy penodol ar gyfer gwelliant. | YH wedi cydweithio gyda staff i wella asesu ar gyfer dysgu.<br><br>2 aelod staff wedi derbyn hyfforddiant mewn ysgol gyfagos ym maes AaGD - comisiynwyd gan GwE<br><br>2 aelod staff wedi mynychu hyfforddiant gan GwE a gweld arfer dda mewn ysgol yng Ngwynedd<br><br>Ymweliad cefnogol PC Llythrennedd GwE - ysgrifennu ac adborth | 16/11/16<br><br>21/10/15<br><br>12/02/16<br><br>22/06/16 | 2 diwrnod<br><br>1 diwrnod<br><br>1 diwrnod<br><br>0.5 diwrnod | • Mae datblygiadau sylweddol drwy'r ysgol yn y defnydd o egwyddorion asesu ar gyfer dysgu. Hyn wedi codi ansawdd addysgu i safon cyson dda, gydag agweddau da iawn.<br>• Polisi adborth diwygiedig yr ysgol yn weithredol i safon gyson dda.<br>• Cysondeb a datblygiad da yn ansawdd yr adborth a chyfleoedd da i ddisgyblion ymateb i'r adborth drwy wella a golygu eu gwaith.<br>• Ansawdd adborth ysgrifenedig ar draws yr ysgol yn dda iawn ac yn adlewyrchu'r berthynas waith rhwng athrawon a'u disgyblion.<br>• Yr adborth yn gosod her dda er mwyn sicrhau bod gwella ansawdd gwaith yn digwydd.<br>• Yn yr arferion rhagorol, mae'r adborth yn cynnig sylwadau i ymestyn a herio gan fodelu iaith raenus er mwyn codi lefel y disgybl ymhellach. Hefyd ceir cwestiynau perthnasol yn cyfeirio at yr union agweddau i'w gwella. |
| Argymhelliad 4 : Gwella rôl strategol arweinwyr yr ysgol ar bob lefel i fod yn fwy atebol am safonau. | Arweiniad i staff unigol yn eu rolau fel arweinwyr yn yr ysgol, cydweithio i graffu ar lyfrau, defnyddio data i olrhain cynnydd, llunio adroddiadau ar gynnydd, adrodd i lywodraethwyr | 13/11/15<br>14/11/15<br>06/01/16<br>23/06/16 | 2 ddiwrnod + dyddiadau MCGOA isod) | • Holl staff yn cyflawni eu cyfrifoldebau arweiniol yn effeithiol iawn. Maent bellach yn monitro safonau a darpariaeth yn eu meysydd o gyfrifoldeb yn rheolaidd, yn adrodd ar gynnydd, yn arwain staff, ac yn cyflwyno gwybodaeth i'r corf llywodraethol yn hyderus .<br>• Hyder arweinwyr unigol wedi datblygu'n sylweddol mewn amser byr.<br>• Yn eu meysydd gorchwyl, mae gan arweinwyr adnabyddiaeth gref o safonau ac o agweddau sydd angen datblygiad pellach.<br>• Ar gais yr YH, mae arweinwyr rhifedd, arweinwyr y Cyfnod Sylfaen a hefyd cymorthyddion yr ysgol wedi rhannu eu harferion da o ran cynllunio ac ansawdd darpariaeth a safonau gydag athrawon ysgolion eraill. Mae hyn yn dystiolaeth o ansawdd gadarn iawn y gwaith a ddigwydd yn yr ysgol. |
| Argymhelliad 5 Sicrhau bod gweithdrefnau monitro'n effeithiol a bod arweinwyr yr ysgol yn gweithredu ar ddadansoddiadau deilliannau monitro er mwyn cynllunio ar gyfer gwelliant. | Pennaeth a Dirprwy Bennaeth wedi mynychu cyfres hyfforddiant GwE ym maes hunan arfarnu.<br><br>YH yn cydweithio gydag aelodau o staff a llywodraethwyr ar fonitro eu | 22/10/15<br>15/11/15<br>25/11/15<br><br>12/01/16<br>19/01/16 | 2 ddiwrnod<br><br>2.5 diwrnod | • Arweinwyr yn llunio adroddiadau o ansawdd cyffredinol dda yn annibynnol gan ddod i farn gywir ar ansawdd ac yn gallu nodi materion ar gyfer gwelliant pellach. Mae'r adroddiadau'n adlewyrchu dealltwriaeth dda'r arweinwyr o'u meysydd o gyfrifoldeb.<br>• Gwna'r arweinwyr hefyd ddefnydd da o ddata er mwyn olrhain cynnydd disgyblion ac i fesur effaith gweithredu blaenoriaethau'r ysgol ar safonau.<br>• Mae'r gweithgareddau monitro yn digwydd yn rheolaidd yn unol ag amserlen |

Tudalen 93

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | meysydd o gyfrifoldeb, llunio adroddiadau a chyflwyno adroddiadau mewn cyfarfodydd staff/ llywodraethwyr | 04/02/16<br>02/03/16<br>14/04/16<br>23/05/16 | | yr ysgol.<br>• Mae’r arweinwyr wedi adnabod blaenoriaethau ar gyfer CDY 2016-17 gan gychwyn eu drafftio.<br>• Mae’r gwaith o ddiweddaru’r AHA yn mynd rhagddo’n effeithiol ond angen diweddaru ymhellach yn dilyn derbyn data 2016<br>• Mae gan staff yr ysgol adnabyddiaeth dda iawn o ansawdd safonau a darpariaeth ac mae synnwyr clir o gyfeiriad. |
| Cefnogi a monitro gweithrediad y Cynllun Gweithred u ôl arolwg | Cefnogaeth YH i lunio cynllun gweithredu, cydweithio a rhoi arweiniad i’r Dirprwy Bennaeth ar arwain a monitro cynnydd ac ar sicrhau atebolrwydd mewn unigolion am weithredu .<br><br>Ymweliadau monitro cynnydd gan ddau YH. Monitro gydag aelodau staff, aelodau o'r corff llywodraethol ac adrodd yn ôl i staff a llywodraethwyr | 12/10/15<br>19/01/16<br>04/02/16<br>02/03/16<br>10/06/16<br><br>10/02/16<br>23/06/16 | 2.5 diwrnod<br><br>4 diwrnod | • Darlun clir gan yr ysgol o’u cynnydd a materion sydd angen gweithrediad pellach.<br>• Yr ysgol wedi gwneud cynnydd cryf neu well yn erbyn argymhellion Estyn.<br>• Mae’r drefn o gyfarfodydd staff cyson gyda ffocws ar adolygu cynnydd gweithredu ôl arolwg yn parhau. Mae rôl a mewnbwn yr YH wedi lleihau dros amser gyda’r ysgol bellach yn monitro a chofnodi ei chynnydd ei hun yn effeithiol. |



| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol C |
| **Categori Cefnogaeth** | Coch |
| **Categori Estyn** | Mesurau Arbennig (*wedi dod allan o’r categori 08/06/16*) |

Cyfanswm cefnogaeth uniongyrchol a ddarparwyd neu gomisiynwyd = 87 diwrnod tros y cyfnod 01/03/15 - 30/07/16

| **Blaenoriaethau/ Meysydd Gwella** | **Cefnogaeth a ddarparwyd a/neu comisiynwyd gan GwE** | **Amserlen y gweithredu** | **Cyfanswm nifer dyddiau cefnogaeth [YH + eraill]** | **Gwelliannau a welwyd mewn :**<br>• **Arweinyddiaeth**<br>• **Dysgu ac Addysgu**<br>• **Deilliannau i ddysgwyr** |
|---|---|---|---|---|
| Argymhelliad 1: Gwella medrau rhifedd disgyblion yn CA2 | Cefnogaeth ac arweiniad YH/Partneriaid Cynorthwyol i gynllunio er mwyn sicrhau fod profiadau Rhifedd cyfoethog wedi eu hymgorffori ar draws ystod y meysydd dysgu.<br><br>Ymweliadau monitro a chraffu ar lyfrau a chynlluniau ar y cyd gyda YH/PC. Monitro'r dysgu a’r addysgu ar y cyd. Yn dilyn pob ymweliad, camau gweithredu a dulliau monitro wedi eu hamlygu. | Ebrill 2015-<br>Mai 2016 | 10 diwrnod o gefnogaeth gan YH/PC.<br><br>2 ddiwrnod o gyd-weithio gydag ysgol gyfagos.<br><br>3 diwrnod o amser YH yn craffu ar lyfrau/arsylwi gwersi | Trosiant staff yn gwneud y cynnydd yn araf iawn ar y cychwyn. Erbyn Hydref 2015 y staff wedi adnabod cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio’u medrau rhifedd mewn pynciau eraill ond medrau datrys problemau, ffracsiynau, canrannau, arwynebedd a chyfaint yn parhau i fod yn isel.<br><br>Tachwedd 2015 - canlyniadau profion mewnol NFER yn dangos bod disgyblion y CS yn gwneud cynnydd cyflym iawn ond gwaith pellach i’w wneud yn CA2.<br><br>Cynnydd amlwg yn safonau CA2 o mis Ionawr 2016 ymlaen<br><br>O Chwefror ymlaen gwelwyd cynnydd mewn yng ngallu dysgwyr i ddefnyddio’r medrau rhif yn draws gwricwlaidd.<br><br>Erbyn mis Mawrth yr ysgol yn ymdrechu i ddatblygu hyder y disgyblion er mwyn bod yn fwy annibynnol ac i greu mwy o swmp gwaith. Safonau o fewn y Cyfnod Sylfaen yn parhau i fod yn uchel a thargedau’r garfan yn anelu at 100% D6+ mewn Datblygiad Rhif. Gwelliant hefyd o ran safonau CA2. |
| Argymhelliad 2 : Codi safonau ysgrifennu estynedig | Cefnogaeth ac arweiniad YH/Partneriaid Cynorthwyol i | Ebrill 2015- | 6 diwrnod o gefnogaeth gan YH/PC | Hydref 2015 - yn gyffredinol, dim digon o gynnydd o ran datblygu medrau ysgrifennu estynedig gan lawer o ddisgyblion CA2. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| y disgyblion | gynllunio er mwyn sicrhau fod profiadau Llythrennedd cyfoethog wedi eu hymgorffori ar draws ystod y meysydd dysgu.<br><br>Ymweliadau monitro a chraffu ar lyfrau a chynlluniau ar y cyd gyda YH/PC.Monitro'r dysgu a'r addysgu ar y cyd.Yn dilyn pob ymweliad, camau gweithredu a dulliau monitro wedi eu hamlygu | Mai 2016 | 3 diwrnod o gyd-weithio gydag ysgol gyfagos.<br><br>2 ddiwrnod o amser YH yn craffu ar lyfrau/arsylwi gwersi | Rhagfyr 2015 - tystiolaeth ar gael o'r newid mewn swmp gwaith a hefyd safon yr hyn a gynhyrchir. Effaith y gweithdrefnau yn amlwg gyda chyfleoedd gwell i ysgrifennu yn estynedig ac yn annibynnol o fewn y cynllunio.<br><br>Mawrth 2016 - medrau llythrennedd llawer o'r disgyblion yn datblygu'n addas,<br><br>Mehefin 2016 - dysgwyr yn dechrau cymhwyso'r wybodaeth a'r cysyniadau yn fwy cyson ar draws y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth yn awr yn fwy perthnasol i anghenion carfannau gwahanol o ddisgyblion o fewn y dosbarth. Safonau ysgrifennu estynedig disgyblion CA2 wedi gwella'n sylweddol gyda disgyblion B5/6 nawr yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig. |
| Argymhelliad 3: Gwella gallu'r disgyblion i weithio'n annibynnol. | Swyddog Hyfforddi a Chefnogi'r Cyfnod Sylfaen yn cyd-weithio ar gynllunio cyfleoedd addas i ddisgyblion weithio'n annibynnol.<br><br>Ymweliadau monitro a chraffu ar lyfrau a chynlluniau ar y cyd gyda'r YH. Monitro'r dysgu a'r addysgu ar y cyd. Yn dilyn pob ymweliad, camau gweithredu a dulliau monitro wedi eu hamlygu | Rhagfyr 2015-<br>Mai 2016 | 3 diwrnod Swyddog CS Môn.<br><br>2 ddiwrnod o amser YH yn craffu ar lyfrau/arsylwi gwersi a mynychu cyfarfod o'r Cyngor Ysgol. | Medi 2015 - yr ysgol yn dechrau datblygu llais y disgybl yn briodol trwy ddatblygu rôl y cyngor ysgol. Mae'r disgyblion yn dechrau derbyn cyfleoedd i feithrin annibyniaeth trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau addas.<br>Er bod y defnydd o daflenni gwaith wedi lleihau'n sylweddol, nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn derbyn cyfleoedd addas i ddatblygu medrau dysgu annibynnol o fewn y dosbarth. O ganlyniad, mae disgyblion yn or-ddibynnol ar gefnogaeth staff yn eu dysgu.<br><br>Mawrth 2016 – y disgyblion yn cyfrannu'n briodol at gynllunio themâu ar ddechrau'r tymor trwy gynnig syniadau gwerthfawr. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn dechrau gwneud penderfyniadau dros beth, a sut, y maent yn dysgu. Mae disgyblion CA2 yn dechrau llunio meini prawf llwyddiant eu hunain. Maent hefyd yn gosod targedau llythrennedd a rhifedd eu hunain, sydd yn datblygu eu hannibyniaeth yn briodol. Fodd bynnag, nid yw gallu'r disgyblion i asesu eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu cyfoedion er mwyn codi safonau wedi datblygu'n llawn.<br><br>Mehefin 2016 - gwaith yn mynd rhagddo bellach i addysgu'r disgyblion i weithio o fewn yr ardaloedd i bwrpas ac yn fwy annibynnol ar dasgau rhif a llythrennedd. Yr athrawes CA2 yn defnyddio matiau mathemateg ac yn rhoi 10 munud o ymarferion maths pen dyddiol i'r holl ddisgyblion. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol i gadw cyflymder gwers a magu sgiliau annibynnol i ymwneud a gweithgareddau rhifedd o fewn problemau rhif trawsgwricwlaidd. |
| Argymhelliad 4 : Sicrhau bod dilyniant a pharhad yn y cynllunio ar gyfer datblygu'r medrau | Swyddogion HwB yn hyfforddi a chefnogi'r staff ar gynllunio cyfleoedd addas TGCh i ddisgyblion.<br><br>Ymweliadau monitro a chraffu ar lyfrau a chynlluniau ar y cyd gyda YH. Yn dilyn pob ymweliad – camau gweithredu a dulliau monitro wedi eu hamlygu | Ebrill 2015-<br>Mai 2016 | 5 diwrnod o amser YH yn craffu ar lyfrau/arsylwi gwersi<br><br>3 diwrnod o gymorth gan swyddogion Hwb i hyrwyddo TGCh ar draws yr ysgol | Gorffennaf 2015 - yr ysgol yn dechrau ar y gwaith o gynllunio ar gyfer cyflwyno agweddau penodol o'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd. Nid oedd y cynllunio'n ddigon bwriadus ar gyfer sicrhau dilyniant yn y medrau ar draws ystod y pynciau na'r meysydd dysgu. O ganlyniad, nid oedd y ddarpariaeth yn sicrhau bod disgyblion yn derbyn cyfleodd digon cyson i gaffael eu medrau<br><br>Hydref 2015 - yr ysgol yn cyflwyno trefniadau cynllunio effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Y cynlluniau hyn yn addas ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r medrau yn bodloni anghenion llawer o'r disgyblion. Nid oedd hyn wedi eu gwreiddio'n llwyr eto yng ngwaith yr athrawon.<br><br>Mawrth 2016 - Cynlluniau tymor hir a chanolig yn dangos bod athrawon wedi |

Tudalen 95

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | mapio'r medrau'n briodol ac yn sicrhau dilyniant a pharhad o un flwyddyn ysgol i'r nesaf. Cyfleoedd addas hefyd i ddatblygu medrau disgyblion mewn gwersi iaith a mathemateg. Bellach, yr ysgol yn cynllunio cyfleoedd addas i ddisgyblion gaffael y medrau hyn yn fwy rheolaidd ar draws meysydd y cwricwlwm. Dim digon o gyswllt rhwng medrau ysgrifennu mae disgyblion yn eu caffael mewn gwersi iaith a'r medrau a ddatblygir ar draws y cwricwlwm. |
| Argymhelliad 5 : Gwella'r addysgu er mwyn sicrhau her briodol i bob disgybl | Cefnogaeth ac arweiniad YH/Partneriaid Cynorthwyol i gynllunio er mwyn sicrhau fod profiadau Rhifedd a Llythrennedd cyfoethog wedi eu hymgorffori ar draws ystod y meysydd dysgu.<br><br>Ymweliadau monitro a chraffu ar lyfrau a chynlluniau ar y cyd gyda YH. Monitro'r dysgu a'r addysgu ar y cyd. Yn dilyn pob ymweliad, camau gweithredu a dulliau monitro wedi eu hamlygu. | Ebrill 2015-<br>Mai 2016 | 3 diwrnod Swyddog CS Môn.<br><br>5 diwrnod o amser YH yn craffu ar lyfrau/arsylwi gwersi | Ebrill 2015 - safon yr addysgu yn anghyson ar draws yr ysgol, disgwyliadau athrawon yn amrywio, gyda'r llai effeithiol yn meddu ar ddisgwyliadau sy'n rhy isel. Gorddefnydd o daflenni gwaith parod yn llesteirio gallu'r disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Nid oedd y tasgau yn ddigon heriol i gwrdd ag anghenion lleiafrif sylweddol o ddisgyblion, yn arbennig y rhai uchel eu gallu. Safon y marcio yn anghyson ac nid oedd yr adborth a roddir i ddisgyblion bob amser yn gysylltiedig â'u cynnydd yng nghyd-destun y meini prawf llwyddiant<br><br>Hydref 2015 – yr athrawon yn sicrhau profiadau a gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn dechrau sicrhau bod dilyniant pendant rhwng y gwersi. Yr ysgol yn defnyddio profion safonol ac asesiadau athrawon yn briodol wrth ddadansoddi perfformiad y disgyblion.<br>Mawrth 2016 - athrawon yn cynllunio gwersi sy'n cynnwys amcanion clir a meini prawf llwyddiant addas, yn darparu gwaith mwy ymestynnol i'r disgyblion sydd, ar y cyfan, yn ymateb yn fwy addas i'w gallu. Mae hyn yn dechrau cael effaith ar safonau cyrhaeddiad nifer o'r disgyblion.<br><br>Mehefin 2016 - adroddiadau monitro'r pennaeth strategol ac YH yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella o ran yr addysgu yn dda. Athrawon nawr yn gwneud defnydd gwerthfawr o'r dystiolaeth hunan arfarnu, gan gynnwys craffu ar lyfrau, monitro gwersi a rheoli perfformiad, er mwyn gwella'r addysgu. |
| Argymhelliad 6 : Datblygu rôl y llywodraethwyr fel arweinwyr strategol | Cefnogaeth ac arweiniad gan ddau YH i uwch-sgilio holl aelodau o'r corff llywodraethu i fod yn ffrind beirniadol ac i herio penderfyniadau'r Pennaeth a'r UDRh. | Mawrth 2015<br>Gorffen 2016 | 15 diwrnod YH. | Mawrth 2015 - Cadeirydd ag Is-gadeirydd newydd dros dro yn cael eu hethol ac yn ymateb yn hynod bositif i'r sefyllfa heriol a oedd yn wynebu'r ysgol.<br><br>Gorff 2015 – yr ysgol a GwE yn adnabod gweithgareddau priodol yn y cynllun gwella ôl-arolygiad er mwyn cefnogi'r gwaith sydd ei angen i gwrdd â'r argymhelliad.<br><br>Hydref 2015 – ychydig o lywodraethwyr wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant penodol, hyn wedi sicrhau bod ganddynt ymwybyddiaeth well o'u dyletswyddau fel arweinwyr yr ysgol. Bellach, cyfrifoldebau penodol gan y llywodraethwyr ac is-bwyllgorau wedi eu sefydlu. Y Pennaeth yn sefydlu amserlen fonitro ffurfiol i'r llywodraethwr a'r aelodau yn cychwyn cael eu cynnwys yn y broses o arfarnu gwaith yr ysgol. Maent yn craffu ar lyfrau gan ganolbwyntio'n benodol ar safonau llythrennedd a rhifedd. Mae'r gwaith monitro yn sicrhau bod eu dealltwriaeth o gryfderau'r ysgol a meysydd sydd angen eu gwella yn datblygu'n addas. Nid yw'r llywodraethwyr eto yn gweithredu'n ddigon strategol ar y deilliannau monitro er mwyn herio perfformiad yr ysgol ac i gynllunio'n fwriadus ar gyfer gwelliant.<br><br>Mawrth 2016 – arbenigedd yr aelodau unigol yn datblygu'n raddol ac yn dechrau holi'r pennaeth strategol ynglŷn â pherfformiad yr ysgol. Maent yn |

Tudalen 96

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | arfarnu gwaith yr ysgol yn addas, drwy graffu ar lyfrau disgyblion, ac yn fwy diweddar wrth arsylwi gwersi. Y llywodraethwyr wedi cychwyn defnyddio deilliannau o'r gweithgareddau monitro er mwyn herio perfformiad yr ysgol ac i gynllunio'n fwriadus ar gyfer gwelliant. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth fwy cadarn o rai agweddau penodol, er enghraifft y strategaethau asesu ar gyfer dysgu a safonau ysgrifennu a rhifedd y disgyblion.<br><br>Mehefin 2016 - corff llawn yr ysgol a'r is-bwyllgorau bellach yn gweithredu'n llawer mwy effeithiol ac ymdeimlad o weithio tîm yn dilyn newid aelodaeth a rhannu dyletswyddau. Cedwir cofnodion manwl o'r cyfarfodydd hyn, gwaith wedi ei wneud i uwchsgilio'r clerc hefyd. Y Cadeirydd bellach yn arwain o fewn cyfarfodydd er mwyn sicrhau fod y Llywodraethwyr yn weithredol yn hytrach na derbyn gwybodaeth yn unig. Mae'n ymweld â'r ysgol yn rheolaidd er mwyn cadw'n gyfredol a chefnogi'r Pennaeth yn y penderfyniadau wneir. Mae gan y llywodraethwyr erbyn hyn ddealltwriaeth llawer gwell o safonau o fewn dosbarthiadau. Maent yn ymwybodol o'r drefn o werthuso safonau, o ddadansoddi data ac o graffu ar waith. Maent wedi derbyn rolau gweithredol o fewn y prosesau hyn sy'n sicrhau fod ganddynt ddigon o wybodaeth a dealltwriaeth gefndirol er mwyn gallu herio'r ysgol yn hyderus. |
| Argymhelliad 7 : Sicrhau bod blaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol yn cael eu monitro'n effeithiol | Ymweliadau monitro a chraffu ar lyfrau a chynlluniau ar y cyd gyda YH. Monitro blaenoriaethau'r CGOA yn gyson. Yn dilyn pob ymweliad, camau gweithredu a dulliau monitro wedi eu hamlygu. | Ebrill 2015-Mehefin 2016 | 16 diwrnod o amser YH | Mehefin 2015 - y CGOA a'r gweithgareddau yn cael eu derbyn gan Estyn. Gwaith pellach i'w wneud er mwyn cryfhau gweithgareddau sydd ynghlwm â sicrhau bod y monitro yn canolbwyntio yn glir ar y deilliannau disgwyliedig ac yn cyfeirio at y ffynonellau tystiolaeth briodol. Angen cryfhau'r elfen o fonitro cynnydd yn erbyn amserlen resymol, fel y gall yr ysgol sicrhau bod gwelliannau yn digwydd yn brydlon o fewn terfynau amser realistig. Yr ysgol eisoes wedi cychwyn ar y daith o amlygu hyn mewn dogfennau ar wahân i'r cynllun gwella ôl-arolygiad.<br><br>Hydref 2015 – yr ysgol wedi sefydlu amserlen bwrpasol sy'n canolbwyntio'n briodol ar fonitro blaenoriaethau'r cynllun gwella ôl arolygiad. Y pennaeth yn dechrau monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu'r cynllun gan gyfeirio at y meini prawf llwyddiant yn gyson ac yn gwneud defnydd da o dystiolaeth uniongyrchol gan gynnwys data, arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau'n rheolaidd. Yr ymweliadau monitro gan swyddogion yr awdurdod lleol yn cefnogi'r broses ac yn cynnig barn allanol gwerthfawr. Cyfarfodydd staff, dan arweiniad strategol y pennaeth, yn rhoi ffocws priodol ar godi safonau ac yn canolbwyntio'n dda ar y cynllun gwella. O ganlyniad, mae'r athrawon yn cychwyn rhannu'r gwaith o weithredu'r camau ar gyfer gwelliant ac yn dechrau ysgrifennu adroddiadau byr ar gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau. Y Llywodraethwyr hefyd yn dechrau cyfarwyddo gyda'r broses monitro. Yn dilyn cymorth GwE a'r pennaeth, mae'r is-bwyllgor safonau yn dechrau derbyn gwybodaeth am berfformiad yr ysgol ac yn ymgymryd â gweithgareddau craffu ar lyfrau. Nid ydynt mewn sefyllfa ar hyn o bryd i wir herio'r ysgol ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun ôl arolygiad.<br><br>Mawrth 2016 - y pennaeth strategol a'r is-banel safonau yn monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu'r cynllun yn rheolaidd, gan gyfeirio at y meini prawf llwyddiant yn synhwyrol. Maent yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol yn dda, |

Tudalen 97

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gan gynnwys data, arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau'n rheolaidd. Yr ymweliadau monitro gan GwE yn cefnogi'r broses ac yn cynnig barn allanol werthfawr. Yn rhy fuan i arfarnu effaith lleiafrif o'r camau a gymerwyd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun ôl arolygiad ar safonau disgyblion. Rôl yr athrawon i weithredu'r camau ar gyfer gwelliant ac ysgrifennu adroddiadau byr ar gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn datblygu'n raddol.<br><br>Mehefin 2016 - staff yr ysgol yn ymwybodol o'r angen i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd y CGOA ac maent yn gweithio'n ddiwyd i gadw at yr amserlen fanwl a osodwyd. Maent yn cynhyrchu adroddiadau gaiff eu cyflwyno i'r llywodraethwyr. Ceir tystiolaeth o ddwyster y monitro o fewn cofnodion cyfarfodydd staff a chyfarfodydd y Llywodraethwyr. |
| Argymhelliad 8 : Sicrhau bod yr ysgol yn bodloni gofynion statudol o ran mynd i'r afael â baich gwaith athrawon | Swyddogion Addysg yr Awdurdod yn delio gyda'r mater yma yn syth ac yn sicrhau bod yr ysgol yn bodloni gofynion statudol o ran mynd i'r afael â baich gwaith athrawon ynghyd a gweithredu'r cynllun adfer priodol i ddelio a'r gorwariant. | Mawrth 2015<br>Medi 2016 | 9 diwrnod o amser swyddogion. | Gorffennaf 2015 – yr ysgol a'r awdurdod wedi adnabod gweithgareddau priodol yn y cynllun gwella ôl-arolygiad er mwyn cefnogi'r gwaith sydd ei angen i gwrdd â'r argymhelliad.<br><br>Hydref 2015 – y pennaeth wedi sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer rheoli baich gwaith athrawon sydd yn bodloni gofynion statudol ac yn cynnwys amser digyswllt rheolaidd er mwyn iddynt gynllunio a pharatoi gwersi yn ogystal â marcio ac asesu gwaith y disgyblion. Athrawon yn defnyddio amser digyswllt yn effeithiol. Y pennaeth wedi sefydlu prosesau priodol ar gyfer rheoli perfformiad. Erbyn Mawrth 2016 roedd cynnydd cryf yn erbyn yr argymhelliad yma. |

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cadeirydd: Y Cynghorydd Derlwyn Hughes
Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Alun Mummery

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio o Mai 2016 at Mai 2017. Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk



## PWRPAS YCHWANEGU'R EITEM AR RAGLEN Y PWYLLGOR SGRIWTINI:

- Trawsnewid Gwasanaethau- Llyfrgelloedd ac Ieuenctid
- Monitro Perfformiad, Cyllideb a Partneriaethau
- Pre-decision Scrutiny/ Sgriwtini cyn penderfyniad
- Datblygu Polisi / Ymgynghoriadau
- Cais gan Pwyllgor / Aelod

## PANELI CANLYNIAD SGRIWTINI

(1) Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion (yn parhau)
(2) Sgriwtini ar y Cyd o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (yn parhau)

140916V10



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad / Amser Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **12 Mai 2016** | Ethol Cadeirydd Pwyllgor | Penodi Cadeirydd | Ystafell Pwyllgor 1 / 3.30 yh |
| | Ethol Is-Gadeirydd y Pwyllgor | Penodi Is-Gadeirydd | |
| | | | |
| **13 Mai 2016** | Safleoedd Sispsiwns a Theithwyr | Sgriwtini cyn penderfyniad | Siambr y Cyngor /3.30 yh |
| | | | |
| **19 Gorffennaf 2016** | Safleoedd Sispsiwn a Theithwyr dros dro | Sgriwtini cyn penderfyniad | Siambr y Cyngor / 2 yh |
| | Strategaeth Iaith Gymraeg | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Datblygu sgriwtini o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Perfformiad partneriaeth | |
| | | | |
| **26 Medi 2016** | Protocol Gogledd Cymru ar gyfer y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr | Datblygu Polisi | Ystafell Pwyllgor 1 / 2 yh |
| | Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Perfformiad partneriaeth | |
| | Dysgu o wella ysgolion. Herio a'r gefnogaeth a ddarperir i ysgolion, gan ganolbwyntio ar y rhai oren a choch yn y categori fframwaith perfformiad cenedlaethol. | Perfformiad partneriaeth | |
| | | | |
| **22 Tachwedd 2016** | Cydweithio rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ynys Môn.(dyddiad i'w gadarnhau) | Perfformiad partneriaeth | Siambr y Cyngor / 2 yh |
| | Trawsnewid Gwasanaethau Ieuenctid | Trawsnewid | |
| | | | |



140916V10

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad / Amser Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **16 Chwefror 2017** | Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion | Monitro perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2 yh |
| | Allanoli – Cyfleusterau Cyhoeddus | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Perfformiad partneriaeth | |
| | | | |
| **20 Ebrill 2017** | Partneriaeth Cymunedau Gyntaf | Monitro perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2 yh |
| | Galw Gofal- Partneriaeth rhwng Cynghorau Gogledd Cymru | Perfformiad partneriaeth | |
| | Casglu Gwastraff Cartref - diweddariad ar gasglu gwastraff pob 3 wythnos | Monitro perfformiad | |
| | Lleoedd Llewyrchus, Llawn Addewid | Perfformiad Partneriaeth | |
| | Adolygiad o sut mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn monitro Partneriaethau Allweddol Strategol | Perfformiad Partneriaeth | |
| | | | |

I'w gadarnhau:

- Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru
- Trawsnewid Gwasanaethau Diwylliant
- Trawsnewid Gwasanaethau Llyfrgelloedd



140916V10

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

This page is intentionally left blank